OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 37

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Ffioedd Cleifion) (Cymru) 2026

Gwnaed *9 Chwefror 2026*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 37

The National Health Service (General Dental Services Contracts and Patient Charges) (Wales) Regulations 2026

Made *9 February 2026*

Coming into force in accordance with regulation 1(2)

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 37

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Ffioedd Cleifion) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi, o ran Cymru, y fframwaith ar gyfer contractau gwasanaethau deintyddol cyffredinol o dan adran 57 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 ("y Ddeddf").

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn rhagnodi'r amodau y mae rhaid i gontractwr, yn unol ag adran 59 o'r Ddeddf, eu bodloni cyn y caiff y Bwrdd Iechyd Lleol ymrwymo i gontract gwasanaethau deintyddol cyffredinol ag ef.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau yn rhagnodi'r weithdrefn ar gyfer datrys anghydfodau cyn contract, yn unol ag adran 62(2) o'r Ddeddf. Mae Rhan 3 yn gymwys i achosion pan nad yw'r contractwr yn gorff gwasanaeth iechyd. Mewn achosion pan fo'r contractwr yn gorff o'r fath, nodir y weithdrefn ar gyfer ymdrin ag anghydfodau cyn contract yn adran 7 o'r Ddeddf.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau yn nodi'r gweithdrefnau, yn unol ag adran 62(3) o'r Ddeddf, y caiff contractwr sicrhau statws corff gwasanaeth iechyd drwyddynt.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau (ac Atodlenni 1 i 5 iddynt) yn rhagnodi'r telerau y mae rhaid, yn unol ag adrannau 61 a 62 o'r Ddeddf, eu cynnwys mewn contract gwasanaethau deintyddol cyffredinol (yn ogystal â'r rhai a gynhwysir yn y Ddeddf). Mae'n cynnwys, yn rheoliad 14, ddisgrifiad o'r gwasanaethau y mae rhaid eu darparu i gleifion o dan gontractau gwasanaethau deintyddol cyffredinol yn unol ag adran 58 o'r Ddeddf.

Mae'r telerau rhagnodedig yn cynnwys telerau sy'n ymwneud â'r canlynol—

(a) partïon a hyd y contract (rheoliadau 10 a 13);

(b) y gwasanaethau gorfodol i'w darparu (rheoliad 14) a chyfrannau safonol y gwasanaethau hynny (rheoliad 17);

(c) adroddiadau cyflenwi (rheoliadau 20 a 24);

(d) cyllid (rheoliad 30);

(e) taliadau, ffioedd a buddiannau ariannol (rheoliad 31);

(f) trefniadau pan derfynir contract (rheoliad 32);

(g) telerau contractiol eraill fel y'u pennir yn Atodlen 3, gan gynnwys cofnodion cleifion, darparu gwybodaeth a hawliau mynediad, pryderon, datrys anghydfodau a gweithdrefnau ar gyfer amrywio a therfynu contractau.

Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau yn gwneud darpariaethau trosiannol. Mae gan gontract presennol effaith ar ac ar ôl 1 Ebrill 2026 fel pe bai yn gontract yr ymrwymwyd iddo o dan y Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 31 ac Atodlen 5 yn nodi'r modd y mae ffioedd cleifion i gael eu casglu a'u cyfrifo yn ogystal ag yn darparu ar gyfer esemptiadau o dan rai amgylchiadau.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006 er mwyn newid y modd y cyfrifir ffioedd cleifion.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006 er mwyn alinio'r modd y darperir ar gyfer gwasanaethau gorfodol a ffioedd cleifion yn y Rheoliadau hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 37

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Ffioedd Cleifion) (Cymru) 2026

Gwnaed *9 Chwefror 2026*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

CYNNWYS

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 2, 56(5) a (6), 57, 58, 59, 60(2), 61, 62, 63(1), 66(1) a (4), 125(1), 126(5) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

(**1**) 2006 p. 42.

RHAN 1
CYFFREDINOL

Enwi, dod i rym a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Ffioedd Cleifion) (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 11 Mawrth 2026, ac eithrio rheoliadau 42 a 43 sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2026.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "ACORN" ("*ACORN*") yw'r pecyn cymorth Asesiad o Risgiau ac Anghenion Clinigol y Geg fel y'i diffinnir gan Weinidogion Cymru ac a gyhoeddir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru(**2**);

ystyr "adenilliad ariannol" ("*financial recovery*") yw adenilliad gan Fwrdd Iechyd Lleol o symiau sydd eisoes wedi eu talu i gontractwr am wasanaethau gorfodol y mae'r contractwr wedi methu â'u cyflenwi, sef adenilliad o hyd at 100% o werth y tanberfformiad pan fo'r cyflenwad yn disgyn islaw 95%;

ystyr "adroddiad cyflenwi blynyddol" ("*annual delivery report*") yw adroddiad a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Lleol i gontractwr o fewn 20 niwrnod clir i ddiwedd y flwyddyn gontract, sy'n nodi canran y gwasanaethau gorfodol a gyflenwyd gan y contractwr ym mhob categori yn ystod y flwyddyn gontract honno, a phan fo'r cyflenwad yn disgyn islaw 95% neu'n fwy na 100%, sy'n nodi'r canlyniadau ariannol gan gynnwys unrhyw addasiad ariannol neu adenilliad ariannol sydd i'w gymhwyso, neu unrhyw daliad cydnabyddiaeth ychwanegol sy'n ddyledus i'r contractwr;

ystyr "adroddiad cyflenwi interim" ("*interim delivery report*") yw adroddiad a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Lleol i gontractwr erbyn diwedd y seithfed mis o'r flwyddyn gontract, sy'n nodi canran y gwasanaethau gorfodol a gyflenwyd gan y contractwr ym mhob categori fel ar ddiwedd y chweched mis o'r flwyddyn gontract, a phan fo'r cyflenwad yn disgyn islaw 40%, sy'n nodi'r diffyg ac unrhyw addasiad ariannol canol blwyddyn arfaethedig;

ystyr "aelod o deulu" ("*family member*") yw—

(a) priod,

(b) partner sifil,

(c) person y mae i'w berthynas â'r claf cofrestredig nodweddion y berthynas rhwng pâr priod neu bartneriaid sifil,

(d) rhiant neu lys-riant,

(e) mab,

(f) merch,

(g) plentyn y mae'r person—

(**2**) https://gofalsylfaenolun.gig.cymru/pynciau/gofal-deintyddol-sylfaenol1/rhaglen-diwygior-yng-nghymru/adnoddau-ar-gyfer-timau-clinigol/

(i) yn warcheidwad iddo,

(ii) yn ofalwr iddo sydd wedi ei awdurdodi'n briodol gan yr awdurdod lleol y traddodwyd y plentyn i'w ofal o dan Ddeddf 1989, neu

(h) tad-cu/taid neu fam-gu/nain;

ystyr "anghymhwysiad cenedlaethol" ("*national disqualification*") yw—

(a) penderfyniad a wneir gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 159 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**3**),

(b) penderfyniad o dan ddarpariaethau sydd mewn grym yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon sy'n cyfateb i adran 159 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006, neu

(c) penderfyniad o dan reoliadau a wneir yn unol ag adran 63 o Ddeddf 2006 (personau sy'n cyflawni gwasanaethau deintyddol sylfaenol);

ystyr "apwyntiad adalw" ("*recall appointment*") yw archwiliad deintyddol rheolaidd a ddarperir i glaf gweithredol ar ôl ysbaid a benderfynir gan y contractwr yn unol â chanllaw CG19 NICE, sef ysbaid o rhwng 3 a 24 o fisoedd ar sail categori risg iechyd geneuol y claf (risg isel, cymedrol neu uchel), at ddiben monitro iechyd geneuol y claf a darparu gofal ataliol;

ystyr "apwyntiad gofal brys" ("*urgent care appointment*") yw apwyntiad a ddarperir o fewn 72 awr i glaf y mae arno angen gofal deintyddol prydlon oherwydd poen, anghysur, trawma neu haint acíwt, neu, pan na fo'n briodol yn glinigol darparu triniaeth o fewn yr amserlen honno, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny;

ystyr "archwiliad ac asesiad cychwynnol" ("*initial examination and assessment*") yw archwiliad ac asesiad o glaf sy'n cynnwys—

(a) archwiliad clinigol sy'n cynnwys cwblhau asesiad ACORN, adolygiad o anghenion meddygol a deintyddol y claf a'i anghenion o ran ffordd o fyw ac o ran hygyrchedd, archwiliad geneuol clinigol gan gynnwys asesiad periodontol, canfod pydredd, ac archwiliad o feinweoedd meddal, ac archwiliad o'r dannedd a thriniaethau adferol presennol, archwiliad radiograffyddol pan fo rheswm clinigol amdano, asesiad o achludiad ac archwiliad o'r cymal arleisiol-fandiblol pan fo rheswm clinigol amdano, a

(b) asesiad sy'n cynnwys dyrannu risg (isel, cymedrol neu uchel), darparu cyngor ataliol wedi ei deilwra a hybu iechyd geneuol, llunio pecyn gofal wedi ei bersonoli neu gyfuniad o becynnau gofal pan fo triniaeth yn angenrheidiol, a chofnodion clinigol cynhwysfawr a mesurau canlyniadau;

ystyr "archwiliad clinigol" ("*clinical examination*") yw apwyntiad sy'n cynnwys archwiliad o iechyd geneuol claf pan na fo triniaeth hefyd yn cael ei darparu yn yr apwyntiad hwnnw;

ystyr "asesiad claf newydd" ("*new patient assessment*") yw asesiad a gynhelir yn unol â pharagraff 10 o Ran 2 o Atodlen 1;

ystyr "blaenoriaethau cenedlaethol" ("*national priorities*") yw gwasanaethau a ddarperir yn unol â'r Cynllun Blaenoriaethau Cenedlaethol a nodir yn Rhan 5 o

(**3**) Amnewidiwyd geiriau adran 159 gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Tribiwnlysoedd 2010 (O.S. 2010/22), Atodlen 2, paragraff 119(a) a (b) a Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7), adran 208(4)(b) ac Atodlen 4(7) paragraff 85(6)(a) a (b); a diddymwyd adran 1(a)(b) gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7), Rhan 6, adran 208(4)(a).

Atodlen 1 ac a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 60(3)(b)(i) o Ddeddf 2006;

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf 2006, sy'n barti, neu'n ddarpar barti, i'r contract;

ystyr "carchar" ("*prison*") yw unrhyw sefydliad a ddefnyddir ar gyfer carcharu'n gyfreithlon unrhyw unigolion sydd wedi eu dedfrydu neu eu remandio gan y llysoedd ac mae'n cynnwys sefydliad troseddwyr ifanc, canolfan hyfforddi ddiogel, cartref diogel i blant, a charchar y llynges, y fyddin neu'r awyrlu;

ystyr "claf" ("*patient*") yw person y mae'r contractwr yn darparu gwasanaethau iddo o dan y contract;

ystyr "claf gweithredol" ("*active patient*") yw claf sydd wedi cael cwrs o driniaeth gan y contractwr yn ystod y 36 mis blaenorol a bod y cwrs o driniaeth hwnnw naill ai wedi ei fandio o dan Reoliadau (Ffioedd) 2006 neu becyn gofal neu asesiad claf newydd;

ystyr "cofnod claf" ("*patient record*") yw cofnod (ar bapur neu ar ffurf electronig) a gynhelir gan y contractwr at ddiben cofnodi triniaeth a ddarperir i glaf;

ystyr "cofrestr deintyddion" ("*dentists register*") yw'r gofrestr y cyfeirir ati yn adran 14(1) o Ddeddf 1984(**4**);

ystyr "cofrestr o broffesiynolion gofal deintyddol" ("*register of dental care professionals*") yw'r gofrestr a gynhelir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol o dan adran 36B o Ddeddf 1984 (y gofrestr o broffesiynolion gofal deintyddol)(**5**);

ystyr "contract" ("*contract*"), ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, yw contract gwasanaethau deintyddol cyffredinol o dan adran 57 o Ddeddf 2006 (contractau gwasanaethau deintyddol cyffredinol: rhagarweiniol);

mae i "contract GIG" yr un ystyr ag a roddir i "NHS contract" yn adran 7 o Ddeddf 2006;

ystyr "contractwr" ("*contractor*") yw unrhyw berson sy'n ymrwymo, neu sydd wedi ymrwymo, i gontract gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol;

ystyr "corff gwasanaeth iechyd" ("*health service body*") yw—

(a) Bwrdd Iechyd Lleol, ymddiriedolaeth GIG neu Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlwyd o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, a

(b) unrhyw gorff cyfatebol sy'n arfer swyddogaethau sy'n cyfateb i swyddogaethau Bwrdd Iechyd Lleol, ymddiriedolaeth GIG neu Awdurdod Iechyd Arbennig, ac sy'n cynnwys yn benodol gyrff a elwid ar yr adeg berthnasol yn—

(i) Awdurdod Iechyd Strategol,

(ii) Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol,

(iii) Grŵp Comisiynu Clinigol, neu

(**4**) 1984 p. 24. Amnewidiwyd adran 14(1) gan O.S. 2005/2011, erthyglau 2(1) a 6, ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2007/3101, rheoliadau 109 a 111, a chan O.S. 2019/593, rheoliad 4(1) a pharagraffau 2, a 4(a) ac (c) o Atodlen 3.

(**5**) Mewnosodwyd adran 36B gan Orchymyn Deddf Deintyddion 1984 (Diwygio) 2005 (O.S. 2005/2011), Rhan 4, erthygl 29, ac amnewidiwyd geiriad adran 36B(1A) gan Reoliadau Cymwysterau Ewropeaidd (Y Proffesiynau Iechyd a Gofal Cymdeithasol) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/593), Atodlen 3(1), paragraff 18.

(iv) System Gofal Integredig,

neu unrhyw gorff sy'n olynu neu'n disodli'r cyrff hynny ac sy'n cyflawni swyddogaethau sy'n cyfateb yn sylweddol;

ystyr "corff trwyddedu" ("*licensing body*") yw unrhyw gorff sy'n trwyddedu neu'n rheoleiddio'r proffesiynau gofal iechyd;

ystyr "corfforaeth ddeintyddol" ("*dental corporation*") yw corff corfforedig sy'n cynnal busnes deintyddiaeth yn unol â Deddf 1984;

ystyr "cwblhau" ("*complete*") mewn perthynas â chwrs o driniaeth a phecyn gofal, yw—

(a) pan na fo rhaid darparu cynllun triniaeth mewn cysylltiad â chwrs o driniaeth yn unol â pharagraff 7 o Atodlen 3 (cynlluniau triniaeth), bod yr holl driniaeth a argymhellwyd i'r claf gan y contractwr, ac y cytunwyd arni gyda'r claf, yn yr archwiliad a'r asesiad cychwynnol o'r claf hwnnw wedi ei darparu i'r claf, neu

(b) pan fo rhaid darparu cynllun triniaeth i'r claf yn unol â pharagraff 7 o Atodlen 3, bod yr holl driniaeth a bennir yn y cynllun hwnnw gan y contractwr (neu'r cynllun hwnnw fel y'i diwygiwyd yn unol â pharagraff 7(3) o'r Atodlen honno) wedi ei darparu i'r claf;

ystyr "cwrs o driniaeth" ("*course of treatment*") yw—

(a) archwiliad cychwynnol o'r claf, asesiad o iechyd geneuol y claf, a chynllunio unrhyw driniaeth sydd i'w darparu i'r claf hwnnw o ganlyniad i'r archwiliad cychwynnol hwnnw a'r asesiad hwnnw yn rhan o becyn gofal ac fel y nodir mewn cynllun triniaeth o dan baragraff 7 o Atodlen 3, a

(b) darparu unrhyw driniaeth a gynllunnir o dan becyn neu becynnau gofal (gan gynnwys unrhyw driniaeth a gynllunnir ar adeg heblaw adeg yr archwiliad cychwynnol) i'r claf hwnnw;

ystyr "cyfarpar deintyddol" ("*dental appliance*") yw dant gosod neu bont ac, at ddibenion y diffiniad hwn, mae dant gosod yn cynnwys argaead;

ystyr "cyfarwyddwr" ("*director*") yw—

(a) cyfarwyddwr corff corfforedig, neu

(b) aelod o'r corff o bersonau sy'n rheolaethu corff corfforedig (pa un a yw'n bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ai peidio);

mae "cyfarwyddwr corff corfforedig" ("*director of a body corporate*") yn cynnwys aelod o'r corff o bersonau sy'n rheolaethu corff corfforedig (pa un a yw'n bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ai peidio);

ystyr "cyfarwyddyd wrth aros am ymchwiliad" ("*direction pending an investigation*") yw cyfarwyddyd a ddyroddir gan reoleiddiwr sy'n gosod gofynion, cyfyngiadau neu amodau ar gofrestriad, cwmpas ymarfer, neu swyddogaethau person at ddiben diogelu'r cyhoedd, buddiannau'r cyhoedd, neu fuddiannau'r person hwnnw, ar gyfer cyfnod pan mae ymchwiliad i'r person hwnnw yn cael ei gynnal;

ystyr "cyfnod gwarant" ("*guarantee period*") yw—

(a) mewn perthynas â phecyn gofal safonol, 24 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y darparwyd y driniaeth adferol neu'r driniaeth, neu

(b) mewn perthynas â phecyn gofal brys a gyflenwir yn ystod apwyntiad gofal brys, 12 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y darparwyd y driniaeth adferol neu'r driniaeth;

mae i "cyfrifoldeb rhiant" yr un ystyr ag a roddir i "parental responsibility" yn adrannau 2 a 3 o Ddeddf 1989;

ystyr "cynllun triniaeth atgyfeirio" ("*referral treatment plan*") yw cynllun triniaeth a ddarperir yn unol â pharagraff 7(1) o Atodlen 3 neu'r cynllun hwnnw fel y'i hamrywir yn unol â pharagraff 7(3) o'r Atodlen honno;

ystyr "dadrestru" ("*de-listing*") yw claf sy'n peidio â bod yn glaf gweithredol am nad yw wedi mynd i bractis lle y mae'n glaf gweithredol am gyfnod hwy nag 36 o fisoedd neu am ei fod wedi ei ddileu o restr y practis hwnnw o gleifion gweithredol o ganlyniad i gymhwyso paragraff 15 o Atodlen 1 neu baragraffau 4 a 5 o Atodlen 3;

ystyr "darparwr gwasanaeth perthnasol arall" ("*other relevant service provider*") yw darparwr gwasanaethau deintyddol sylfaenol o dan Ran 1 o Ddeddf 2006 (heblaw contractwr arall neu ysbyty) y gellir atgyfeirio claf ato i gael gwasanaethau gorfodol uwch, gwasanaethau cartref neu wasanaethau tawelyddu;

ystyr "Deddf 1984" ("*the 1984 Act*") yw Deddf Deintyddion 1984(**6**);

ystyr "Deddf 1986" ("*the 1986 Act*") yw Deddf Ansolfedd 1986(**7**);

ystyr "Deddf 1989" ("*the 1989 Act*") yw Deddf Plant 1989(**8**);

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "deintydd" ("*dentist*") yw proffesiynolyn deintyddol cofrestredig fel y'i cydnabyddir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol;

ystyr "deintyddfa symudol" ("*mobile surgery*"), ac eithrio pan ddarperir yn benodol fel arall yn y Rheoliadau hyn, yw unrhyw gerbyd y mae gwasanaethau o dan y contract i'w darparu ynddo;

ystyr "dyfarnwr" ("*adjudicator*") yw Gweinidogion Cymru neu berson neu bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 7(8) o Ddeddf 2006 (contractau GIG) neu baragraff 54(4) o Atodlen 3 (gweithdrefn datrys anghydfodau'r GIG) i'r Rheoliadau hyn;

ystyr "Ffi GIG" ("*NHS Charge*") yw ffi a godir ar y claf am ddarparu gwasanaethau yn unol â Rheoliadau (Ffioedd) 2006 neu'r Rheoliadau hyn;

ystyr "ffurflen bresgripsiwn" ("*prescription form*") yw dogfen ysgrifenedig neu electronig, a ddyroddir gan ragnodydd awdurdodedig, sy'n cofnodi'r cynnyrch meddyginiaethol, y cyfarpar deintyddol, neu'r eitem arall sydd i'w gyflenwi neu ei chyflenwi i glaf, ac sydd wedi ei chwblhau, ei llofnodi, neu ei dilysu yn unol ag unrhyw ofynion a osodir gan y Bwrdd Iechyd Lleol at ddiben galluogi gweinyddu cyfreithlon;

ystyr "gofal brys" ("*urgent care*") yw triniaeth i leddfu poen a/neu i atal problem ddeintyddol benodol rhag dirywio'n sylweddol, gyda'r nod o ddarparu datrysiad hirdymor, pan fo'n bosibl;

(**6**) 1984 p. 24.
(**7**) 1986 p. 45.
(**8**) 1989 p. 41.

ystyr "gofynion rheoleiddiol proffesiynol" ("*professional regulatory requirements*") yw'r dyletswyddau, y safonau, y cymwyseddau a'r rhwymedigaethau a osodir ar ddeintyddion a phroffesiynolion gofal deintyddol gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol fel y rheoleiddiwr statudol, gan gynnwys cydymffurfedd â gofynion y Cyngor yn ymwneud â chofrestru, cwmpas ymarfer, ymddygiad proffesiynol, datblygiad proffesiynol parhaus, addasrwydd i ymarfer, ac unrhyw reolau neu safonau eraill a ddyroddir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol o bryd i'w gilydd;

ystyr "Gorchymyn 2005" ("*the 2005 Order*") yw Gorchymyn Deddf Deintyddion 1984 (Diwygio) 2005(**9**);

ystyr "gorchymyn atal dros dro interim" ("*interim suspension order*") yw mesur sy'n dileu person cofrestredig o'r gofrestr dros dro wrth aros i ymchwiliad ac unrhyw wrandawiad disgyblu dilynol gael eu cwblhau;

ystyr "gwasanaeth atgyfeirio" ("*referral service*") yw un neu ragor o wasanaethau gorfodol uwch, gwasanaethau cartref neu wasanaethau tawelyddu a ddarperir i glaf sydd, yn ystod cwrs o driniaeth, wedi ei atgyfeirio gan y contractwr at ddarparwr gwasanaethau deintyddol sylfaenol o dan Ran 1 o Ddeddf 2006, ar gyfer darparu un neu ragor o'r gwasanaethau hynny fel rhan o'r cwrs o driniaeth hwnnw;

ystyr "gwasanaethau atal" ("*prevention services*") yw gwasanaethau a ddarperir i atal clefydau geneuol a hybu iechyd geneuol, gan gynnwys cyngor ataliol wedi ei deilwra, addysg iechyd geneuol, cyngor ynghylch deiet a ffordd o fyw, defnyddio fflworid, selyddion rhychau, ac ymyriadau ataliol eraill sy'n seiliedig ar dystiolaeth, fel y'u nodir yn Rhan 4 o Atodlen 1;

ystyr "gwasanaethau cartref" ("*domiciliary services*") yw cwrs o driniaeth, neu ran o gwrs o driniaeth, a ddarperir mewn man heblaw—

(a) mangre practis unrhyw ddarparwr gwasanaethau deintyddol sylfaenol,

(b) deintyddfa symudol unrhyw ddarparwr gwasanaethau deintyddol sylfaenol, neu

(c) carchar;

ystyr "gwasanaethau clinigol" ("*clinical services*") yw gwasanaethau sy'n cynnwys archwiliad clinigol uniongyrchol, asesiad clinigol, diagnosis clinigol, triniaeth glinigol neu ofal ar gyfer cleifion, a ddarperir o dan y contract gan ymarferwyr deintyddol, proffesiynolion gofal deintyddol, neu broffesiynolion gofal iechyd eraill;

ystyr "gwasanaethau deintyddol estynedig o ran hygyrchedd" ("*accessibility-enhanced dental services*") yw gwasanaethau sydd wedi eu dylunio i ddarparu ar gyfer anghenion corfforol a synhwyraidd amrywiol, er enghraifft darpariaeth fariatrig oherwydd anghenion corfforol neu anghenion symudedd, neu ddriliau tawel neu ddriliau laser;

ystyr "gwasanaethau deintyddol preifat" ("*private dental services*") yw gwasanaethau deintyddol ac eithrio at ddibenion Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

mae i "gwasanaethau deintyddol sylfaenol" yr un ystyr ag a roddir i "primary dental services" yn adran 58 o Ddeddf 2006;

ystyr "gwasanaethau gorfodol" ("*mandatory services*") yw'r gwasanaethau a restrir yn rheoliad 14 ac a ddisgrifir yn Atodlen 1;

(**9**) O.S. 2005/2011.

ystyr “gwasanaethau gorfodol uwch” (“*advanced mandatory services*”) yw unrhyw wasanaeth deintyddol sylfaenol a fyddai’n dod o fewn y gwasanaethau a ddisgrifir yn rheoliad 14 (gwasanaethau gorfodol), ond yn rhinwedd lefel uchel y cyfleusterau, y profiad neu’r arbenigedd sy’n ofynnol mewn cysylltiad â chlaf penodol, mae’r gwasanaeth yn cael ei ddarparu fel gwasanaeth atgyfeirio;

ystyr “gwasanaethau tawelyddu” (“*sedation services*”) yw cwrs o driniaeth a ddarperir i glaf y mae’r darparwr, yn ystod y cwrs o driniaeth hwnnw, yn rhoi un neu ragor o gyffuriau i glaf sy’n arafu gweithrediad y system nerfol ganolog i alluogi triniaeth i gael ei chynnal, ac yn ystod y cyfnod hwnnw o dawelyddu ac mewn cysylltiad ag ef—

(a) cyflwynir y cyffuriau a’r technegau a ddefnyddir i dawelyddu’r claf gan y darparwr mewn ffordd sy’n sicrhau nad yw’n debygol y bydd y claf yn colli ymwybyddiaeth, a

(b) cedwir cyswllt geiriol â’r claf i’r graddau y mae hynny’n rhesymol bosibl;

ystyr “gweithdrefn datrys anghydfodau’r GIG” (“*NHS dispute resolution procedure*”) yw’r weithdrefn ar gyfer anghydfodau a bennir ym mharagraff 54 o Atodlen 3;

ystyr “gweithdrefn lefel 1” (“*level 1 procedure*”) yw triniaeth sydd wedi ei chategoreiddio yn driniaeth lefel 1 yn unol â chanllawiau comisiynu GIG Lloegr ar gyfer llawdriniaeth eneuol(**10**) neu ddogfen gyfatebol a fabwysiedir gan Fyrddau Iechyd Lleol Cymru;

ystyr “gwerth blynyddol y contract” (“*annual contract value*”) yw cyfanswm y gwerth blynyddol mewn punnoedd sterling y cytunir arno rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a’r contractwr ar gyfer darparu gwasanaethau gorfodol o dan y contract, wedi ei gyfrifo yn unol â chyfarwyddydau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 60 o Ddeddf 2006, fel y caniateir iddynt gael eu hamrywio o bryd i’w gilydd yn unol â thelerau’r contract;

ystyr “hylenyddion deintyddol” (“*dental hygienists*”) yw proffesiynolion deintyddol cofrestredig y mae eu prif rôl yn golygu darparu gofal geneuol ataliol, a gyflenwir yn uniongyrchol neu o dan oruchwyliaeth deintydd;

ystyr “hysbysiad atgyfeirio” (“*referral notice*”) yw’r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff 9(2)(a) o Atodlen 3 (atgyfeirio at gontractwr arall, ysbyty neu ddarparwr gwasanaeth perthnasol arall ar gyfer gwasanaethau gorfodol uwch, gwasanaethau cartref neu wasanaethau tawelyddu);

ystyr “Iechyd a Gofal Digidol Cymru” (“*Digital Health and Care Wales*”) yw’r sefydliad a sefydlwyd o dan Orchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020(**11**);

ystyr “is-gontractwr” (“*sub-contractor*”) yw person y mae’r contractwr wedi gwneud trefniant ag ef yn unol â pharagraff 32 neu 77 o Atodlen 3;

ystyr “llys-riant” (“*step parent*”) yw person sy’n briod â rhiant biolegol plentyn (neu mewn partneriaeth sifil â rhiant biolegol plentyn), ond nad yw ei hun yn rhiant biolegol na mabwysiadol i’r plentyn ac sydd wedi caffael cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn o dan sylw yn unol ag adran 4A o Ddeddf 1989;

(**10**) GIG Lloegr (2015) Guide for Commissioning Oral Surgery and Oral Medicine. https://www.england.nhs.uk/commissioning/wp-content/uploads/sites/12/2015/09/guid-comms-oral.pdf.
(**11**) O.S. 2020/1451 (Cy. 313).

ystyr “mangre practis” (“*practice premises*”), ac eithrio pan ddarperir yn benodol fel arall yn y Rheoliadau hyn, yw cyfeiriad a bennir yn y contract fel un y mae gwasanaethau i’w darparu ynddo o dan y contract ond nid yw’n cynnwys deintyddfa symudol;

ystyr “nyrs ddeintyddol” (“*dental nurse*”) yw proffesiynolyn deintyddol cofrestredig sy’n darparu cymorth clinigol a chymorth cysylltiedig i ddeintyddion, proffesiynolion gofal deintyddol a chleifion, fel y’i cydnabyddir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol;

ystyr “nyrsys deintyddol â dyletswyddau estynedig mewn addysg iechyd geneuol” (“*dental nurses with extended duties in oral health education*”) yw nyrsys deintyddol sydd wedi eu cofrestru â’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac sydd, yn ogystal â’u swyddogaethau cefnogol craidd, wedi ymgymryd â hyfforddiant cymeradwy sy’n eu galluogi i ddarparu addysg iechyd geneuol, rhoi cyngor ataliol ynghylch iechyd geneuol, a chyflawni dyletswyddau estynedig eraill;

ystyr “pecyn gofal” (“*care package*”) yw bwndel diffiniedig o’r gwasanaethau deintyddol a nodir yn Atodlen 2 a ddarperir i glaf fel cwrs o driniaeth yn seiliedig ar asesiad o risg ac angen clinigol;

mae i “person esempt” yr un ystyr ag a roddir i “exempt person” yn adran 126 o Ddeddf 2006;

ystyr “plentyn” (“*child*”) yw person nad yw wedi cyrraedd 18 oed;

ystyr “pont” (“*bridge*”) yw pont sefydlog neu symudadwy sy’n cymryd lle unrhyw ddannedd;

ystyr “Porth Mynediad Deintyddol” (“*Dental Access Portal*”) yw’r system dyrannu apwyntiadau deintyddol ar-lein a weinyddir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru;

ystyr “practis” (“*practice*”) yw’r busnes a weithredir gan y contractwr at ddiben cyflenwi gwasanaethau o dan y contract;

ystyr “prif ofalwr” (“*primary carer*”) yw’r unigolyn sy’n bennaf gyfrifol am ddarparu gofal neu gymorth i berson arall, pa un a yw’r unigolyn yn cael tâl cydnabyddiaeth am wneud hynny ai peidio, ac ni waeth a yw’r gofal yn cael ei ddarparu drwy drefniant ffurfiol neu anffurfiol, ac mae’n cynnwys person sy’n darparu gofal o’r fath oherwydd perthynas deuluol, cyfeillgarwch neu drefniant gofalu cydnabyddedig;

ystyr “proffesiynolion gofal iechyd eraill” (“*other healthcare professionals*”) yw proffesiynolion gofal iechyd cofrestredig (heblaw ymarferwyr deintyddol neu broffesiynolion gofal deintyddol) a all fod yn rhan o ddarparu neu gefnogi gwasanaethau o dan y contract;

ystyr “proffesiynolyn gofal deintyddol” (“*dental care professional*”) yw person y mae ei enw wedi ei gynnwys yn y gofrestr deintyddion a sefydlwyd yn unol ag adran 14 o Ddeddf 1984 neu berson sydd wedi cymhwyso i ymarfer agweddau penodol ar ofal deintyddol ac sydd wedi ei gofrestru â’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol o dan un o’r teitlau proffesiynol cydnabyddedig;

ystyr “proses ddadrestru” (“*de-listing process*”) yw’r broses y mae rhaid dadrestru claf drwyddi, a rhaid i’r practis—

(a) hysbysu’r claf yn ysgrifenedig am y bwriad i’w ddileu o’i restr o gleifion gweithredol, gan gynnwys y rhesymau, a

(b) darparu i’r claf gyfle i ymateb a gwneud sylwadau o fewn 14 o ddiwrnodau calendr clir;

ystyr "pryder" ("*concern*") yw unrhyw gŵyn neu hysbysiad am ddigwyddiad yn ymwneud â diogelwch claf, ond nid yw'n cynnwys hawliad am ddigollediad;

ystyr "Pwyllgor Practis" ("*Practice Committee*") yw unrhyw un neu ragor o'r pwyllgorau a restrir yn adran 27A(4)(a) o Ddeddf 1984;

ystyr "rhagnodydd" ("*prescriber*") yw ymarferydd deintyddol a gymerir ymlaen neu a gyflogir gan y contractwr neu sy'n barti i'r contract;

ystyr "Rheoliadau 2006" ("*the 2006 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006(**12**);

ystyr "Rheoliadau 2011" ("*the 2011 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011(**13**);

ystyr "Rheoliadau (Ffioedd) 2006" ("*the 2006 (Charges) Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006(**14**);

ystyr "Rheoliadau (GDP) 2006" ("*the 2006 (PDS) Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006(**15**);

ystyr "rhestr cyflawnwyr deintyddol" ("*dental performers list*") yw'r rhestr a lunnir gan Fwrdd Iechyd Lleol yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 63 o Ddeddf 2006 (personau sy'n cyflawni gwasanaethau deintyddol sylfaenol);

ystyr "rhestr cyflawnwyr meddygol" ("*medical performers list*") yw rhestr o gyflawnwyr meddygol a lunnir gan Fwrdd Iechyd Lleol yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 49 o Ddeddf 2006 (personau sy'n cyflawni gwasanaethau meddygol sylfaenol);

ystyr "rhestredig" ("*listed*") yw'r cyffuriau neu'r meddyginiaethau hynny neu'r cyfarpar deintyddol hwnnw sydd wedi eu cynnwys neu ei gynnwys mewn rhestr sydd am y tro wedi ei chymeradwyo gan Weinidogion Cymru at ddibenion adran 80 o Ddeddf 2006(**16**) (trefniadau ar gyfer gwasanaethau fferyllol);

ystyr "rhiant" ("*parent*"), mewn perthynas ag unrhyw blentyn, yw rhiant neu berson arall a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn hwnnw;

ystyr "rhif cofrestru proffesiynol" ("*professional registration number*") yw'r rhif gyferbyn ag enw ymarferydd deintyddol yn y gofrestr deintyddion;

ystyr "rhif cyfradd premiwm" ("*premium rate number*") yw rhif ffôn a ddynodir yn Dariff Heb ei Fwndelu neu rif cyfradd premiwm yn y Cynllun Rhifau Ffôn Cenedlaethol a gyhoeddir gan y Swyddfa Gyfathrebiadau o dan adran 56 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**17**);

ystyr "sefydliad gwirfoddol" ("*voluntary organisation*") yw corff, ac eithrio awdurdod cyhoeddus neu awdurdod lleol, nas cyflawnir ei weithgareddau er mwyn gwneud elw;

(**12**) O.S. 2006/490 (Cy. 59).
(**13**) O.S. 2011/704 (Cy. 108).
(**14**) O.S. 2006/491 (Cy. 60).
(**15**) O.S. 2006/489 (Cy. 58).
(**16**) Amnewidiwyd adran 80(4)(a) gan Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017 (p. 16) ("Deddf 2017") Atodlen 5(2) paragraff 47(k), ac amnewidiwyd adran 4A gan Atodlen 5(1) paragraff 31 o Ddeddf 2017.
(**17**) 2003 p. 21.

ystyr "swyddogaethau iechyd deintyddol y cyhoedd" ("*dental public health functions*") yw swyddogaethau a ddarperir gan y contractwr yn rhinwedd adran 67(3)(c) o Ddeddf 2006;

ystyr "teitlau proffesiynol cydnabyddedig" ("*recognised professional titles*") yw unrhyw deitl proffesiynol—

(a) sy'n cael ei warchod gan ddeddfiad sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr neu sydd wedi ei roi o dan ddeddfiad o'r fath, a

(b) y caniateir ei ddefnyddio'n gyfreithlon dim ond gan berson sydd wedi ei gofrestru, ei drwyddedu, ei awdurdodi neu ei reoleiddio fel arall gan y corff sy'n gyfrifol am y proffesiwn hwnnw, mae hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) deitlau a warchodir o dan—

(i) Deddf Deintyddion 1984,

(ii) Deddf Meddygaeth 1983

(iii) Gorchymyn Proffesiynau Iechyd 2001,

(iv) Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, a

(v) unrhyw ddeddfiad sy'n disodli neu'n diwygio'r offerynnau hynny;

ystyr "trawma" ("*trauma*") yw niwed i ddannedd, meinweoedd y deintgig neu alfeoli a achosir gan rym sy'n deillio o'r tu allan i'r geg, gan arwain at symud, dadleoli, lled-ddadleoli neu dorri'r meinweoedd caled neu at anafu'r meinweoedd meddal;

ystyr "triniaeth adferol" ("*restoration*") yw unrhyw weithdrefn neu unrhyw ddeunydd a ddefnyddir i atgyweirio, amnewid neu ailadeiladu strwythur y dant sydd wedi ei golli neu ei ddifrodi, gan gynnwys gosod llenwadau, mewnosodiadau, arosodiadau, coronau, pontydd a chyfarpar prosthetig;

ystyr "triniaeth ddiffiniol" ("*definitive treatment*") yw triniaeth y bwriedir iddi ddarparu datrysiad hirdymor neu barhaol i broblem ddeintyddol, yn hytrach nag ateb dros dro y rhoddir yn ei le nes y gellir darparu datrysiad hirdymor neu barhaol;

ystyr "triniaeth frys" ("*urgent treatment*") yw triniaeth a ddarperir yn ystod Apwyntiad Gofal Brys a drefnir o dan baragraffau 3 a 4 o Atodlen 1 neu mewn perthynas â gofal brys claf gweithredol;

ystyr "therapyddion deintyddol" ("*dental therapists*") yw proffesiynolion deintyddol cofrestredig sy'n gymwys i gynnal mathau penodedig o driniaeth ddeintyddol yn uniongyrchol neu o dan oruchwyliaeth deintydd;

ystyr "ymarferydd deintyddol" ("*dental practitioner*") yw person sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr deintyddion;

ystyr "ymddiriedolwr elusen" ("*charity trustee*") yw un o'r personau sy'n rheolaethu a rheoli gweinyddiaeth elusen yn gyffredinol;

ystyr "ysgrifennydd cwmni" ("*company secretary*") yw'r swyddog mewn cwmni a benodir yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006, ac mae'n cynnwys unrhyw berson a awdurdodir gan y cwmni i gyflawni'r swyddogaethau statudol neu weinyddol, neu'r swyddogaethau o ran cydymffurfedd, sydd fel arfer yn arferadwy gan ysgrifennydd cwmni, pa un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â pherson arall.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) mae cyfeiriadau at ffurflenni a gyflenwir gan y Bwrdd Iechyd Lleol i gontractwyr yn cynnwys ffurflenni electronig a ffurflenni a gynhyrchir yn electronig, ond nid ydynt yn cynnwys ffurflenni presgripsiwn, a

(b) mae cyfeiriadau at gyflenwi gwasanaethau yn cynnwys cyflenwi gwasanaethau drwy ddefnyddio dulliau electronig fel fideogynadledda—

(i) pan fo'n briodol cyflenwi'r gwasanaeth yn y ffordd hon ym marn glinigol yr ymarferydd deintyddol,

(ii) pan fo'r system sydd i'w defnyddio yn un sydd wedi ei chymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd Lleol, a

(iii) pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi darparu yn ysgrifenedig ei ganiatâd i'r contractwr gyflenwi gwasanaethau penodol o dan y contract yn y ffordd hon.

RHAN 2

CONTRACTWYR

Amodau: rhagarweiniol

3. Ni chaiff Bwrdd Iechyd Lleol ond ymrwymo i gontract os gellir bodloni'r amodau a nodir yn—

(a) rheoliad 4, a

(b) yn achos contract sydd i'w ymrwymo iddo gyda chorfforaeth ddeintyddol ar neu ar ôl y dyddiad y daw erthygl 39 o Orchymyn Deddf Deintyddion 1984 (Diwygio) 2005(**18**) (amnewid adrannau 43 a 44) i rym at bob diben, rheoliad 5.

Amodau rhagnodedig

4.—(1) At ddibenion adran 59(1) o Ddeddf 2006 (personau sy'n gymwys i ymrwymo i gontractau GDC) yr amod rhagnodedig yw na chaiff person ddod o fewn paragraff (3).

(2) Mae'r cyfeiriad at "person" ym mharagraff (1) yn cynnwys unrhyw gyfarwyddwr, unrhyw brif weithredwr neu unrhyw ysgrifennydd cwmni i gorfforaeth ddeintyddol.

(3) Mae person yn dod o fewn y paragraff hwn—

(a) os yw'n destun anghymhwysiad cenedlaethol,

(b) yn ddarostyngedig i baragraff (4), os yw wedi ei anghymhwyso neu wedi ei atal dros dro (heblaw drwy orchymyn atal dros dro interim neu gyfarwyddyd wrth aros am ymchwiliad) rhag ymarfer gan unrhyw gorff trwyddedu unrhyw le yn y byd,

(c) os yw, o fewn y cyfnod o 5 mlynedd cyn y dyddiad y cychwynnodd y contract neu, os yw'n gynharach, y dyddiad y llofnodwyd y contract—

(i) wedi ei ddiswyddo (heblaw oherwydd dileu swydd) o unrhyw gyflogaeth gan gorff gwasanaeth iechyd, oni bai ei fod wedi ei gyflogi wedyn gan y corff gwasanaeth iechyd hwnnw neu gorff gwasanaeth iechyd arall a bod paragraff (5) yn gymwys iddo neu fod unrhyw dribiwnlys neu lys cymwys wedi dyfarnu bod y diswyddiad hwnnw yn ddiswyddiad annheg, neu

(ii) wedi ei ddileu o restr cyflawnwyr deintyddol neu feddygol, neu os gwrthodwyd ei gynnwys mewn rhestr o'r fath, oherwydd aneffeithlonrwydd, twyll neu anaddasrwydd, oni bai bod enw'r person hwnnw wedi ei gynnwys mewn rhestr o'r fath yn ddiweddarach,

(**18**) O.S. 2005/2011.

(d) os yw wedi ei euogfarnu yn y Deyrnas Unedig o—

(i) llofruddiaeth, neu

(ii) trosedd heblaw llofruddiaeth a gyflawnwyd ar neu ar ôl 26 Awst 2002, ac wedi ei ddedfrydu i gyfnod hwy na 6 mis o garchar,

(e) yn ddarostyngedig i baragraff (6), os yw wedi ei euogfarnu y tu allan i'r Deyrnas Unedig o drosedd—

(i) a fyddai'n llofruddiaeth pe bai wedi ei chyflawni yng Nghymru a Lloegr, neu

(ii) a gyflawnwyd ar neu ar ôl 26 Awst 2002, ac a fyddai'n drosedd heblaw llofruddiaeth pe bai wedi ei chyflawni yng Nghymru a Lloegr, a'i fod wedi ei ddedfrydu i gyfnod hwy na 6 mis o garchar,

(f) os yw wedi ei euogfarnu o drosedd y cyfeirir ati yn Atodlen 1 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933(**19**) (troseddau yn erbyn plant a phobl ifanc y mae darpariaethau arbennig o'r Ddeddf hon yn gymwys iddynt) neu yn Atodlen 1 i Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995(**20**) (troseddau yn erbyn plant o dan 17 oed y mae darpariaethau arbennig yn gymwys iddynt) a gyflawnwyd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2006,

(g) os yw—

(i) wedi ei wneud yn fethdalwr neu os dyfarnwyd i'w ystad gael ei secwestru neu os yw'n berson y mae cyfnod moratoriwm o dan orchymyn rhyddhau o ddyled (o dan Ran 7A o Ddeddf 1986) yn gymwys mewn perthynas ag ef oni bai ei fod wedi ei ryddhau o'r methdaliad neu'r secwestriad neu fod y gorchymyn methdaliad wedi ei annilysu,

(ii) wedi ei wneud yn ddarostyngedig i orchymyn cyfyngiadau methdaliad neu orchymyn cyfyngiadau methdaliad interim o dan Atodlen 4A(**21**) i Ddeddf 1986 neu orchymyn cyfyngiadau rhyddhau o ddyled neu orchymyn cyfyngiadau rhyddhau o ddyled interim o dan Atodlen 4ZB(**22**) i'r Ddeddf honno, oni bai bod y gorchymyn hwnnw wedi peidio â chael effaith neu ei fod wedi ei annilysu, neu

(iii) wedi gwneud cytundeb cyfansoddiad neu drefniant gyda'i gredydwyr, neu wedi rhoi gweithred ymddiriedolaeth ar eu cyfer, oni bai ei fod wedi ei ryddhau mewn cysylltiad â'r cyfansoddiad neu â'r trefniant,

(h) os oes gweinyddydd, derbynnydd gweinyddol neu dderbynnydd wedi ei benodi mewn cysylltiad â'r person,

(i) os yw, o fewn y cyfnod o 5 mlynedd cyn y dyddiad y cychwynnodd y contract neu, os yw'n gynharach, y dyddiad y llofnodwyd y contract—

(i) wedi ei ddiswyddo o swydd ymddiriedolwr elusen neu ymddiriedolwr ar gyfer elusen drwy orchymyn a wnaed gan y Comisiynwyr Elusennau neu'r Uchel Lys ar sail unrhyw gamymddwyn neu gamreoli wrth weinyddu'r elusen y bu'n gyfrifol amdano neu y bu'n gyfrannog iddo, neu y cyfrannwyd ato gan ei ymddygiad, neu a hwyluswyd gan ei ymddygiad, neu

(**19**) 1933 p. 12 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Troseddau Rhywiol 1956 (p. 69), adran 52, Atodlen 4; Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (p. 33), adran 170(1), Atodlen 15 paragraff 8 ac adran 170(2), Atodlen 16; Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 (p. 28), Atodlen 10 paragraff 2; Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 (p. 25), Atodlen 21(2) paragraff 53; Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 (p. 30), Atodlen 5(1) paragraffau 1(3) a (4); Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 (p. 50), Atodlen 14(2) paragraff 6 ac Atodlen 14(3) paragraff 13 (geiriau wedi eu hamnewid gan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (p. 42), Atodlen 6 paragraff 7).

(**20**) 1995 p. 46.

(**21**) 1986 p. 45. Mewnosodwyd Atodlen 4A gan adran 257 o Ddeddf Menter 2002 (p. 40) ac Atodlen 20 iddi.

(**22**) 1986 p. 45 Mewnosodwyd Atodlen 4ZB gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 (p. 15) Atodlen 19 paragraff 1.

(ii) wedi ei anghymhwyso o dan adran 69B o Ddeddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005(**23**) (anghymhwyso rhag dal swydd â swyddogaethau rheoli uwch) rhag ymwneud â rheoli neu reolaethu unrhyw gorff, neu

(j) os yw'n ddarostyngedig i orchymyn anghymhwyso o dan Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986(**24**).

(3) Nid yw person yn dod o fewn paragraff (3)(b) pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei fodloni bod yr anghymhwysiad neu'r ataliad dros dro rhag ymarfer wedi ei osod gan gorff trwyddedu y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac nad yw'n gwneud y person yn anaddas i fod—

(a) yn gontractwr, neu

(b) yn gyfarwyddwr, yn brif weithredwr neu'n ysgrifennydd cwmni i gorfforaeth sy'n ymrwymo i gontract, yn achos contract gyda chorfforaeth ddeintyddol.

(4) Pan fo person wedi ei gyflogi fel aelod o broffesiwn gofal iechyd, rhaid i unrhyw gyflogaeth ddiweddarach hefyd fod fel aelod o'r proffesiwn hwnnw.

(5) Nid yw person yn dod o fewn paragraff (3)(e) pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei fodloni nad yw'r euogfarn yn gwneud y person yn anaddas i fod—

(a) yn gontractwr;

(b) yn gyfarwyddwr, yn brif weithredwr neu'n ysgrifennydd cwmni i gorfforaeth sy'n ymrwymo i gontract, yn achos contract gyda chorfforaeth ddeintyddol.

Amodau rhagnodedig ychwanegol yn ymwneud â chontractau gyda chorfforaethau deintyddol

5.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae'n amod yn achos contract sydd i'w ymrwymo iddo gyda chorfforaeth ddeintyddol ar neu ar ôl y dyddiad y daw erthygl 39 o Orchymyn 2005(**25**) i rym at bob diben nad oes—

(a) trosedd wedi ei chyflawni nac yn cael ei chyflawni o dan adran 43 o Ddeddf 1984, na

(b) cosb ariannol wedi ei gosod o dan adran 43B neu 44 o Ddeddf 1984.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei fodloni nad yw unrhyw drosedd o dan adran 43 na chosb a osodwyd o dan adran 43B neu 44 o Ddeddf 1984 yn gwneud y gorfforaeth ddeintyddol yn anaddas i fod yn gontractwr, pa un ai yn rhinwedd yr amser sydd wedi mynd heibio ers unrhyw euogfarn neu'r gosb a osodwyd, neu fel arall.

Rhesymau

6.—(1) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol o'r farn nad yw'r amodau yn rheoliad 4 neu 5 ar gyfer ymrwymo i gontract wedi eu bodloni, rhaid iddo hysbysu yn ysgrifenedig y person neu'r personau sy'n bwriadu ymrwymo i'r contract am ei farn a'i resymau dros y farn honno ac am hawl y person hwnnw neu'r personau hynny i apelio o dan reoliad 7.

(2) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hefyd hysbysu yn ysgrifenedig am ei farn a'i resymau dros y farn honno gyfarwyddwr, prif weithredwr neu ysgrifennydd cwmni i gorfforaeth

(**23**) 2005 dsa 10.
(**24**) 1986 p. 46.
(**25**) Mae erthygl 39 yn amnewid adrannau 43 a 44 o Ddeddf 1984 ag adrannau 43, 43B, 44, 44A a 44B newydd gydag effaith o 19 Gorffennaf 2005.

ddeintyddol a hysbysir o dan baragraff (1) pan fo ei reswm dros y penderfyniad yn ymwneud â'r person hwnnw neu'r personau hynny.

Apêl

7. Caiff person y mae hysbysiad wedi ei gyflwyno iddo o dan reoliad 6(1) apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniad y Bwrdd Iechyd Lleol nad yw'r amodau yn rheoliad 4 neu 5 wedi eu bodloni.

RHAN 3

DATRYS ANGHYDFODAU CYN CONTRACT

Anghydfodau cyn contract

8.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), os na all y darpar bartïon i gontract, yn ystod trafodaethau y bwriedir iddynt arwain at gontract, gytuno ar un o delerau penodol y contract, caiff y naill barti neu'r llall atgyfeirio'r anghydfod at Weinidogion Cymru i ystyried y mater a phenderfynu arno yn unol â'r weithdrefn y darperir ar ei chyfer ym mharagraffau 54(2) a (3) o Atodlen 3.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys yn yr achos pan fo'r ddau barti i'r darpar gontract yn gyrff gwasanaeth iechyd (yn yr achos hwnnw mae adran 7(6) o Ddeddf 2006 (contractau'r GIG) yn gymwys).

(3) Cyn atgyfeirio'r anghydfod i'w ystyried a'i benderfynu o dan baragraff (1), rhaid i'r ddau barti i'r darpar gontract wneud pob ymdrech resymol i gyfathrebu a chydweithredu â'i gilydd gyda'r bwriad o'i ddatrys.

(4) Rhaid i anghydfodau a atgyfeirir at Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff (1), neu adran 7(6) o Ddeddf 2006, gael eu hystyried a'u penderfynu yn unol â darpariaethau paragraffau 54(4) i (13) a 55(1) o Atodlen 3, a pharagraff (5) (pan fo'n gymwys) o'r rheoliad hwn.

(5) Yn achos anghydfod a atgyfeirir at Weinidogion Cymru o dan baragraff (1), o ran y penderfyniad—

(a) caiff bennu telerau sydd i'w cynnwys yn y contract arfaethedig,

(b) caiff ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd Lleol fwrw ymlaen â'r contract arfaethedig, ond ni chaiff ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr arfaethedig fwrw ymlaen â'r contract arfaethedig, ac

(c) rhaid iddo rwymo darpar bartïon y contract.

RHAN 4

STATWS CORFF GWASANAETH IECHYD

Statws corff gwasanaeth iechyd

9.—(1) Pan fo contractwr arfaethedig, mewn hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i'r Bwrdd Iechyd Lleol unrhyw bryd cyn ymrwymo i'r contract, yn dewis cael ei ystyried yn

gorff gwasanaeth iechyd at ddibenion adran 7(4) o Ddeddf 2006(**26**), rhaid ei ystyried felly o'r dyddiad yr ymrwymir i'r contract.

(2) Os oes rhaid ystyried contractwr arfaethedig, yn unol â pharagraff (1) neu (5), yn gorff gwasanaeth iechyd, ni chaiff y ffaith honno effeithio ar natur unrhyw gontract arall gyda chorff gwasanaeth iechyd yr ymrwymwyd iddo gan y contractwr hwnnw cyn y dyddiad y mae'n rhaid ystyried y contractwr felly, nac ar unrhyw hawliau neu atebolrwyddau sy'n codi odano.

(3) Pan fo contract yn cael ei wneud gydag ymarferydd deintyddol unigol neu ddau neu ragor o bersonau yn ymarfer mewn partneriaeth, a phan fo rhaid ystyried yr unigolyn hwnnw neu'r bartneriaeth honno yn gorff gwasanaeth iechyd yn unol â pharagraff (1) neu (5), rhaid i'r contractwr, yn ddarostyngedig i baragraff (4), barhau i gael ei ystyried yn gorff gwasanaeth iechyd at ddibenion adran 7(4) o Ddeddf 2006 cyhyd ag y mae'r contract hwnnw'n parhau ac ni waeth am unrhyw newid—

(a) yn y partneriaid sy'n ffurfio'r bartneriaeth,

(b) yn statws y contractwr o statws ymarferydd deintyddol unigol i statws partneriaeth, neu

(c) yn statws y contractwr o statws partneriaeth i statws ymarferydd deintyddol unigol.

(4) Caiff contractwr ofyn unrhyw bryd am amrywio'r contract er mwyn cynnwys yn y contract, neu dynnu o'r contract, ddarpariaeth i'r perwyl bod y contract yn gontract GIG, ac os yw'n gwneud hynny—

(a) rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol gytuno i'r amrywiad, a

(b) mae'r weithdrefn ym mharagraff 57(1) o Atodlen 3 yn gymwys (amrywio contract: cyffredinol).

(5) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol, yn unol â pharagraff (4), yn cytuno i amrywiad i'r contract, rhaid i'r contractwr gael ei ystyried, neu yn ddarostyngedig i baragraff (7), beidio â chael ei ystyried, yn gorff gwasanaeth iechyd at ddibenion adran 7(4) o Ddeddf 2006 o'r dyddiad y mae'r amrywiad hwnnw yn cymryd effaith yn unol â pharagraff 57(1) o Atodlen 3.

(6) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), mae contractwr yn peidio â chael ei ystyried yn gorff gwasanaeth iechyd at ddibenion adran 7 o Ddeddf 2006 os bydd y contract yn cael ei derfynu.

(7) Pan fo contractwr yn peidio â bod yn gorff gwasanaeth iechyd—

(a) yn unol â pharagraff (5) neu (6), mae'n parhau i gael ei ystyried yn gorff gwasanaeth iechyd at ddibenion bod yn barti i unrhyw gontract GIG arall yr ymrwymwyd iddo ar ôl iddo ddod yn gorff gwasanaeth iechyd ond cyn y dyddiad y peidiodd y contractwr â bod yn gorff gwasanaeth iechyd (ac mae'n peidio â bod yn gorff o'r fath at y dibenion hynny pan derfynir y contract GIG hwnnw);

(b) yn unol â pharagraff (5), rhaid i'r contractwr barhau i gael ei drin fel corff gwasanaeth iechyd (ac yn unol â hynny rhaid i'r contract barhau i gael ei ystyried

(**26**) Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14), Atodlen 5(3), paragraff 87; Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7), Atodlen 21, paragraff 13(a) i (f) ac Atodlen 17 paragraff 11; Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022 (p. 31), Atodlen 1, paragraff 1(1), Atodlen 4 paragraff 140; Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/1174), Rhan 4, erthygl 24(2)(a); Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/1174), Rhan 4, erthygl 24(2)(b) ac (c); a Rheoliadau'r Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Trosglwyddo Swyddogaethau, Diddymu a Darpariaethau Trosiannol) 2023 (O.S. 2023/98), Atodlen 1(1), paragraff 11.

yn gontract GIG) at ddibenion ystyried yr anghydfod a phenderfynu arno, pan fo'r contractwr neu'r Bwrdd Iechyd Lleol—

(i) wedi atgyfeirio unrhyw fater at weithdrefn datrys anghydfodau'r GIG cyn iddo beidio â bod yn gorff gwasanaeth iechyd, neu

(ii) yn atgyfeirio unrhyw fater at weithdrefn datrys anghydfodau'r GIG, yn unol â pharagraff 54(1)(a) o Atodlen 3, ar ôl iddo beidio â bod yn gorff gwasanaeth iechyd;

(c) yn unol â pharagraff (6), mae'n parhau i gael ei ystyried yn gorff gwasanaeth iechyd at ddibenion gweithdrefn datrys anghydfodau'r GIG pan fo'r weithdrefn honno wedi ei dechrau—

(i) cyn terfynu'r contract, neu

(ii) ar ôl terfynu'r contract, pa un ai mewn cysylltiad â therfynu'r contract neu'n codi o derfynu'r contract neu fel arall.

RHAN 5

CONTRACTAU: TELERAU GOFYNNOL

Y partïon i'r contract

10. Rhaid i gontract bennu—

(a) enwau'r partïon,

(b) yn achos partneriaeth—

(i) pa un a yw'r bartneriaeth yn bartneriaeth gyfyngedig ai peidio, a

(ii) enwau'r partneriaid ac, yn achos partneriaeth gyfyngedig, eu statws fel partner cyffredinol neu bartner cyfyngedig, ac

(c) yn achos pob parti, y cyfeiriad post y dylid anfon gohebiaeth swyddogol a hysbysiadau iddo.

Contractau GIG

11. Yn achos contractwr y mae rhaid ei ystyried yn gorff gwasanaeth iechyd yn unol â rheoliad 9, rhaid i'r contract ddatgan mai contract GIG ydyw.

Contractau gydag unigolion sy'n ymarfer mewn partneriaeth

12.—(1) Pan fo'r contract yn gontract gyda dau neu ragor o unigolion sy'n ymarfer mewn partneriaeth, rhaid trin y contract fel pe bai wedi ei wneud gyda'r bartneriaeth fel y mae wedi ei chyfansoddi o bryd i'w gilydd, a rhaid i'r contract wneud darpariaeth benodol i'r perwyl hwn.

(2) Pan fo'r contract yn gontract gyda dau neu ragor o unigolion sy'n ymarfer mewn partneriaeth, rhaid iddi fod yn ofynnol gan delerau'r contract i'r contractwr sicrhau bod unrhyw berson sy'n dod yn aelod o'r bartneriaeth ar ôl i'r contract ddod i rym yn cael ei rwymo'n awtomatig gan y contract, pa un ai yn rhinwedd gweithred partneriaeth neu fel arall.

Hyd

13.—(1) Ac eithrio o dan yr amgylchiadau a bennir ym mharagraff (2), rhaid i gontract ddarparu ei fod yn parhau nes iddo gael ei derfynu yn unol â thelerau'r contract neu'r gyfraith gyffredinol.

(2) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw bod y Bwrdd Iechyd Lleol wedi terfynu contract darparwr gwasanaethau deintyddol sylfaenol arall, ac o ganlyniad i'r terfynu hwnnw, ei fod yn dymuno ymrwymo i gontract dros dro am gyfnod a bennir yn y contract ar gyfer darparu gwasanaethau.

(3) Pan ymrwymir i gontract yn unol â pharagraff (2)—

(a) nid yw paragraff 62 (terfynu gan y contractwr) o Atodlen 3 yn gymwys i'r contract a,

(b) caiff y partïon i'r contract dros dro gynnwys unrhyw delerau o ran terfynu drwy hysbysiad y maent yn cytuno arnynt.

Gwasanaethau gorfodol

14.—(1) At ddibenion adran 58 o Ddeddf 2006 (gwasanaethau deintyddol sylfaenol), disgrifir y gwasanaethau y mae rhaid eu darparu o dan gontract gwasanaethau deintyddol cyffredinol ym mharagraff (2).

(2) Rhaid i gontractwr ddarparu—

(a) mynediad brys ar gyfer cleifion newydd, fel y nodir yn Rhan 1 o Atodlen 1,

(b) apwyntiadau adalw ar gyfer cleifion y mae angen apwyntiadau adalw arnynt rhwng 18 a 24 mis yn hwyrach na'u hapwyntiad mwyaf diweddar,

(c) asesiadau ar gyfer cleifion newydd sy'n deillio o'r Porth Mynediad Deintyddol, fel y nodir yn Rhan 2 o Atodlen 1,

(d) pecynnau gofal, fel y nodir yn Rhan 3 o Atodlen 1,

(e) gwasanaethau atal, fel y nodir yn Rhan 4 o Atodlen 1, ac

(f) gofal brys i gleifion gweithredol.

(3) At ddibenion adran 61 o Ddeddf 2006 (contractau GDC: telerau gofynnol eraill), rhaid i gontractwr hefyd ddarparu detholiad o'r Blaenoriaethau Cenedlaethol, fel y nodir yn Rhan 5 o Atodlen 1, yn unol â chyfarwyddydau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 60(3)(b)(i) o Ddeddf 2006.

Gwasanaethau gorfodol uwch

15.—(1) Rhaid i unrhyw weithdrefn lefel 1 gael ei darparu gan y contractwr oni bai nad oes gan y contractwr, neu unrhyw ymarferydd deintyddol a gyflogir gan y contractwr, y profiad perthnasol neu'r arbenigedd perthnasol, ac mewn achos o'r fath caniateir atgyfeirio'r weithdrefn lefel 1 fel gwasanaeth gorfodol uwch.

(2) Mae gwasanaethau gorfodol uwch sy'n destun atgyfeiriad o dan baragraff (1) i'w trefnu drwy Gytundeb Gwasanaethau Deintyddol Personol o dan Reoliadau (GDP) 2006.

Gwasanaethau: cyffredinol

16.—(1) Rhaid i gontract bennu—

(a) y gwasanaethau sydd i'w darparu gan y contractwr,

(b) cyfeiriad pob mangre sydd i'w defnyddio gan y contractwr neu unrhyw is-gontractwr ar gyfer darparu'r gwasanaethau hynny, neu, os yw'r contractwr yn darparu gwasanaethau o ddeintyddfa symudol, y ffaith honno,

(c) yr oriau y mae gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau gorfodol i'w darparu ynddynt, a

(d) y dyddiad y daw'n effeithiol.

(2) Nid yw'r cyfeiriad at fangreoedd yn is-baragraff (b) yn cynnwys unrhyw fan y mae claf yn preswylio ynddo.

Cyfran y gwasanaethau gorfodol

17.—(1) Mae cyfrannau safonol gwasanaethau gorfodol (heblaw am ofal brys i gleifion gweithredol) fel a ganlyn:

(a) 7% ar gyfer triniaeth frys ar gyfer cleifion newydd,

(b) 3% ar gyfer apwyntiadau adalw rhwng 18 a 24 mis ers yr apwyntiad mwyaf diweddar,

(c) 10% ar gyfer asesiadau cleifion newydd,

(d) 70% i ddarparu pecynnau gofal,

(e) 5% ar gyfer gwasanaethau atal, ac

(f) 5% ar gyfer blaenoriaethau cenedlaethol.

(2) Caiff Bwrdd Iechyd Lleol wyro oddi wrth y cyfrannau safonol o fewn y cyfanswm cyfan o 100% os yw wedi ei fodloni bod lefelau gwahanol o angen yn ei ardal sy'n ei gwneud yn ofynnol addasu'r cyfrannau er mwyn sicrhau bod cleifion yn ei ardal yn cael darpariaeth briodol.

(3) Caniateir gwyro oddi wrth y cyfrannau safonol ar sail ardal gyfan, ar sail rhan o ardal neu, yn ddarostyngedig i baragraff (4), mewn perthynas â phractis unigol.

(4) Oni bai bod paragraff (7) yn gymwys, cyn addasu'r cyfrannau ar gyfer practis unigol, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ymgynghori â'r contractwr ar gyfer y practis hwnnw a rhoi o leiaf 28 niwrnod clir o rybudd.

(5) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol roi sylw i unrhyw sylwadau y mae'r contractwr yr effeithir arno yn eu gwneud o fewn y cyfnod o 28 niwrnod a nodir ym mharagraff (4) pan fydd yn penderfynu'r cyfrannau sy'n gymwys i'r practis unigol hwnnw, ond nid oes angen iddo roi sylw i unrhyw sylwadau a wneir y tu allan i'r cyfnod hwnnw.

(6) Os nad yw'r contractwr ar gyfer practis unigol yr ymgynghorwyd ag ef yn unol â pharagraff (4) yn cytuno â'r cyfrannau diwygiedig a osodwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol, caiff y contractwr atgyfeirio'r anghydfod at Weinidogion Cymru i ystyried y mater a phenderfynu arno yn unol â'r weithdrefn y darperir ar ei chyfer ym mharagraffau 54 i 55 o Atodlen 3.

(7) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu nad yw'r dyraniad o 5% ar gyfer blaenoriaethau cenedlaethol y cyfeirir ato yn is-baragraff (1)(f) yn ofynnol, un ai yn llwyr neu yn rhannol, am gyfnod penodedig, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) ailddyrannu unrhyw gyfran nas defnyddiwyd o is-baragraff (1)(f) i ddarparu pecynnau gofal o dan is-baragraff (1)(d) am gyfnod penodedig,

(b) gwneud ailddyraniad o'r fath ar gyfer ei ardal gyfan, rhan o'i ardal, neu mewn perthynas ag un neu ragor o bractisau unigol, ac

(c) gwneud dyraniad o'r fath heb y gofyniad i ymgynghori o dan is-baragraff (4).

(8) Pan wneir ailddyraniad o dan is-baragraff (7), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hysbysu'r contractwr yr effeithir arno neu'r contractwyr yr effeithir arnynt yn ysgrifenedig am—

(a) y gyfran ddiwygiedig a ddyrennir i becynnau gofal o dan is-baragraff (1)(d),

(b) y cyfnod y mae'r ailddyraniad yn gymwys iddo, ac

(c) y dyddiad y mae'r ailddyraniad yn cymryd effaith ohono, y mae rhaid iddo fod o leiaf 14 o ddiwrnodau clir ar ôl dyddiad yr hysbysiad.

(9) Rhaid cyflenwi gofal brys i gleifion gweithredol er gwaethaf y ffaith fod y cyfrannau a nodir ym mharagraff (1) wedi eu cyflawni ac nid yw wedi ei gynnwys yn y ganran gyffredinol.

Y cyfnod pryd y mae rhaid cyflenwi'r gyfran o wasanaethau gorfodol

18. Mae'r gyfran o bob gwasanaeth gorfodol, wedi ei mynegi fel canran, sydd i'w darparu gan y contractwr tra bo'r contract yn effeithiol yn ymwneud â'r canlynol—

(a) pan fo'r contract yn dechrau ar 1 Ebrill, pob blwyddyn ariannol, neu

(b) yn ddarostyngedig i reoliad 36(1), pan fo'r contract yn dechrau ar ddyddiad ac eithrio 1 Ebrill, gweddill y flwyddyn ariannol y mae'r contract yn dechrau ynddi, ac yna ym mhob blwyddyn ariannol wedi hynny.

Tanddarparu cyfrannau o wasanaethau gorfodol

19.—(1) Rhaid i'r contract ddarparu na chaiff y Bwrdd Iechyd Lleol, yn unol â Rhan 8 o Atodlen 3 (amrywio a therfynu contractau), fod â hawlogaeth i gymryd unrhyw gamau am dorri unrhyw un neu ragor o delerau'r contract sy'n rhoi effaith i reoliad 17 (gan gynnwys terfynu'r contract) pan fo paragraff (2) yn gymwys.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r contractwr wedi methu â darparu'r gyfran ofynnol o wasanaethau gorfodol dros gyfnod o flwyddyn ac—

(a) pan fo'r methiant yn gyfystyr ag amrywiad o 5 y cant neu lai o'r gwasanaeth gorfodol, a

(b) pan fo'r contractwr yn cytuno i ddarparu'r gwasanaethau gorfodol y mae wedi methu â'u darparu o fewn unrhyw gyfnod amser y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ei bennu yn ysgrifenedig, â'r cyfnod amser hwnnw i fod yn ddim llai na 60 o ddiwrnodau clir.

(3) Nid yw paragraffau (1) a (2) yn atal y Bwrdd Iechyd Lleol rhag cymryd camau o dan Ran 8 o Atodlen 3 am dorri contract (gan gynnwys terfynu'r contract) ar seiliau eraill.

(4) Mewn achos pan na fo'r contractwr yn cytuno i ddarparu'r gwasanaeth gorfodol perthnasol y mae wedi methu â'i ddarparu o fewn unrhyw gyfnod amser a bennir gan y Bwrdd Iechyd Lleol, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol, os yw'n barnu bod y cam hwnnw'n briodol, gymhwyso adenilliad ariannol o hyd at 100% o werth y tanberfformiad.

Adroddiad cyflenwi canol blwyddyn

20. Rhaid i'r contract ei gwneud yn ofynnol bod Bwrdd Iechyd Lleol yn llunio ac yn darparu i bob contractwr adroddiad cyflenwi canol blwyddyn.

Gofynion o ran adroddiad cyflenwi canol blwyddyn

21.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 37, rhaid i adroddiad cyflenwi canol blwyddyn gael ei ddarparu, ar ffurf sydd wedi ei rhagnodi gan y Bwrdd Iechyd Lleol, ddim cynharach

na diwrnod olaf y chweched mis o'r contract a ddim hwyrach na diwrnod olaf y seithfed mis o'r contract ac ar ysbeidiau blynyddol cyfatebol ar ôl hynny, a rhaid iddo nodi—

(a) cyfanswm canran y gwasanaethau a bennir yn rheoliad 17(1) a gyflenwyd dros y cyfnod blaenorol perthnasol o 6 mis calendr, a

(b) y ganran a gyflawnwyd ar gyfer pob un o'r gwasanaethau unigol a bennir yn rheoliad 17(1) a gyflenwyd dros y cyfnod blaenorol perthnasol o 6 mis calendr.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "cyfnod blaenorol perthnasol o 6 mis calendr" yw'r cyfnod o 6 mis cyn diwrnod olaf y chweched mis o'r contract y cyfeirir ato ym mharagraff (1).

Addasiadau ariannol canol blwyddyn

22. Pan fo cyfanswm y canrannau a adroddir o dan reoliad 21(1) islaw 40%, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol, os yw'n barnu bod hynny'n briodol, roi addasiad ariannol canol blwyddyn ar waith, a lleihau taliadau i'r contractwr am weddill y flwyddyn ariannol honno i adlewyrchu'r ganran a oedd wedi ei chyflenwi pan luniwyd yr adroddiad a rhaid iddo hysbysu'r contractwr ei fod wedi cymryd y cam hwn ac am ei resymau dros wneud hynny o fewn 14 o ddiwrnodau clir.

Apelio yn erbyn addasiadau ariannol canol blwyddyn

23. Caiff contractwr sy'n ddarostyngedig i addasiad ariannol canol blwyddyn yn unol â rheoliad 22 apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i Weinidogion Cymru yn unol â'r weithdrefn y darperir ar ei chyfer ym mharagraff 53 neu 54, yn ôl y digwydd, o Atodlen 3.

Adroddiadau cyflenwi blynyddol

24.—(1) Rhaid i'r contract ei gwneud yn ofynnol bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn darparu adroddiad cyflenwi blynyddol i'r contractwr.

(2) Rhaid i adroddiad cyflenwi blynyddol nodi canran gyfan y gwasanaethau a bennir yn rheoliad 17(1) gyda'i gilydd a'r ganran a gyflawnwyd ar gyfer pob un o'r gwasanaethau unigol a bennir yn y rheoliad hwnnw, yn ystod blwyddyn flaenorol y contract.

(3) Rhaid darparu adroddiad cyflenwi blynyddol ar ffurf a ragnodir gan y Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) yn achos contract o dan reoliad 13(1), ddim cynharach na diwrnod olaf y deuddegfed mis o'r contract a ddim hwyrach na diwrnod olaf y trydydd mis ar ddeg o'r contract ac ar ysbeidiau blynyddol cyfatebol ar ôl hynny;

(b) yn achos contract o dan reoliad 13(2), ddim hwyrach nag 20 o ddiwrnodau clir ar ôl diwedd y cyfnod a bennir yn y contract.

Darpariaeth islaw 95%

25.—(1) Pan fo cyfanswm y ganran a adroddir o dan reoliad 24 islaw 95% caiff y Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) lleihau taliadau i'r contractwr ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a'r blynyddoedd ariannol dilynol i adlewyrchu canran y gwasanaethau a nodir yn yr adroddiad cyflenwi, a

(b) cymhwyso adenilliad ariannol hyd at 100% o werth y tanberfformiad.

(2) Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol sy'n cymryd y naill neu'r llall o'r camau a nodir yn is-baragraff (1(a) neu (1)(b) hysbysu'r contractwr am ei fwriad a'i resymau dros wneud hynny 14 o ddiwrnodau clir cyn iddo wneud yr addasu neu'r adennill, yn ôl y digwydd.

Apelio yn erbyn cymhwyso rheoliad 25

26. Caiff contractwr sy'n ddarostyngedig i addasiad ariannol neu y cafodd adenilliad ariannol ei gymhwyso iddo yn unol â rheoliad 25, apelio yn erbyn penderfyniad y Bwrdd Iechyd Lleol i Weinidogion Cymru yn unol â'r weithdrefn y darperir ar ei chyfer ym mharagraff 53 neu 54, yn ôl y digwydd, o Atodlen 3.

Darpariaeth dros 100%

27. Pan fo cyfanswm y ganran a adroddir o dan reoliad 24 rhwng 100% a 105%, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol naill ai—

(a) lleihau swm gofynnol y gwasanaethau a nodir yn rheoliad 17(1) ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf i adlewyrchu'r gwaith a wnaed dros 100% a dychwelyd y gofynion cyfan o ran perfformiad i 100%, neu

(b) rhoi taliad cydnabyddiaeth i'r practis am werth y gwaith ychwanegol a wnaed.

Darpariaeth dros 105%

28. Mewn achos pan fo'r ganran a adroddir o dan reoliad 24 dros 105%, ni chaiff y Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) cynyddu swm gofynnol y gwasanaethau a nodir yn rheoliad 17(1) i adlewyrchu'r gwaith a wnaed dros 105% a dychwelyd y gofynion cyfan o ran perfformiad i 100%, na

(b) rhoi taliad cydnabyddiaeth i'r practis am werth y gwaith ychwanegol a wnaed, oni bai bod cytundeb ysgrifenedig blaenorol, wedi ei ddyddio o leiaf 60 o ddiwrnodau clir cyn diwedd y flwyddyn ariannol, rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a'r contractwr, y gallai perfformiad o dros 105% gael ei gyflawni yn y flwyddyn ariannol honno.

Apelio yn erbyn cymhwyso rheoliad 27

29. Caiff contractwr y cafodd cyfanswm cyfrannau ei gontract eu lleihau yn unol â rheoliad 27(1)(a) apelio yn erbyn penderfyniad y Bwrdd Iechyd Lleol i Weinidogion Cymru yn unol â'r weithdrefn y darperir ar ei chyfer ym mharagraff 53 neu 54, yn ôl y digwydd, o Atodlen 3.

Cyllid

30.—(1) Rhaid i'r contract gynnwys teler sydd â'r effaith o'i gwneud yn ofynnol—

(a) i'r Bwrdd Iechyd Lleol wneud taliadau i'r contractwr o dan y contract yn brydlon ac yn unol â thelerau'r contract ac unrhyw amodau eraill yn ymwneud â'r taliad a gynhwysir mewn cyfarwyddydau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 60 o Ddeddf 2006 (contractau GDC: taliadau), a

(b) i'r contractwr wneud taliadau'n brydlon i'r Bwrdd Iechyd Lleol ac yn unol â thelerau'r contract ac unrhyw amodau eraill yn ymwneud â thaliad a gynhwysir

mewn cyfarwyddydau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 60 o Ddeddf 2006.

(2) Mae'r rhwymedigaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1) yn ddarostyngedig i unrhyw hawl sydd gan y Bwrdd Iechyd Lleol i osod yn erbyn swm sy'n daladwy i'r contractwr swm—

(a) sy'n ddyledus gan y contractwr i'r Bwrdd Iechyd Lleol o dan y contract,

(b) sydd wedi ei dalu i'r contractwr oherwydd gwall neu mewn amgylchiadau pan nad oedd yn ddyledus, neu

(c) y caiff y Bwrdd Iechyd Lleol ei gadw'n ôl oddi wrth y contractwr yn unol â thelerau'r contract neu unrhyw ddarpariaethau cymwys eraill a gynhwysir mewn cyfarwyddydau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 60 o Ddeddf 2006.

(3) Rhaid i'r contract gynnwys teler i'r perwyl, pan fo'n ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol, yn unol â chyfarwyddydau o dan adran 12 neu 60 o Ddeddf 2006, wneud taliad i gontractwr o dan gontract ond yn ddarostyngedig i amodau, fod yr amodau hynny i fod yn un o delerau'r contract.

(4) Rhaid i'r contract gynnwys telerau yn ymwneud ag ad-dalu ffi labordy ar gyfer personau esempt yn unol â chyfarwyddydau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 60 o Ddeddf 2006.

(5) Rhaid i'r contract gynnwys telerau yn ymwneud â chasglu'n ganolog Ffioedd GIG yn unol â chyfarwyddydau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 60 o Ddeddf 2006.

Taliadau, ffioedd a buddiannau ariannol y contractwr

31.—(1) Rhaid i'r contract gynnwys telerau yn ymwneud â thaliadau, ffioedd a buddiannau ariannol sydd â'r un effaith â'r rhai a nodir ym mharagraffau (2) i (4).

(2) Ni chaiff y contractwr, naill ai drosto'i hun na thrwy unrhyw berson arall, fynnu na derbyn unrhyw fath o daliad cydnabyddiaeth er ei fudd ei hun nac er budd person arall oddi wrth—

(a) unrhyw un neu ragor o'i gleifion gweithredol am ddarparu unrhyw driniaeth o dan y contract, ac eithrio fel y darperir fel arall yn Atodlen 5, na

(b) unrhyw berson sydd wedi gofyn am wasanaethau o dan y contract ar ei gyfer ei hun neu aelod o'i deulu, fel rhagofyniad i ddarparu gwasanaethau o dan y contract i'r person hwnnw neu aelod o'i deulu.

(3) Rhaid i'r contract gynnwys teler—

(a) nad yw ond yn caniatáu i'r contractwr gasglu gan unrhyw glaf gweithredol unrhyw ffi y mae'n ofynnol i'r claf hwnnw ei thalu yn rhinwedd Atodlen 5, yn unol â gofynion yr Atodlen honno, a

(b) sy'n darparu i rwymedigaethau a osodir ar y contractwr yn rhinwedd Atodlen 5 fod yn delerau i'r contract.

(4) Rhaid i'r contract gynnwys teler sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr roi ei fuddiannau ariannol ei hun o'r neilltu wrth wneud penderfyniad—

(a) o ran pa wasanaethau i'w hargymell neu i'w darparu i glaf gweithredol sydd wedi ceisio gwasanaethau o dan y contract, neu

(b) i atgyfeirio claf gweithredol i gael gwasanaethau eraill gan gontractwr arall, ysbyty neu ddarparwr gwasanaeth perthnasol arall o dan Ran 1 o Ddeddf 2006.

(5) Mae'r term "claf gweithredol" yn y rheoliad hwn yn cynnwys person sy'n talu neu'n cytuno i dalu ffi ar ran person y darperir gwasanaethau deintyddol iddo.

Trefniadau pan derfynir contract

32. Rhaid i gontract wneud darpariaeth ar gyfer y trefniadau sydd i fod yn gymwys pan derfynir y contract, gan gynnwys—

(a) trosglwyddo cofnodion cleifion,

(b) trosglwyddo cyfrifoldeb dros gyrsiau o driniaeth parhaus,

(c) dychwelyd unrhyw offer neu ddeunyddiau a gyflenwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol,

(d) canlyniadau ariannol terfynu'r contract, gan gynnwys—

(i) talu am wasanaethau a ddarperir hyd at ddyddiad terfynu'r contract;

(ii) adennill unrhyw ordaliadau;

(iii) unrhyw gosbau ariannol sy'n codi o derfynu'r contract,

(e) rhwymedigaethau parhaus y contractwr mewn cysylltiad â chyfrinachedd a diogelu data, ac

(f) datrys anghydfodau mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n codi o derfynu'r contract.

Telerau eraill yn y contract

33.—(1) Rhaid i gontract gynnwys telerau sydd â'r un effaith â'r rhai a bennir yn Atodlen 3, ac eithrio paragraffau 54(4) i (13) a 55, oni bai—

(a) bod y contract o fath neu natur nad yw darpariaeth benodol yn Atodlen 3 yn gymwys iddo neu iddi,

(b) bod cytundeb wedi bod rhwng y contractwr a Bwrdd Iechyd Lleol, neu

(c) bod y Bwrdd Iechyd Lleol wedi penderfynu, pan fo hyn wedi ei awdurdodi gan y Rheoliadau hyn, na ddylai'r teler fod yn gymwys.

(2) Pan fo darpariaeth yn Atodlen 3 yn gymwys i gontract, rhaid i delerau'r contract roi effaith i'r materion a nodir yn y ddarpariaeth honno.

(3) Rhaid i gontract gynnwys teler sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr fod yn aelod o glwstwr.

RHAN 6

DARPARIAETH DROSIANNOL

Dehongli Rhan 6

34. Yn y Rhan hon—

ystyr "contract presennol" ("*existing contract*") yw contract yr ymrwymwyd iddo o dan Reoliadau 2006 sydd mewn grym yn union cyn 11 Mawrth 2026;

ystyr "contractwr presennol" ("*existing contractor*") yw contractwr sy'n barti i gontract presennol.

Parhad contractau presennol

35.—(1) Mae contract presennol yn cael effaith ar ac ar ôl 1 Ebrill 2026 fel pe bai'n gontract yr ymrwymwyd iddo o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i reoliadau 36 a 39 i 41.

(3) Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol a'r contractwr gytuno i amrywio contract presennol i beri iddo gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Cyfrannau gwasanaethau gorfodol

36.—(1) Pan na fo contract presennol yn pennu cyfrannau gwasanaethau gorfodol yn unol â rheoliad 16, mae'r cyfrannau safonol yn rheoliad 17(1) yn gymwys o 1 Ebrill 2026.

(2) Caiff Bwrdd Iechyd Lleol, cyn 16 Mawrth 2026, roi hysbysiad i gontractwr presennol fod cyfrannau gwahanol yn gymwys yn unol â rheoliad 16(2) a (3).

(3) Pan roddir hysbysiad o dan baragraff (2), caiff y contractwr gyflwyno sylwadau o fewn 14 o ddiwrnodau clir ar ôl i'r hysbysiad ddod i law.

(4) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol roi sylw i unrhyw sylwadau a wneir o dan baragraff (3) cyn penderfynu'r cyfrannau sydd i fod yn gymwys o 1 Ebrill 2026.

Adroddiadau cyflenwi canol blwyddyn a blynyddol

37.—(1) Rhaid darparu'r adroddiad cyflenwi canol blwyddyn cyntaf o dan reoliad 20—

(a) ar gyfer contract a ddechreuodd cyn 1 Hydref 2025, ddim cynharach na 30 Medi 2026 a ddim hwyrach na 31 Hydref 2026;

(b) ar gyfer contract a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Hydref 2025, yn unol â rheoliad 21.

(2) Rhaid darparu'r adroddiadau cyflenwi blynyddol cyntaf o dan reoliad 24—

(a) ar gyfer contract a ddechreuodd cyn 1 Ebrill 2026, ddim cynharach na 31 Mawrth 2027 a ddim hwyrach na 30 Ebrill 2027;

(b) ar gyfer contract a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2026, yn unol â rheoliad 26.

Statws corff gwasanaeth iechyd

38.—(1) Pan oedd contractwr, yn union cyn 11 Mawrth 2026, yn cael ei ystyried yn gorff gwasanaeth iechyd at ddibenion adran 7(4) o Ddeddf 2006, mae'r contractwr yn parhau i gael ei ystyried felly ar ac ar ôl y dyddiad hwnnw.

(2) Mae rheoliad 9 yn gymwys i gontractwr o'r fath fel pe bai'r dewis wedi ei wneud o dan y Rheoliadau hyn.

Darpariaethau anghymhwyso

39.—(1) Mae rheoliadau 4 a 5 yn gymwys i—

(a) contractau yr ymrwymir iddynt ar neu ar ôl 11 Mawrth 2026;

(b) amrywiadau i gontractau presennol y cytunir arnynt ar neu ar ôl 11 Mawrth 2026 sy'n ymwneud â newid contractwr neu ychwanegu partner neu gyfarwyddwr newydd.

(2) Nid yw'r amodau yn rheoliadau 4 a 5 yn gymwys i gontractau presennol oni bai a hyd nes y gwneir amrywiad o'r math a ddisgrifir ym mharagraff (1)(b).

Anghydfodau ac apelau

40.—(1) Pan, cyn 11 Mawrth 2026—

(a) bo anghydfod wedi ei atgyfeirio i'w ddatrys o dan Reoliadau 2006, neu

(b) bo apêl wedi ei gwneud o dan Reoliadau 2006,

parheir i ymdrin â'r anghydfod neu'r apêl yn unol â Rheoliadau 2006 fel pe na baent wedi eu dirymu.

(2) Pan fo anghydfod neu apêl yn codi ar neu ar ôl 11 Mawrth 2026 mewn perthynas â mater a ddigwyddodd cyn y dyddiad hwnnw, rhaid ymdrin â'r anghydfod neu'r apêl yn unol â'r Rheoliadau hyn.

Ffioedd

41. Pan fo cwrs o driniaeth wedi ei ddechrau cyn 1 Ebrill 2026 ac yn parhau ar ôl y dyddiad hwnnw—

(a) y ffi sy'n gymwys yw'r ffi a nodir yn y cynllun triniaeth a ddarperir i'r claf o dan baragraff 7 o Atodlen 3 i Reoliadau 2006 wedi ei chyfrifo yn unol â Rheoliadau (Ffioedd) 2006 fel yr oeddent yn gymwys ar yr adeg y derbyniodd y claf y cynllun triniaeth;

(b) cyfrifir unrhyw gyfnod gwarant yn unol â Rheoliadau (Ffioedd) 2006 fel yr oeddent mewn grym pan ddarparwyd y driniaeth adferol.

Dirymu

42. Mae Rheoliadau 2006 wedi eu dirymu.

Diwygiadau

43. Mae Rheoliadau (Ffioedd) 2006 a Rheoliadau (GDP) 2006 wedi eu diwygio yn unol ag Atodlen 6.

Jeremy Miles
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
9 Chwefror 2026

ATODLEN 1

Rheoliad 14

GWASANAETHAU GORFODOL

RHAN 1

MYNEDIAD BRYS AR GYFER CLEIFION NEWYDD

1. Mae'n ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau'r ddarpariaeth o apwyntiadau mynediad brys o fewn ei ardal yn unol â'r Atodlen hon ac Atodlen 3.

2. Pwrpas apwyntiadau mynediad brys yw darparu i gleifion y mae arnynt angen gofal brys apwyntiad o fewn 72 awr i'r amser y maent yn cysylltu â'r Bwrdd Iechyd Lleol gyntaf.

Rhaglen Apwyntiadau Mynediad Brys

3. Er mwyn sicrhau bod apwyntiadau mynediad brys ar gael, rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol sefydlu rhaglen apwyntiadau mynediad brys y mae rhaid iddi—

(a) darparu tîm canolog ar gyfer ardal y Bwrdd Iechyd Lleol y gall pobl ag anghenion deintyddol brys gysylltu ag ef ar gyfer apwyntiadau brys,

(b) darparu i'r tîm hwnnw wneud asesiad dros y ffôn o ba un a oes angen gofal brys ar y person ac os oes, darparu apwyntiad iddo,

(c) darparu bod y tîm yn atgyfeirio unrhyw berson nas bernir bod angen gofal brys arno i'r Porth Mynediad Deintyddol ac, os oes angen, yn darparu i'r person gynhorthwy i gofrestru yn y Porth Mynediad Deintyddol,

(d) gwneud trefniadau â phob contractwr o fewn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol am i rota apwyntiadau gofal brys gael ei rhoi ar waith sy'n darparu apwyntiadau brys yn ôl y gofyn, ac

(e) gweinyddu'r rota apwyntiadau gofal brys er mwyn sicrhau bod apwyntiadau gofal brys ar gael bob diwrnod gwaith rhwng 9am a 5pm o fewn pellter daearyddol rhesymol i gleifion o fewn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol.

Apwyntiadau gofal brys ar gyfer cleifion newydd

4. Rhaid i'r contract bennu gofynion o ran darparu gofal brys, gan gynnwys—

(a) bod rhaid i bob contractwr yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol gytuno i ddarparu nifer penodol o apwyntiadau gofal brys ar gyfer cleifion newydd bob blwyddyn ar amser ac ar ddyddiadau y cytunir arnynt â'r Bwrdd Iechyd Lleol,

(b) bod rhaid i bob contractwr roi gwybod i'r Bwrdd Iechyd Lleol am ba fathau o wasanaethau deintyddol estynedig o ran hygyrchedd y gall eu darparu, os o gwbl, ar gyfer apwyntiadau gofal brys,

(c) y dylai apwyntiadau gofal brys roi blaenoriaeth i leddfu poen ac atal y broblem benodol rhag dirywio'n sylweddol,

(d) y dylai triniaeth a roddir yn ystod apwyntiadau gofal brys, pan fo'n briodol, a chyda chydsyniad y claf, fod, pan fo'n bosibl, yn driniaeth ddiffiniol barhaol, gan gynnwys triniaethau adferol,

(e) pan na ellir cwblhau unrhyw driniaeth angenrheidiol yn ystod apwyntiad gofal brys, bod rhaid cofnodi cyfiawnhad dros unrhyw driniaeth neu ofal a ddarparwyd yng nghofnod clinigol y claf ac, oni bai mai'r cwrs mwyaf priodol yw atgyfeiriad ymlaen at gontractwr arall, ysbyty neu ddarparwr gwasanaeth perthnasol arall, y dylai'r contractwr geisio caniatâd gan y Bwrdd Iechyd Lleol i gymryd y claf ymlaen fel claf gweithredol newydd cyn darparu apwyntiad pellach,

(f) y dylai apwyntiadau gofal brys, pan fo'n bosibl, gynnwys asesiad iechyd geneuol cynhwysfawr (gan gynnwys meinweoedd meddal) ac atgyfeiriad ymlaen at gontractwr arall, ysbyty neu ddarparwr gwasanaeth perthnasol arall, pan fo'n briodol neu, os nad yw hynny'n bosibl, bod rhaid cofnodi'r rheswm pam na fu'n bosibl darparu hyn yng nghofnod clinigol y claf, ac

(g) y dylid cynghori unrhyw glaf a welir mewn apwyntiad gofal brys y mae ei driniaeth yn cael ei chwblhau yn yr apwyntiad gofal brys neu y gwrthodir caniatâd a geisir o dan is-baragraff (e) ar ei gyfer, i gofrestru yn y Porth Mynediad Deintyddol os nad yw eisoes wedi gwneud hynny, a bod rhaid i'r contractwr neu ei staff ddarparu cynhorthwy i'r claf i gofrestru os bydd y claf yn gofyn amdano.

Taliadau

5. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol drefnu i bob contractwr gael taliad cydnabyddiaeth am ei gyfranogiad yn y Rhaglen Apwyntiadau Mynediad Brys, a sefydlir o dan baragraff 3, yn unol â chyfarwyddydau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 60 o Ddeddf 2006.

6. Rhaid i'r contract gynnwys darpariaeth—

(a) i'r contractwr gael ei dalu am unrhyw apwyntiadau gofal brys a gollir cyhyd ag y bo'r contractwr yn gallu dangos ei fod wedi gwneud ymdrechion digonol, gan roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru, i sicrhau presenoldeb y darpar glaf a'i fod wedi ysgrifennu at y darpar glaf i egluro na ellir aildrefnu'r apwyntiad gofal brys a bod angen i'r darpar glaf wneud cais eto drwy'r Rhaglen Apwyntiadau Mynediad Brys a sefydlir o dan baragraff 3,

(b) i sicrhau bod rhaid i dystiolaeth o'r ymdrechion a wnaed gael ei chadw gan y contractwr am gyfnod o 24 mis o ddyddiad y llythyr y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) a'i rhoi ar gael i'r Bwrdd Iechyd Lleol, pan ofynnir amdani, at ddibenion archwilio,

(c) i'r contractwr gael ei dalu am unrhyw apwyntiadau gofal brys a ddiweddir gan—

(i) y contractwr—

(aa) pan fo'r amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 3(1) o Atodlen 3 (cleifion treisgar) yn digwydd a phan fo hysbysiad nad yw'r contractwr yn fodlon darparu gwasanaethau i'r claf hwnnw mwyach wedi ei ddarparu i'r Bwrdd Iechyd Lleol, neu

(bb) ym marn resymol y contractwr, pan fo tor perthynas diwrthdro wedi bod rhwng y claf a'r contractwr hwnnw a phan fo hysbysiad am y tor perthynas hwnnw wedi ei roi i'r claf ac i'r Bwrdd Iechyd Lleol,

(ii) y claf, neu

(iii) person a bennir ym mharagraff 1(2) o Atodlen 3 sy'n gweithredu ar ran y claf, a

(d) i'r contractwr gael ei dalu am unrhyw apwyntiadau gofal brys nas llenwir yn unol â chyfarwyddydau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 60 o Ddeddf 2006.

RHAN 2

ASESIADAU CLEIFION NEWYDD SY'N DEILLIO O'R PORTH MYNEDIAD DEINTYDDOL

Asesiadau cleifion newydd

7. Mae'n ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau mynediad at asesiadau cleifion newydd ar gyfer cleifion yn ei ardal sydd wedi gwneud cais drwy'r Porth Mynediad Deintyddol.

8. Mae asesiad ar gyfer claf newydd yn caniatáu i gontractwr wneud asesiad o anghenion iechyd geneuol claf a threfnu triniaeth bellach os oes angen.

Darparu asesiadau cleifion newydd

9. Rhaid i'r contract gynnwys y gofynion a ganlyn o ran darparu asesiadau ar gyfer cleifion newydd gan y contractwr—

(a) yn ddarostyngedig i is-baragraffau (d) ac (e), gofyniad bod contractwyr yn caffael pob claf newydd drwy'r Porth Mynediad Deintyddol,

(b) gofyniad bod contractwyr yn darparu digon o apwyntiadau ar gyfer asesu cleifion newydd i ganiatáu iddynt gyflawni'r gyfran o'r gwasanaeth hwnnw y penderfynwyd ei chymhwyso i'r practis gan y Bwrdd Iechyd Lleol o dan reoliad 17,

(c) gofyniad bod contractwyr yn ystyried dychwelyd y claf i'r Porth Mynediad Deintyddol os yw'r claf hwnnw'n methu â mynd i'r asesiad claf newydd ar ddau achlysur,

(d) gofyniad y caiff contractwr gaffael claf gweithredol newydd—

(i) pan fo'r claf hwnnw wedi mynd i apwyntiad gofal brys a phan fo angen apwyntiad pellach arno,

(ii) pan fo'r claf hwnnw yn cytuno y gall yr apwyntiad pellach fod ym mhractis y contractwr, a

(iii) pan fo'r contractwr wedi ceisio a chael caniatâd gan y Bwrdd Iechyd Lleol i dderbyn claf newydd, ac

(e) gofyniad y caiff contractwr gaffael claf gweithredol newydd os yw'r claf yn blentyn neu'n ŵyr neu'n wyres i glaf gweithredol presennol ac mewn achos o'r fath nid oes angen ceisio caniatâd ond rhaid i'r contractwr hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Gofynion sylfaenol ar gyfer asesiadau cleifion newydd

10. Rhaid i asesiad claf newydd gynnwys y canlynol—

(a) cwblhau asesiad ACORN,

(b) adolygiad llawn o hanes meddygol a deintyddol y claf a'i hanes o ran ffordd o fyw (gan gynnwys hanes cymdeithasol perthnasol),

(c) asesiad o anghenion y claf mewn perthynas â gwasanaethau deintyddol estynedig o ran hygyrchedd,

(d) archwiliad clinigol gan gynnwys asesiad periodontol, canfod pydredd, ac archwiliad o feinweoedd meddal geneuol,

(e) archwiliad o bob dant am arwyddion o graciau, traul, tolciau a phydredd,

(f) archwiliad o driniaethau adferol a phrosthetigau presennol o ran cyfanrwydd, ffit a difrod,

(g) archwiliad radiograffyddol pan fo rheswm clinigol amdano,

(h) dyrannu risg rhwng categorïau isel, cymedrol, neu uchel yn unol â pharagraffau 31 i 33,

(i) asesiad o achludiad gan gynnwys asesiad orthodontig i blant pan fo rheswm clinigol amdano,

(j) archwiliad o'r cymal arleisiol-fandiblol pan fo rheswm clinigol amdano,

(k) darparu cyngor ataliol wedi ei deilwra a hybu iechyd geneuol gan ddefnyddio canllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth,

(l) llunio pecyn gofal wedi ei bersonoli neu gyfuniad o becynnau gofal pan fo triniaeth bellach yn angenrheidiol, ac

(m) cofnodion clinigol cynhwysfawr a mesurau canlyniadau.

Taliadau

11. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol drefnu i bob contractwr gael taliad cydnabyddiaeth am bob apwyntiad asesiad claf newydd yn unol â chyfarwyddydau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 60 o Ddeddf 2006.

RHAN 3

PECYNNAU GOFAL

12. Rhaid i'r contract gynnwys y gofynion a ganlyn o ran darparu pecynnau gofal.

Cynnwys pecyn gofal

13. Ni chaiff contractwr ond darparu pecyn gofal o fath a restrir yn Atodlen 2.

Cynnwys pecyn gofal

14. Rhaid i bob pecyn gofal gynnwys—

(a) y gwasanaethau perthnasol a ddangosir yn yr ail golofn o'r tabl yn Atodlen 2 sydd, ym marn glinigol yr ymarferydd deintyddol, fwyaf priodol ar gyfer trin y claf,

(b) ymyriadau ataliol sy'n briodol i broffil risg y claf,

(c) cyfnod sefydlogi, pan fo'n glinigol angenrheidiol,

(d) triniaeth ddiffiniol ar gyfer cyflyrau y cafwyd diagnosis ar eu cyfer,

(e) ysbaid adalw yn seiliedig ar risg glinigol, ac

(f) addysg cleifion a chymorth hunanofal.

Cynlluniau triniaeth

15.—(1) Rhaid i gontractwr sy'n darparu pecyn gofal sydd i'w gyflenwi dros fwy nag un apwyntiad sicrhau, ar adeg yr archwiliad cyntaf o'r claf, y darperir cynllun triniaeth i'r claf ar ffurflen a gyflenwir at y diben hwnnw gan y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n pennu—

(a) enw'r claf,

(b) enw'r contractwr,

(c) manylion y mannau lle y bwriedir i'r claf gael y cwrs o driniaeth o dan y pecyn gofal sydd i'w ddarparu iddo gan y contractwr,

(d) y rhif ffôn y gellir ei ddefnyddio i gysylltu â'r contractwr yn ystod oriau arferol y ddeintyddfa,

(e) manylion y gwasanaethau yr ystyrir ar ddyddiad yr archwiliad hwnnw eu bod yn angenrheidiol i'r contractwr eu darparu gan roi sylw i'r rheswm dros y pecyn gofal a'i ddyraniad risg, ac

(f) unrhyw gynigion y gall fod gan y contractwr ar gyfer gwasanaethau deintyddol preifat fel dewis amgen yn lle'r gwasanaethau a gynigir o dan y contract, gan gynnwys manylion am y gost i'r claf pe bai'n derbyn y ddarpariaeth o wasanaethau deintyddol preifat.

(2) Os yw'r claf, ar ôl ystyried y cynllun triniaeth a ddarparwyd yn unol ag is-baragraff (1), yn penderfynu derbyn y ddarpariaeth o wasanaethau deintyddol preifat yn lle'r holl wasanaethau o dan y contract neu ran ohonynt, rhaid i'r contractwr sicrhau bod y claf yn llofnodi'r cynllun hwnnw yn y man priodol i ddangos ei fod wedi deall natur y gwasanaethau deintyddol preifat sydd i'w darparu a'i fod yn derbyn y gwasanaethau deintyddol preifat hynny.

(3) Pan fo angen amrywio'r gwasanaethau sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun triniaeth am resymau clinigol, rhaid i'r contractwr ddarparu i'r claf gynllun triniaeth atgyfeirio diwygiedig yn unol ag is-baragraff (1).

(4) Rhaid i'r contractwr, yn ddarostyngedig i derfynu'r contract, neu fod yn methu â chwblhau cwrs o driniaeth yn unol â pharagraff 6(5) neu (6) o Atodlen 3 (cwrs o driniaeth), ddarparu'r gwasanaethau y manylir arnynt yn y cynllun triniaeth atgyfeirio, neu pan ddarperir cynllun triniaeth diwygiedig yn unol ag is-baragraff (3), yn unol â'r cynllun triniaeth diwygiedig hwnnw.

Apwyntiadau a gollir

16. Pan fydd contractwr yn rhoi claf ar becyn gofal, rhaid iddo gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig fod rhaid i'r contractwr, oni bai ei fod wedi ei fodloni bod yr apwyntiadau a gollir wedi eu hachosi gan rywbeth y tu hwnt i reolaeth y claf, ddechrau'r broses ddadrestru yn unol â pharagraff 17, pan fo claf, yn ystod pecyn gofal—

(a) yn methu â mynd i ddau apwyntiad olynol, neu

(b) yn methu â mynd i gyfanswm o dri apwyntiad.

Hysbysiad dadrestru – pecynnau gofal

17. Pan gychwynnir dadrestru, rhaid i'r contractwr—

(a) hysbysu'r claf yn ysgrifenedig am y bwriad i'w ddileu o'i restr o gleifion gweithredol, gan gynnwys y rhesymau a nifer yr apwyntiadau a gollwyd,

(b) darparu i'r claf gyfle i ymateb o fewn 14 o ddiwrnodau clir ac, os yw'n ymateb, ystyried a ddylid atal y broses ddadrestru, ac

(c) cofnodi'r apwyntiadau a gollwyd a'r ohebiaeth yng nghofnod clinigol y claf.

Dadrestru

18. Os na ddaw ymateb i law sy'n caniatáu i'r contractwr fod wedi ei fodloni yn unol â pharagraff 16(a) o fewn y cyfnod a bennir ym mharagraff 17(b), neu os yw'r claf yn cadarnhau nad yw am barhau â'r gofal mwyach, rhaid i'r contractwr—

(a) dadrestru'r claf o'r pecyn gofal, a

(b) cynghori'r claf i wneud cais eto drwy'r Porth Mynediad Deintyddol i'w ailddyrannu.

Taliadau

19.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol drefnu i bob contractwr gael taliad cydnabyddiaeth am gyflenwi pecyn gofal yn unol â chyfarwyddydau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 60 o Ddeddf 2006.

(2) Rhaid i'r contract ddarparu—

(a) bod pecynnau gofal periodontol yn cael eu cyfyngu i ddau y flwyddyn ar gyfer pob claf, a

(b) na chaniateir i gyfanswm y ddarpariaeth o becynnau gofal coronau, pontydd, mewnosodiadau, arosodiadau ac argaenau fod yn fwy na 10% o werth blynyddol y contract bob blwyddyn, oni bai bod cymeradwyaeth ysgrifenedig wedi ei chael gan y Bwrdd Iechyd Lleol ymlaen llaw.

Taliadau ar ôl dadrestru

20.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), rhaid i'r contract ddarparu'r canlynol—

(a) pan fo claf wedi ei ddadrestru o dan baragraff 17(b), caiff y contractwr hawlio gwerth llawn y pecyn gofal, ar yr amod—

(i) bod y claf wedi mynd i un apwyntiad o leiaf,

(ii) y gall y contractwr ddangos ei fod wedi gwneud ymdrechion digonol i sicrhau bod y claf yn dod i'r apwyntiadau a'i fod wedi ysgrifennu at y claf i egluro bod y pecyn gofal wedi diweddu a bod rhaid i'r claf gofrestru i gael ei ailddyrannu drwy'r Porth Mynediad Deintyddol, a

(iii) bod tystiolaeth o'r ymdrechion a wnaed yn cael ei chadw am 24 mis gan y contractwr a'i bod yn cael ei rhoi ar gael pan ofynnir amdani at ddibenion archwilio.

(b) caiff y contractwr hawlio gwerth llawn y pecyn gofal pan fo pecyn gofal wedi ei ddiweddu gan—

(i) y contractwr—

(aa) pan fo'r amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 3(1) o Atodlen 3 (cleifion treisgar) yn digwydd a phan fo hysbysiad nad yw'n fodlon darparu gwasanaethau i'r claf mwyach wedi ei ddarparu i'r Bwrdd Iechyd Lleol,

(bb) pan fo'r claf wedi gwrthod talu ffi yn yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 4 o Atodlen 3 (cleifion sy'n gwrthod talu ffioedd GIG cyn dechrau triniaeth neu yn ystod triniaeth), neu

(cc) pan fo, ym marn resymol y contractwr, tor perthynas diwrthdro wedi bod rhwng y claf a'r contractwr hwnnw a phan fo hysbysiad

am y tor perthynas hwnnw wedi ei roi i'r claf ac i'r Bwrdd Iechyd Lleol,

(ii) y claf, neu

(iii) person a bennir ym mharagraff 1(2) o Atodlen 3 sy'n gweithredu ar ran y claf.

(3) Rhaid lleihau'r swm a hawlir o dan is-baragraffau (a) a (b) mewn amgylchiadau pan fo ffi'r claf a gyfrifir yn unol ag Atodlen 5, yn ychwanegol at y swm a hawlir, yn golygu bod taliad sy'n fwy na gwerth y pecyn gofal yn ddyledus fel nad yw'r taliad a'r ffi gyda'i gilydd yn fwy na gwerth y pecyn gofal.

RHAN 4

GWASANAETHAU ATAL

Gofyniad i ddarparu gwasanaethau atal

21. Rhaid i'r contract gynnwys gofyniad bod y contractwr yn darparu gwasanaethau atal i gleifion newydd a chleifion gweithredol yn unol â'r Rhan hon.

22. Pwrpas gwasanaethau atal yw—

(a) lleihau nifer yr achosion o glefydau geneuol,

(b) hybu ymddygiadau da o ran iechyd geneuol,

(c) nodi ffactorau risg ar gyfer clefydau geneuol a mynd i'r afael â hwy, a

(d) cynorthwyo cleifion i gynnal yr iechyd geneuol gorau posibl.

Cwmpas gwasanaethau atal

23. Rhaid i wasanaethau atal gynnwys darparu cyngor ataliol wedi ei deilwra ac ymyriadau ataliol wedi eu teilwra sy'n briodol yn ôl oedran y claf, ei broffil risg, a'i anghenion clinigol.

Amseriad gwasanaethau atal

24. Rhaid darparu gwasanaethau atal—

(a) fel rhan o bob asesiad claf newydd,

(b) fel rhan o bob apwyntiad adalw,

(c) fel elfen annatod o bob pecyn gofal, a

(d) fel ymyriad annibynnol pan fo rheswm clinigol amdano.

Cynnwys gwasanaethau atal

25. Rhaid i wasanaethau atal gynnwys, fel y bo'n briodol i anghenion claf unigol, gyngor ac ymyriadau yn ymwneud â'r canlynol—

(a) cyfarwyddiad hylendid geneuol, gan gynnwys—

(i) techneg ac amlder brwsio dannedd;

(ii) dulliau o lanhau rhwng y dannedd;

(iii) glanhau'r tafod pan fo'n briodol;

(iv) gofalu am ddannedd gosod pan fo'n gymwys;

(b) cyngor am ddeiet, gan gynnwys—

(i) rôl siwgr mewn clefydau deintyddol;

(ii) amlder ac amseriad bwyta siwgr;

(iii) bwyta ac yfed bwydydd a diodydd asidig;

(iv) bwyta'n iach ar gyfer iechyd geneuol;

(c) defnyddio fflworid, gan gynnwys—

(i) crynodiad past dannedd fflworid sy'n briodol yn ôl oedran a risg;

(ii) gosod farnais fflworid, pan fo rheswm clinigol amdano;

(iii) atchwanegiadau fflworid pan fo'n briodol;

(iv) cynhyrchion fflworid eraill ar wyneb y dannedd, pan fo rheswm clinigol amdanynt;

(d) ffactorau ffordd o fyw, gan gynnwys—

(i) cyngor rhoi'r gorau i ysmygu a chyfeirio at wasanaethau cymorth;

(ii) yfed alcohol a'i effeithiau ar iechyd geneuol;

(iii) defnyddio cyffuriau hamdden a'u heffeithiau ar iechyd geneuol;

(e) ymwybyddiaeth o ganser geneuol, gan gynnwys—

(i) ffactorau risg ar gyfer canser geneuol;

(ii) technegau hunanarchwilio;

(iii) pryd i geisio cyngor proffesiynol;

(f) atal trawma, gan gynnwys—

(i) defnyddio gard ceg ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden;

(ii) atal anafiadau deintyddol mewn plant;

(g) cyngor oed-benodol, gan gynnwys—

(i) ar gyfer babanod a phlant ifanc: torri dannedd, bwydo â photel, defnyddio dymi, ac atal pydredd yn ystod plentyndod cynnar;

(ii) ar gyfer rhai yn eu llencyndod: gofal orthodontig, cilddannedd ôl, risgiau tyllu geneuol;

(iii) ar gyfer menywod beichiog: iechyd geneuol yn ystod beichiogrwydd ac iechyd geneuol yn ystod plentyndod cynnar;

(iv) ar gyfer oedolion hŷn: rheoli ceg sych, gofalu am ddannedd gosod, effeithiau meddyginiaethau ar iechyd geneuol.

Cyflenwi gwasanaethau atal

26.—(1) Rhaid i gontractwr gyflenwi gwasanaethau atal—

(a) mewn ffordd sy'n briodol i oedran y claf, ei ddealltwriaeth, a'i anghenion cyfathrebu,

(b) gan ddefnyddio iaith sy'n glir ac yn hygyrch i'r claf,

(c) gydag ymwneud rhieni, gofalwyr, neu warcheidwaid pan fo'n briodol,

(d) gan atgyfnerthu negeseuon allweddol yn ysgrifenedig, pan fo rheswm clinigol am hynny, ac

(e) gan arddangos technegau pan fo'n briodol.

(2) Caiff contractwr gyflenwi gwasanaethau atal—

(a) wyneb yn wyneb yn ystod apwyntiadau clinigol,

(b) drwy dechnoleg ddigidol o bell pan fo'n briodol a chyda chydsyniad y claf,

(c) drwy sesiynau addysg grŵp pan fo'n briodol, neu

(d) drwy gyfuniad o'r dulliau uchod.

Cyflenwi ar sail tîm

27. Caniateir i wasanaethau atal gael eu cyflenwi gan unrhyw aelod o dîm deintyddol contractwr sydd wedi cael hyfforddiant priodol, gan gynnwys—

(a) deintyddion,

(b) therapyddion deintyddol,

(c) hylenyddion deintyddol,

(d) nyrsys deintyddol â dyletswyddau estynedig mewn addysg iechyd geneuol, neu

(e) proffesiynolion gofal deintyddol eraill fel y bo'n briodol.

Goruchwylio proffesiynolion gofal deintyddol eraill

28. Pan gyflenwir gwasanaethau atal gan broffesiynolyn gofal deintyddol heblaw deintydd, rhaid i'r contractwr sicrhau bod trefniadau goruchwylio priodol yn eu lle yn unol â gofynion rheoleiddiol proffesiynol.

Ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth

29. Rhaid i'r contractwr gyflenwi gwasanaethau atal yn unol â chanllawiau cyfredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys—

(a) y canllawiau a nodir yn "Delivering Better Oral Health(**27**)" fel y'i diweddarir o bryd i'w gilydd,

(b) canllawiau a ddyroddir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn enwedig y canllawiau sy'n dwyn yr enw "Dental recall—Recall interval between routine dental examinations"(**28**),

(c) canllawiau proffesiynol a ddyroddir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a

(d) unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru neu'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Gwasanaethau atal ar sail risg

30. Rhaid i'r contractwr deilwra dwyster ac amlder gwasanaethau atal yn ôl proffil risg y claf (uchel, cymedrol, isel yn unol â pharagraffau 31 i 33) fel y'i penderfynir drwy asesiad clinigol.

Cleifion risg uchel

31. Ar gyfer cleifion sydd wedi eu hasesu fel rhai risg uchel, rhaid i wasanaethau atal gynnwys—

(a) ymyriadau ataliol amlach,

(b) cyngor a chymorth ataliol estynedig,

(**27**) Delivering Better Oral Health: an evidence-based toolkit for prevention – GIG Lloegr. Fe'i cyhoeddwyd ar 12 Mehefin 2014.
(**28**) Mae'r canllawiau hyn ar gael o wefan NICE, www.nice.org.uk.

(c) gosod farnais fflworid ar ysbeidiau a benderfynir yn ôl angen clinigol,

(d) ystyried mesurau ataliol ychwanegol, fel selyddion rhychau, ac

(e) monitro ac adolygu amlach.

Cleifion risg gymedrol

32. Ar gyfer cleifion sydd wedi eu hasesu fel rhai risg gymedrol, rhaid i wasanaethau atal gynnwys—

(a) cyngor ataliol rheolaidd ym mhob apwyntiad,

(b) gosod farnais fflworid, pan fo rheswm clinigol amdano,

(c) atgyfnerthu negeseuon ataliol allweddol, a

(d) monitro ffactorau risg.

Cleifion risg isel

33. Ar gyfer cleifion sydd wedi eu hasesu fel rhai risg isel, rhaid i wasanaethau atal gynnwys—

(a) cyngor ataliol sy'n briodol i gynnal statws risg isel,

(b) atgyfnerthu ymddygiadau da o ran iechyd geneuol, ac

(c) adolygiad cyfnodol o'u statws risg.

Ymyriadau ataliol penodol

34. Pan fo rheswm clinigol, caiff gwasanaethau atal gynnwys yr ymyriadau a ganlyn—

(a) gosod farnais fflworid,

(b) gosod selyddion rhychau,

(c) gosod cynhyrchion fflworid ar wyneb y dannedd,

(d) glanhau dannedd yn broffesiynol (digennu a llathru) pan fo hyn yn rhan o strategaeth ataliol,

(e) dadansoddiad a chwnsela deietegol,

(f) cymorth ac atgyfeiriad o ran rhoi'r gorau i ysmygu, ac

(g) ymyriadau ataliol eraill sy'n seiliedig ar dystiolaeth, fel y bo'n briodol.

Gofynion o ran dogfennaeth

35. Rhaid i'r contractwr sicrhau bod yr wybodaeth a ganlyn yn cael ei chofnodi yng nghofnod clinigol y claf mewn perthynas â gwasanaethau atal—

(a) y dyddiad y darparwyd y gwasanaethau atal,

(b) yr aelod o'r tîm deintyddol a ddarparodd y gwasanaethau atal,

(c) y cyngor ataliol penodol a'r ymyriadau ataliol penodol a ddarparwyd,

(d) asesiad risg y claf mewn perthynas â chlefydau geneuol,

(e) unrhyw gynhyrchion ataliol a argymhellwyd neu a ddarparwyd,

(f) unrhyw atgyfeiriadau ymlaen a wnaed (e.e., at wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu),

(g) ymateb y claf i gyngor ataliol, pan fo'n berthnasol, ac

(h) y strategaeth ataliol a gynlluniwyd ar gyfer apwyntiadau yn y dyfodol.

Deunyddiau gwybodaeth i gleifion

36.—(1) Rhaid i'r contractwr sicrhau bod deunyddiau gwybodaeth i gleifion priodol ar gael i gefnogi'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau atal, gan gynnwys—

(a) gwybodaeth ysgrifenedig am dechnegau hylendid geneuol,

(b) cyngor deietegol ar gyfer iechyd geneuol,

(c) gwybodaeth am ddefnyddio fflworid,

(d) adnoddau rhoi'r gorau i ysmygu,

(e) deunyddiau ymwybyddiaeth o ganser geneuol, ac

(f) gwybodaeth oed-benodol am iechyd geneuol.

(2) Rhaid i ddeunyddiau gwybodaeth i gleifion—

(a) bod yn seiliedig ar dystiolaeth a bod yn gyson â chanllawiau cyfredol,

(b) bod ar gael yn Gymraeg a Saesneg,

(c) bod ar gael mewn fformatau hygyrch i gleifion ag anghenion cyfathrebu neu anableddau,

(d) bod yn ddiwylliannol briodol, ac

(e) cael eu diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu tystiolaeth a chanllawiau cyfredol.

Monitro ac archwilio

37.—(1) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol fonitro gwaith y contractwr i gyflenwi gwasanaethau atal drwy gymryd o leiaf dri o'r camau a ganlyn ym mhob blwyddyn ariannol—

(a) adolygu cofnodion clinigol,

(b) arolygon ac adborth gan gleifion,

(c) dadansoddi canlyniadau iechyd geneuol,

(d) archwilio'r ymyriadau ataliol a ddarparwyd, ac

(e) asesu cydymffurfedd â chanllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

(2) Rhaid i'r contractwr—

(a) cymryd rhan mewn archwiliadau o'r gwasanaethau atal a gyflenwyd, yn unol â gofynion y Bwrdd Iechyd Lleol,

(b) darparu tystiolaeth o'r gwasanaethau atal a gyflenwyd pan ofynnir amdani,

(c) dangos cydymffurfedd â chanllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth,

(d) cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd yn ymwneud ag atal, ac

(e) ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus mewn deintyddiaeth ataliol.

Torri gofynion atal

38. Gall methiant gan gontractwr i ddarparu gwasanaethau atal yn unol â'r Rhan hon fod yn gyfystyr â thor contract a gall arwain at y Bwrdd Iechyd Lleol yn gwneud y canlynol—

(a) dyfarnu bod tor contract wedi bod a dyroddi hysbysiad adfer neu hysbysiad tor contract, fel y'u diffinnir gan baragraff 69 o Atodlen 3,

(b) dyroddi gofynion i ymgymryd â chamau adfer,

(c) ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau atal a gyflenwir gael eu monitro'n estynedig,

(d) dyroddi gofynion o ran hyfforddiant ychwanegol neu ddatblygiad proffesiynol ychwanegol, neu

(e) cymryd mesurau canlyniadau contractiol eraill fel y'u pennir yn Atodlen 3.

Taliadau

39. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol drefnu i bob contractwr gael taliad cydnabyddiaeth am ddarparu gwasanaethau atal drwy daliad y pen yn unol â pharagraff 40 ac unrhyw gyfarwyddydau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 60 o Ddeddf 2006.

Taliad y pen ar gyfer apwyntiadau atal sy'n digwydd o fewn 18 mis i apwyntiad blaenorol

40.—(1) Rhaid i'r contract ddarparu—

(a) bod y contractwr yn cael taliad y pen sy'n gyfwerth â 5% o werth blynyddol y contract i dalu am ddarparu gwasanaethau atal i bob claf;

(b) bod y taliad y pen yn cael ei wneud mewn rhandaliadau misol cyfartal drwy gydol y flwyddyn gontract;

(c) na chaiff y taliad y pen fod yn ddarostyngedig i adenilliad ariannol ar sail lefelau gweithgarwch, ar yr amod bod y contractwr yn cyflenwi gwasanaethau atal yn unol â'r Rhan hon;

(d) pan fo gwaith monitro neu archwilio gan neu ar ran y Bwrdd Iechyd Lleol yn datgelu nad yw'r contractwr yn cyflenwi gwasanaethau atal yn unol â'r Rhan hon, bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn cael—

(i) ei gwneud yn ofynnol i gamau adfer gael eu cymryd o fewn cyfnod penodedig,

(ii) cadw yn ôl daliadau y pen yn y dyfodol nes bod cydymffurfedd wedi ei ddangos,

(iii) adennill taliadau y pen a wnaed eisoes mewn cysylltiad â chyfnodau pan nad oedd gwasanaethau atal wedi eu darparu'n briodol, neu

(iv) cymryd camau eraill yn unol â'r darpariaethau tor contract yn Atodlen 3.

(2) Mae'r taliad y pen o dan baragraff 40(1) yn rhoi taliad cydnabyddiaeth i'r contractwr am y canlynol—

(a) cyngor ataliol ac ymyriadau ataliol a ddarperir fel rhan o asesiadau cleifion newydd,

(b) cyngor ataliol ac ymyriadau ataliol a ddarperir fel rhan o apwyntiadau adalw,

(c) cyngor ataliol ac ymyriadau ataliol a ddarperir fel rhan o becynnau gofal,

(d) apwyntiadau ataliol pwrpasol pan fo rheswm clinigol amdanynt,

(e) gosod farnais fflworid, pan fo rheswm clinigol amdano,

(f) darparu deunyddiau gwybodaeth i gleifion,

(g) yr amser a dreuliwyd gan holl aelodau'r tîm deintyddol wrth gyflenwi gwasanaethau atal, ac

(h) costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â dogfennu a monitro'r gwaith o gyflenwi gwasanaeth atal.

Taliadau y pen ar gyfer apwyntiadau adalw pan mae 18 mis ers yr apwyntiad blaenorol

41.—(1) Rhaid i'r contract ddarparu—

(a) bod y contractwr yn cael taliad y pen sy'n gyfwerth â 3% o werth blynyddol y contract i roi taliad cydnabyddiaeth i'r contractwr am ddarparu apwyntiadau adalw sydd dros 18 mis yn hwyrach na'r apwyntiad blaenorol;

(b) bod y taliad y pen yn cael ei wneud mewn rhandaliadau misol cyfartal drwy gydol y flwyddyn gontract;

(c) yn ddarostyngedig i is-baragraff (d), na all y taliad y pen fod yn ddarostyngedig i adenilliad ariannol ar sail lefelau gweithgarwch, ar yr amod bod y contractwr yn cyflenwi gwasanaethau atal yn unol â'r Rhan hon;

(d) pan fo gwaith monitro neu archwilio yn datgelu nad yw'r contractwr yn cyflenwi gwasanaethau atal yn unol ag is-baragraff (2)(a) isod, bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn cael—

(i) ei gwneud yn ofynnol i gamau adfer gael eu cymryd o fewn cyfnod penodedig,

(ii) cadw yn ôl daliadau y pen yn y dyfodol nes bod cydymffurfedd wedi ei ddangos,

(iii) adennill taliadau y pen a wnaed eisoes mewn cysylltiad â chyfnodau pan nad oedd gwasanaethau atal wedi eu darparu'n briodol, neu

(iv) cymryd camau eraill yn unol â'r darpariaethau tor contract yn Atodlen 3.

(2) Mae'r taliad y pen o dan baragraff 41(1) yn rhoi taliad cydnabyddiaeth i'r contractwr am y canlynol—

(a) adalw o leiaf 80% o'r cleifion gweithredol risg isel sy'n destun ysbeidiau adalw o rhwng 18 a 24 mis,

(b) cyngor ataliol ac ymyriadau ataliol a ddarperir fel rhan o'r apwyntiadau adalw cleifion risg isel hynny, ac

(c) gosod farnais fflworid fel rhan o'r apwyntiadau adalw risg isel hynny, pan fo rheswm clinigol amdano.

Ymyriad ataliol yn ystod pecyn gofal

42. Rhoddir taliad cydnabyddiaeth am ymyriadau ataliol penodol sy'n ffurfio rhan o becyn gofal (megis selyddion rhychau neu gwnsela deietegol estynedig) drwy'r taliad am y pecyn gofal o dan baragraff 19 ac nid drwy'r taliadau y pen am y gwasanaeth atal o dan baragraff 40 neu 41, yn ôl y digwydd.

Datblygiad proffesiynol parhaus

43.—(1) Rhaid i'r contractwr sicrhau bod pob aelod o'r tîm deintyddol sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau atal yn ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus rheolaidd mewn deintyddiaeth ataliol, gan gynnwys—

(a) diweddariadau ar ganllawiau ataliol sy'n seiliedig ar dystiolaeth,

(b) hyfforddiant mewn technegau newid ymddygiad,

(c) hyfforddiant mewn cyflenwi gwasanaethau atal i grwpiau cleifion amrywiol,

(d) hyfforddiant mewn defnyddio technoleg ddigidol ar gyfer cyflenwi gwasanaeth atal, ac

(e) datblygiad proffesiynol perthnasol arall fel y bo'n briodol.

(2) Rhaid i'r contractwr gadw tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus mewn deintyddiaeth ataliol am 24 mis o'r dyddiad yr ymgymerwyd â'r datblygiad proffesiynol parhaus a'i rhoi ar gael i'r Bwrdd Iechyd Lleol pan ofynnir amdani at ddibenion archwilio.

Hysbysiad dadrestru – gwasanaethau atal

44. Pan gychwynnir dadrestru, rhaid i'r contractwr—

(a) hysbysu'r claf yn ysgrifenedig am y bwriad i'w ddileu o'i restr o gleifion gweithredol, gan gynnwys y rhesymau a nifer yr apwyntiadau a gollwyd,

(b) darparu i'r claf gyfle i ymateb o fewn 14 o ddiwrnodau clir ac, os yw'n ymateb, ystyried a ddylid atal y broses ddadrestru, ac

(c) cofnodi'r apwyntiadau a gollwyd a'r ohebiaeth yng nghofnod clinigol y claf.

Dadrestru ar ôl 36 mis

45. Os nad yw claf gweithredol wedi dod i apwyntiad â phractis y contractwr am gyfnod o 36 mis rhaid i'r contractwr—

(a) dadrestru'r claf, a

(b) cynghori'r claf i gofrestru drwy'r Porth Mynediad Deintyddol i'w ailddyrannu.

RHAN 5

BLAENORIAETHAU CENEDLAETHOL

46. Rhaid i'r contract ei gwneud yn ofynnol bod contractwyr yn gwneud trefniadau i ddilyn Blaenoriaethau Cenedlaethol yn unol â'r Cynllun Blaenoriaethau Cenedlaethol.

47. Ystyr y Cynllun Blaenoriaethau Cenedlaethol yw gwneud trefniadau i gyflenwi eitemau dethol o'r rhestr isod yn unol â chyfarwyddydau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 60(3)(b)(i) o Ddeddf 2006—

(a) gwella ansawdd,

(b) rheoli ansawdd,

(c) mynd i'r afael ag anghydraddoldeb,

(d) gwella mynediad at wasanaethau ar gyfer carfannau o gleifion a dargedir,

(e) datblygu modelau newydd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau gan gynnwys gofal integredig i reoli clefydau cronig,

(f) datblygu'r defnydd o amrywiaeth o broffesiynolion deintyddol i gyflenwi gofal deintyddol yn fwy effeithiol ac effeithlon,

(g) cyflenwi gwasanaethau'n ddigidol,

(h) gwella gwaith atal a rheoli haint, ac

(i) cynaliadwyedd (deintyddiaeth wyrddach).

ATODLEN 2

PECYNNAU GOFAL

Teitl	*Disgrifiad*
Pecyn Gofal Adferol Syml	Mae'n cynnwys llenwadau, coronau dros dro, coronau Hall, ac echdynnu hyd at gyfanswm o 4 dant.
Pecyn Gofal Adferol Helaeth	Fel y pecyn gofal adferol syml ar gyfer 5 i 8 dant. Deunydd cyfansawdd ar gyfer dannedd blaen (dant llygad i ddant llygad). Ar gyfer dannedd ôl, defnyddir deunyddiau clinigol briodol, sy'n cynnwys amalgam a deunyddiau amgen yn lle amalgam.
Pecyn Gofal Periodontol (uchafswm o ddau y claf y flwyddyn)	Asesir mynediad pan gymerir claf ymlaen ar ôl asesiad, ond rhaid i'r claf gyflawni sgôr plac o 30% o leiaf erbyn y trydydd ymweliad Addysg Iechyd Geneuol. Mae'n cynnwys sgôr plac a chyfarwyddyd hylendid geneuol wedi ei deilwra, siart pocedi chwe phwynt, dileu plac mecanyddol proffesiynol a digrammenu pocedi. Disgwylir i ddeiliaid contract ddilyn canllawiau, megis canllawiau Cymdeithas Periodontoleg Prydain ar reoli cleifion â chlefyd periodontol.
Pecyn Gofal Dannedd Gosod	Nid yw'n cynnwys ffioedd labordy (i'w talu yn uniongyrchol gan y claf, oni bai ei fod wedi ei esemptio rhag ffioedd GIG). Mae'n cynnwys dannedd gosod uchaf ac isaf, gan gynnwys dannedd gosod Crôm Cobalt os oes rheswm clinigol amdanynt.
Pecyn Gofal Sefydlogi	Ar gyfer cleifion â 7+ dant pydredig, pan fo gan o leiaf ddau o'r dannedd bydredd sy'n estyn yn agos at y bywyn neu i mewn iddo a phan fo'r claf yn awyddus i ymgysylltu. Mae'n cynnwys echdyniadau, mesurau atal Delivering Better Oral Health, triniaethau adferol canolraddol ionomer gwydr, bywynddrychiad, gwaredu ffactorau sy'n dal plac.
Pecyn Sianel y Gwreiddyn ar gyfer Dannedd Blaen	Ar gyfer hyd at ddau ddant 1-3, gan gynnwys unrhyw driniaethau adferol parhaol.
Pecyn Sianel y Gwreiddyn ar gyfer Dannedd Ôl	Pecyn sianel y gwreiddyn ar gyfer dannedd ôl a gogilddannedd, ar gyfer hyd at ddau ddant. Mae'n cynnwys ail gilddannedd os yw'r dant yn strategol angenrheidiol i gynnal deintiad (e.e. cleifion nad oes ganddynt gynhaliaeth ôl, rheswm meddygol dros gadw'r dant etc.). Mae'n cynnwys unrhyw orchuddio cysbau sydd ei angen, ac eithrio ffi labordy (a delir gan gleifion, oni bai eu bod yn esempt rhag ffioedd GIG).
Pecyn Gofal Coronau a Phontydd, Mewnosodiadau, Arosodiadau ac Argaenau (wedi ei gyfyngu i 10% o gyfanswm y pecynnau gofal a gyflenwir)	Nid yw'n cynnwys triniaethau adferol dros dro. Pont â hyd at dair uned neu hyd at ddwy goron neu pan ddarperir coron a phont, byddai pont gantilifrog sengl a choron sengl yn cael eu darparu o dan un pecyn gofal. Mae'n cynnwys modelau astudio, pyst a chreiddiau etc. Nid yw'n cynnwys ffioedd labordy.

Pecyn Gofal Amrywiol	Ar gyfer triniaeth ac ymyriadau i gleifion sy'n dod y tu allan i becyn gofal cyfredol neu'r tu allan i'r cyfnod gwarant. Mae'n cynnwys: atgyweirio/ychwanegu/ail-leinio dannedd gosod, esmwytho dannedd gosod, modelau astudio, cyfarpar codi brathiad, biopsi, atgyweirio/ailsmentio coron, pont neu argaen, tynnu pwythau, pericoronitis, llid briwiol madreddol acíwt y deintgig, materion brys orthodontig, atal gwaedlif (ar gyfer echdyniadau a wnaed y tu allan i becyn gofal), soced sych (ar gyfer echdyniadau a wnaed y tu allan i becyn gofal). Nid yw'n cynnwys unrhyw ffi labordy.

1. Mae pecynnau gofal periodontol yn cael eu cyfyngu i ddau y flwyddyn ar gyfer pob claf.

2. Ni chaniateir i gyfanswm y ddarpariaeth o becynnau gofal coronau, pontydd, mewnosodiadau, arosodiadau ac argaenau fod yn fwy na 10% o werth blynyddol y contract bob blwyddyn, oni bai bod cymeradwyaeth ysgrifenedig wedi ei chael gan y Bwrdd Iechyd Lleol ymlaen llaw.

3. Pan fo'n briodol yn glinigol, caniateir cyflenwi triniaeth frys i gleifion gweithredol fel pecyn gofal o fewn yr apwyntiad brys neu apwyntiadau dilynol pan fo'n angenrheidiol.

ATODLEN 3

Rheoliadau 2, 9(5), 9(7), 13(3)(a), 17(6), 19(1), 19(4), 23, 26, 28, 33(1)

TELERAU ERAILL YN Y CONTRACT

RHAN 1
CLEIFION

Personau y mae gwasanaethau gorfodol i'w darparu iddynt

1.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (3) a (5), caiff y contractwr gytuno i ddarparu gwasanaethau gorfodol o dan y contract i unrhyw glaf newydd neu glaf gweithredol os gofynnir am y gwasanaethau hynny—

(a) gan y person y mae angen y gwasanaethau arno, neu

(b) gan berson a bennir yn is-baragraff (2), ar ran y person y mae angen y gwasanaethau hynny arno.

(2) At ddibenion is-baragraff (1), caniateir gofyn am wasanaethau—

(a) ar ran unrhyw blentyn—

(i) gan y naill riant neu'r llall,

(ii) gan berson a awdurdodir yn briodol gan awdurdod lleol y traddodwyd y plentyn i'w ofal o dan Ddeddf 1989, neu

(iii) gan berson a awdurdodir yn briodol gan sefydliad gwirfoddol y mae'r plentyn yn cael llety ganddo o dan ddarpariaethau'r Ddeddf honno, neu

(b) ar ran unrhyw oedolyn sy'n analluog i wneud cais o'r fath neu i awdurdodi cais o'r fath i gael ei wneud ar ei ran, gan berthynas i'r person hwnnw neu gan brif ofalwr y person hwnnw.

(3) Ni chaiff y contractwr wrthod darparu gwasanaethau gorfodol mewn perthynas â pherson sydd y tu allan i grŵp penodedig o bersonau ond pan fo'r contract yn darparu i'r contractwr ddarparu gwasanaethau o'r fath i grŵp penodedig.

(4) Caiff y contractwr wrthod darparu gwasanaethau o dan y contract i berson os oes ganddo sail resymol dros wneud hynny nad yw'n ymwneud ag—

(a) unrhyw nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, dosbarth cymdeithasol, golwg na chyflwr meddygol neu ddeintyddol(**29**), na

(b) penderfyniad na phenderfyniad bwriadedig person i dderbyn neu wrthod gwasanaethau deintyddol preifat mewn cysylltiad ag ef ei hun neu aelod o'i deulu.

(5) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys—

(a) pan fo'r Contractwr yn darparu gwasanaethau gorfodol mewn carchar, na

(b) mewn unrhyw achos i swyddogaethau iechyd deintyddol y cyhoedd.

Hoff ddewis claf o ymarferydd deintyddol

2.—(1) Pan fo'r contractwr wedi cytuno i ddarparu gwasanaethau i glaf, rhaid iddo—

(a) rhoi gwybod i'r claf (neu, yn achos plentyn neu oedolyn y mae paragraff 1(2)(b) yn gymwys iddo, y person a wnaeth y cais ar ei ran) am hawl y claf i fynegi hoff ddewis i gael gwasanaethau gan ymarferydd penodol, a

(b) cofnodi yn ysgrifenedig unrhyw hoff ddewis a fynegir gan neu ar ran y claf.

(2) Rhaid i'r contractwr ymdrechu i gydymffurfio ag unrhyw hoff ddewis rhesymol a fynegir o dan is-baragraff (1) ond nid oes angen iddo wneud hynny—

(a) os oes gan y cyflawnydd sy'n hoff ddewis sail resymol dros wrthod darparu gwasanaethau i'r claf, neu

(b) os nad yw'r cyflawnydd sy'n hoff ddewis yn cyflawni yn rheolaidd y gwasanaethau sy'n ofynnol gan y claf o fewn y practis.

(3) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) pan fo'r contractwr yn darparu gwasanaethau gorfodol mewn carchar, na

(b) mewn unrhyw achos i swyddogaethau iechyd deintyddol y cyhoedd.

Cleifion treisgar

3.—(1) Pan fo claf i'r contractwr—

(a) wedi cyflawni gweithred o drais yn erbyn un neu ragor o'r personau a bennir yn is-baragraff (3),

(b) wedi ymddwyn yn y fath fodd yn erbyn unrhyw un neu ragor o'r personau a bennir yn is-baragraff (3) fel bod y person hwnnw neu'r personau hynny wedi ofni am ei ddiogelwch neu eu diogelwch, neu

(c) wedi ymddwyn yn y fath fodd fel y byddai unrhyw un neu ragor o'r personau a bennir yn is-baragraff (3) ym marn resymol y contractwr mewn perygl pe byddai gwasanaethau yn cael eu darparu i'r claf hwnnw,

(**29**) 2010 p. 15.

caiff y contractwr wrthod darparu gwasanaethau i'r claf neu caiff derfynu darpariaeth gwasanaethau i'r claf.

(2) Os yw'r amgylchiadau a ddisgrifir yn is-baragraff (1) wedi digwydd a bod y contractwr wedi penderfynu nad yw'n fodlon darparu gwasanaethau i'r claf hwnnw mwyach, rhaid i'r contractwr hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol am y penderfyniad hwn o fewn 7 niwrnod clir i'r penderfyniad gael ei wneud a dechrau'r broses ddadrestru, os yw'n berthnasol.

(3) Ystyr y cyfeiriad at berson yn is-baragraff (1) yw—

(a) y contractwr pan fo'n ymarferydd deintyddol unigol,

(b) yn achos contract gyda dau neu ragor o unigolion yn ymarfer mewn partneriaeth, partner yn y bartneriaeth honno,

(c) yn achos contract gyda chorfforaeth ddeintyddol, cyfarwyddwr, prif weithredwr neu ysgrifennydd cwmni i'r gorfforaeth honno, neu aelod ohoni, neu berson y mae cyfrannau yn y gorfforaeth honno yn eiddo iddo yn gyfreithiol ac yn llesiannol,

(d) aelod o staff y contractwr,

(e) person a gymerir ymlaen gan y contractwr i gyflawni neu i helpu i gyflawni gwasanaethau o dan y contract, neu

(f) unrhyw berson arall sy'n bresennol—

(i) ym mangre'r practis, neu

(ii) yn y man lle y darparwyd gwasanaethau i'r claf o dan y contract.

(4) Caniateir i hysbysiad o dan is-baragraff (2) gael ei roi drwy unrhyw gyfrwng, gan gynnwys ffôn, ffacs neu e-bost, ond os na chaiff ei roi yn ysgrifenedig, rhaid ei gadarnhau yn ysgrifenedig o fewn 7 niwrnod clir (ac at y diben hwn nid yw hysbysiad a anfonir drwy ffacs nac e-bost yn un ysgrifenedig).

(5) Yr amser pryd y mae'r contractwr yn hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol yw'r amser pryd y mae'n gwneud yr alwad ffôn neu'n anfon neu'n danfon yr hysbysiad i'r Bwrdd Iechyd Lleol.

(6) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) cydnabod yn ysgrifenedig fod yr hysbysiad gan y contractwr o dan is-baragraff (2) wedi dod i law,

(b) sicrhau bod effaith yr hysbysiad wedi ei gofnodi yn y Porth Mynediad Deintyddol er mwyn atal ailddyrannu'r claf hwnnw i'r contractwr hwnnw, ac

(c) cymryd pob cam rhesymol i roi gwybod i'r claf o dan sylw cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Cleifion sy'n gwrthod talu ffioedd GIG cyn dechrau triniaeth neu yn ystod triniaeth

4.—(1) Os yw'r contractwr, yn unol ag Atodlen 5, wedi gofyn am i'r claf dalu ffi mewn cysylltiad â'r cwrs o driniaeth hwnnw a bod y claf wedi methu â thalu'r ffi honno, caiff y contractwr—

(a) gwrthod dechrau cwrs o driniaeth, neu

(b) terfynu cwrs o driniaeth cyn ei gwblhau, a

phan fo wedi dod â chwrs o driniaeth i ben yn unol ag is-baragraff (a) neu (b), ddechrau'r broses ddadrestru.

(2) Pan fo'r contractwr yn gwrthod darparu gwasanaethau neu wedi terfynu cwrs o driniaeth o dan is-baragraff (1), rhaid i'r contractwr hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol o fewn

7 niwrnod clir ac, os yw'r contractwr wedi cychwyn y broses ddadrestru, ei hysbysu am hyn.

(3) Caniateir rhoi hysbysiad o dan is-baragraff (2) drwy unrhyw gyfrwng gan gynnwys ffôn, ffacs neu e-bost ond os na chaiff ei roi yn ysgrifenedig, rhaid ei gadarnhau yn ysgrifenedig o fewn 7 niwrnod clir (ac at y diben hwn nid yw hysbysiad a anfonir drwy ffacs nac e-bost yn un ysgrifenedig).

(4) Os yw'r hysbysiad o dan is-baragraff (2) yn cadarnhau bod dadrestru wedi ei gychwyn rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) cydnabod yn ysgrifenedig fod yr hysbysiad gan y contractwr o dan is-baragraff (2) wedi dod i law,

(b) sicrhau bod effaith yr hysbysiad wedi ei gofnodi yn y Porth Mynediad Deintyddol er mwyn atal ailddyrannu'r claf hwnnw i'r contractwr hwnnw, ac

(c) cymryd pob cam rhesymol i roi gwybod i'r claf o dan sylw cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Tor perthynas diwrthdro rhwng y contractwr a'r claf

5.—(1) Rhaid i'r contractwr hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol o fewn 7 niwrnod iddo wneud y penderfyniad nad yw'n fodlon darparu gwasanaethau i glaf mwyach o dan y contract —

(a) pan fo tor perthynas diwrthdro wedi bod, ym marn resymol y contractwr, rhwng y claf a'r contractwr hwnnw, a

(b) pan fo hysbysiad am y tor perthynas hwnnw wedi ei roi i'r claf gan y contractwr.

(2) Pan fo hysbysiad o dan is-baragraff (1) wedi ei anfon i'r Bwrdd Iechyd Lleol, rhaid i'r contractwr ddechrau'r broses ddadrestru.

(3) Caniateir rhoi'r hysbysiad o dan is-baragraff (1) ac (1)(b) drwy unrhyw gyfrwng gan gynnwys ffôn, ffacs neu e-bost ond os na chaiff ei roi yn ysgrifenedig, rhaid ei gadarnhau yn ysgrifenedig o fewn 7 niwrnod clir (ac at y diben hwn nid yw hysbysiad a anfonir drwy ffacs nac e-bost yn un ysgrifenedig).

(4) Ar ôl i'r hysbysiad o dan is-baragraff (1) ddod i law rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) cydnabod yn ysgrifenedig fod yr hysbysiad gan y contractwr o dan is-baragraff (1) wedi dod i law,

(b) sicrhau bod effaith yr hysbysiad wedi ei gofnodi yn y Porth Mynediad Deintyddol er mwyn atal ailddyrannu'r claf hwnnw i'r contractwr hwnnw, ac

(c) cymryd pob cam rhesymol i roi gwybod i'r claf o dan sylw cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

RHAN 2

DARPARU GWASANAETHAU

Cwrs o driniaeth

6.—(1) Ac eithrio yn achos swyddogaethau iechyd deintyddol y cyhoedd, rhaid i'r contractwr ddarparu gwasanaethau gorfodol i glaf drwy ddarparu cwrs o driniaeth i'r claf hwnnw.

(2) Rhaid i'r contractwr ddefnyddio ei ymdrechion gorau i sicrhau bod cwrs o driniaeth yn cael ei gwblhau o fewn cyfnod rhesymol i'r dyddiad—

(a) y cafodd y cynllun triniaeth ei ysgrifennu yn unol â pharagraff 7(1), neu

(b) pan na fo cynllun triniaeth yn ofynnol yn unol â'r paragraff hwnnw, y cynhaliwyd yr archwiliad ac asesiad cychwynnol o'r claf.

(3) Pan fo contractwr yn darparu triniaeth frys i glaf, mae'r driniaeth frys a ddarperir yn gyfystyr â chwrs o driniaeth, ac nid oes gwasanaethau eraill i'w darparu yn ystod y cwrs o driniaeth hwnnw.

(4) Rhaid i unrhyw wasanaethau pellach sydd i'w darparu i'r claf hwnnw o dan y contract gael eu darparu fel cwrs o driniaeth newydd os yw cwrs o driniaeth—

(a) yn cael ei ddiweddu cyn iddo gael ei gwblhau, neu

(b) fel arall ddim yn cael ei gwblhau o fewn cyfnod rhesymol.

(5) Ni chaniateir diweddu cwrs o driniaeth ond gan—

(a) y contractwr—

(i) pan fo'r amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 3(1) o'r Atodlen hon (cleifion treisgar) yn digwydd a phan fo hysbysiad nad yw'r contractwr yn fodlon darparu gwasanaethau mwyach wedi ei roi i'r Bwrdd Iechyd Lleol,

(ii) pan fo'r claf wedi gwrthod talu ffi yn yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 4 o'r Atodlen hon (cleifion sy'n gwrthod talu ffioedd GIG cyn dechrau triniaeth neu yn ystod triniaeth), neu

(iii) pan fo paragraff 5 (tor perthynas diwrthdro rhwng y contractwr a'r claf) yn gymwys a bo hysbysiad wedi ei roi i'r claf ac i'r Bwrdd Iechyd Lleol,

(b) y claf, neu

(c) person a bennir ym mharagraff 1(2) o'r Atodlen hon sy'n gweithredu ar ran y claf.

(6) Os nad yw'r contractwr yn gallu cwblhau'r cwrs o driniaeth sydd wedi ei ddechrau am resymau sydd y tu hwnt i'w reolaeth, rhaid i'r contractwr roi hysbysiad i'r Bwrdd Iechyd Lleol o fewn 14 o ddiwrnodau clir am hyd a lled y driniaeth a ddarparwyd felly a'r rheswm dros yr anallu i gwblhau gweddill y driniaeth.

Cynlluniau triniaeth

7.—(1) Pan fo'r contractwr yn cytuno i ddarparu cwrs o driniaeth fel rhan o becyn gofal i glaf, rhaid iddo, ar adeg yr archwiliad ac asesiad cychwynnol o'r claf hwnnw, sicrhau y darperir cynllun triniaeth i'r claf ar ffurflen a gyflenwir at y diben hwnnw gan y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'n rhaid iddi bennu—

(a) enw'r claf,

(b) enw'r contractwr,

(c) manylion y mannau lle y bwriedir i'r claf gael y gwasanaethau,

(d) y rhif ffôn y gellir ei ddefnyddio i gysylltu â'r contractwr yn ystod oriau arferol y ddeintyddfa,

(e) manylion y gwasanaethau (os o gwbl) yr ystyrir, ar ddyddiad yr archwiliad, eu bod yn angenrheidiol i sicrhau iechyd geneuol y claf,

(f) y ffi GIG, os o gwbl, mewn cysylltiad â'r gwasanaethau hynny os y'u darperir yn unol â'r contract, ac

(g) unrhyw gynigion y gall fod gan y contractwr ar gyfer gwasanaethau deintyddol preifat fel dewis amgen yn lle'r gwasanaethau a gynigir o dan y contract, gan

gynnwys manylion am y gost i'r claf pe bai'n derbyn y ddarpariaeth o wasanaethau deintyddol preifat.

(2) Os yw'r claf, ar ôl ystyried y cynllun triniaeth a ddarparwyd yn unol ag is-baragraff (1), yn penderfynu derbyn y ddarpariaeth o wasanaethau deintyddol preifat yn lle'r holl wasanaethau o dan y contract neu ran ohonynt, rhaid i'r contractwr sicrhau bod y claf yn llofnodi'r cynllun triniaeth yn y man priodol i ddangos ei fod wedi deall natur y gwasanaethau deintyddol preifat sydd i'w darparu a'i fod yn derbyn y gwasanaethau hynny.

(3) Pan fo angen amrywio'r gwasanaethau a gynhwyswyd yn y cynllun triniaeth o dan y paragraff hwn, rhaid i'r contractwr ddarparu i'r claf gynllun triniaeth diwygiedig yn unol ag is-baragraff (1).

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff 6(5), rhaid i'r contractwr ddarparu'r gwasanaethau y manylir arnynt yn y cynllun triniaeth, neu pan fo'r cynllun triniaeth wedi ei ddiwygio, yn y cynllun triniaeth diwygiedig.

(5) Pan fo claf yn gofyn i'r contractwr ddarparu iddo grynodeb o'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd o dan y cynllun triniaeth am ei fod yn bwriadu cael gwasanaethau gan gontractwr arall, rhaid i'r contractwr ddarparu iddo unrhyw grynodeb y mae'n ystyried ei fod yn briodol (gan gynnwys manylion y gofal a'r driniaeth na fyddai'n hawdd eu gweld o'u harchwilio'n weledol).

(6) Rhaid cyflenwi'r crynodeb y cyfeirir ato yn is-baragraff (5) i'r claf ar ffurflen a gyflenwir at y diben hwnnw gan y Bwrdd Iechyd Lleol o fewn 28 niwrnod clir i ofyn amdano.

Cwblhau cyrsiau o driniaeth

8.—(1) Rhaid i'r contractwr ddangos ar y ffurflen a gyflenwir i'r Bwrdd Iechyd Lleol yn unol â pharagraff 38(3) a gafodd y cwrs o driniaeth ei gwblhau, ac os na chafodd y cwrs o driniaeth ei gwblhau, rhaid iddo ddarparu'r rheswm dros fethu â chwblhau'r cwrs o driniaeth.

(2) O ran y Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) os yw'n penderfynu bod nifer y cyrsiau o driniaeth a ddarparwyd gan y contractwr nad ydynt wedi eu cwblhau yn ormodol, a

(b) os nad yw'n ystyried bod y rhesymau a roddwyd gan y contractwr dros fethu â chwblhau'r cyrsiau o driniaeth yn foddhaol,

mae ganddo hawlogaeth i arfer ei bwerau o dan baragraff 57(2) ar y sail nad yw'r contractwr, yn unol â pharagraff 6(2), yn defnyddio ei ymdrechion gorau i sicrhau bod cyrsiau o driniaeth yn cael eu cwblhau.

Atgyfeirio at gontractwr arall, ysbyty neu ddarparwr gwasanaeth perthnasol arall ar gyfer gwasanaethau gorfodol uwch, gwasanaethau cartref neu wasanaethau tawelyddu

9.—(1) Pan fo ar glaf angen gwasanaethau gorfodol uwch, gwasanaethau cartref neu wasanaethau tawelyddu nas darperir o dan y contract gan y contractwr, rhaid i'r contractwr, os yw'r claf yn cytuno, atgyfeirio'r claf hwnnw yn unol ag is-baragraff (2) i wasanaeth atgyfeirio wedi ei ddarparu gan gontractwr amgen, ysbyty neu ddarparwr gwasanaeth perthnasol arall o dan Ran 1 o Ddeddf 2006.

(2) Wrth atgyfeirio claf yn unol ag is-baragraff (1), rhaid i'r contractwr ddarparu—

(a) i'r claf sy'n cael ei atgyfeirio, hysbysiad atgyfeirio ar ffurflen a gyflenwir at y diben hwnnw gan y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'n rhaid iddi bennu'r gwasanaethau y

manylir arnynt yn y cynllun triniaeth sydd i'w cynnal gan y contractwr amgen, yr ysbyty neu'r darparwr gwasanaeth perthnasol arall, a

(b) i'r contractwr amgen, yr ysbyty neu'r darparwr gwasanaeth perthnasol arall, naill ai adeg yr atgyfeiriad neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny—

(i) copi o'r cynllun triniaeth a ddarparwyd i'r claf yn unol â pharagraff 7,

(ii) copi o'r hysbysiad atgyfeirio, a

(iii) datganiad o'r swm a dalwyd iddo, neu sy'n ddyledus i'w dalu iddo, gan y claf o dan Reoliadau (Ffioedd) 2006 mewn cysylltiad â'r cwrs o driniaeth pryd y gwneir yr atgyfeiriad.

(3) Pan fo'r claf yn hysbysu'r contractwr, ar lafar neu yn ysgrifenedig, nad yw'n dymuno cael ei atgyfeirio at y contractwr amgen, yr ysbyty neu'r darparwr gwasanaeth perthnasol arall a ddewiswyd gan y contractwr, rhaid i'r contractwr, os gofynnir iddo wneud hynny gan y claf, ddefnyddio ei ymdrechion gorau i atgyfeirio'r claf at gontractwr, ysbyty neu ddarparwr gwasanaeth perthnasol addas arall o dan Ran 1 o Ddeddf 2006 ar gyfer darparu'r gwasanaeth atgyfeirio.

Cymysgu gwasanaethau a ddarperir o dan y contract â gwasanaethau deintyddol preifat

10.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff 2, caiff contractwr, gyda chydsyniad y claf, ddarparu'n breifat unrhyw ran o gwrs o driniaeth ar gyfer y claf hwnnw, gan gynnwys mewn amgylchiadau pan fo'r claf hwnnw wedi ei atgyfeirio at y contractwr ar gyfer gwasanaeth atgyfeirio.

(2) Ni chaiff contractwr ddarparu'n breifat fel rhan o gwrs o driniaeth o dan y contract unrhyw driniaeth sy'n ymwneud â rhoi anaesthesia cyffredinol neu ddarparu tawelydd.

(3) Ni chaiff contractwr, gyda'r bwriad o gael cytundeb claf i gael gwasanaethau'n breifat—

(a) cynghori claf nad yw'r gwasanaethau sy'n angenrheidiol yn ei achos ef ar gael gan y contractwr o dan y contract, na

(b) ceisio camarwain y claf ynghylch ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael o dan y contract.

(4) Yn is-baragraff (2), ystyr "ddarparu tawelydd" yw darparu un neu ragor o gyffuriau i glaf er mwyn cynhyrchu cyflwr lle mae gweithrediad y system nerfol ganolog wedi ei arafu i alluogi triniaeth i gael ei chynnal.

Atgyweirio neu amnewid triniaethau adferol

11.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), pan fo angen atgyweirio neu amnewid triniaeth adferol a bennir yn is-baragraff (2) rhaid i'r contractwr atgyweirio neu amnewid y driniaeth adferol heb godi ffi ar y claf.

(2) Y triniaethau adferol y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1) yw unrhyw lenwad, llenwad gwreiddyn, mewnosodiad, argaen porslen neu goron a ddarparwyd gan y contractwr i glaf yng nghwrs darparu gwasanaethau o dan y contract, y mae rhaid ei atgyweirio neu ei hatgyweirio neu ei amnewid neu ei hamnewid yn ystod y cyfnod perthnasol i sicrhau iechyd geneuol.

(3) Mae atgyweirio neu amnewid triniaeth adferol a bennir yn is-baragraff (2) yn gwrs o driniaeth o dan becyn gofal at ddibenion cyfrifo cyfran y gwasanaethau gorfodol o dan reoliad 17 er nad oes ffi yn cael ei chodi na'i hadennill yn unol â Rheoliadau (Ffioedd) 2006.

(4) Nid yw is-baragraff yn gymwys—

(a) pan fo person heblaw'r contractwr, o fewn y cyfnod perthnasol, wedi darparu triniaeth ar y dant y darparwyd y driniaeth adferol mewn cysylltiad ag ef,

(b) pan fo'r contractwr wedi rhoi gwybod i'r claf ar adeg y driniaeth adferol y bwriadwyd i'r driniaeth adferol fod yn un dros dro, a bod hynny wedi ei gofnodi yng nghofnod y claf,

(c) pan fo cyflwr y dant y darparwyd y driniaeth adferol mewn cysylltiad ag ef, ym marn y contractwr, yn golygu na ellir atgyweirio nac amnewid y driniaeth adferol yn foddhaol a bod angen triniaeth wahanol nawr, neu

(d) pan fo'r atgyweiriad neu amnewidiad yn ofynnol o ganlyniad i drawma.

(5) Yn y paragraff hwn, ystyr "y cyfnod perthnasol" yw—

(a) y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y darparwyd y driniaeth adferol, ac sy'n dod i ben 12 mis ar ôl y dyddiad hwnnw, yn achos triniaeth a ddarparwyd mewn apwyntiad gofal brys, a

(b) y cyfnod o 24 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y darparwyd y driniaeth adferol, ac sy'n dod i ben 24 mis ar ôl y dyddiad hwnnw, yn achos triniaeth a ddarparwyd o dan becyn gofal.

(6) Yn y paragraff hwn, ystyr "atgyweirio" neu "amnewid" yw darparu triniaeth adferol sydd yr un fath neu'n debyg.

Mangreoedd, cyfleusterau a chyfarpar

12.—(1) Rhaid i'r contractwr sicrhau bod mangre'r practis a ddefnyddir er mwyn darparu gwasanaethau o dan y contract—

(a) yn addas i gyflenwi'r gwasanaethau hynny, a

(b) yn ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol cleifion y contractwr.

(2) Mae'r rhwymedigaeth yn is-baragraff (1) yn cynnwys darparu ystafell aros briodol a digonol ar gyfer cleifion.

(3) Rhaid i'r contractwr ddarparu, mewn perthynas â'r holl wasanaethau sydd i'w darparu o dan y contract, unrhyw gyfleusterau ac offer eraill sy'n angenrheidiol i'w alluogi i gyflawni'r gwasanaeth hwnnw yn briodol.

(4) Yn y paragraff hwn, mae "mangre'r practis" yn cynnwys deintyddfa symudol.

Gwasanaethau ffôn

13.—(1) Ni chaiff y contractwr fod yn barti i unrhyw gontract na threfniant arall y mae'r rhif ar gyfer ei wasanaethau ffôn odano yn rhif ffôn symudol neu'n rhif cyfradd premiwm neu'n codi tâl ar y person sy'n galw sy'n fwy na'r gyfradd sylfaenol sy'n gymwys i alwadau i rifau daearyddol os defnyddir y rhif hwnnw er mwyn—

(a) i gleifion gysylltu â'r practis at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig â'r contract, neu

(b) i unrhyw berson arall gysylltu â'r practis mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "rhif ffôn symudol" yw rhif ffôn sy'n dechrau â'r rhifau 07 wedi eu dilyn gan 9 digid arall.

Canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal

14. Rhaid i'r contractwr ddarparu gwasanaethau o dan y contract yn unol ag unrhyw ganllawiau perthnasol a ddyroddir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal(**30**), yn benodol y canllawiau sy'n dwyn yr enw "Dental recall— Recall interval between routine dental examinations"(**31**).

Rheoli heintiau

15. Rhaid i'r contractwr sicrhau bod ganddo drefniadau priodol ar gyfer rheoli heintiau a dihalogi yn unol â chanllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

Triniaeth o dan anaesthesia cyffredinol: gwaharddiad

16. Ni chaiff y contractwr ddarparu unrhyw wasanaethau o dan y contract sy'n ymwneud â darparu anaesthesia cyffredinol.

Y Gymraeg

17.—(1) Pan fo'r contractwr yn darparu gwasanaethau deintyddol o dan y contract drwy gyfrwng y Gymraeg, rhaid iddo hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ysgrifenedig.

(2) Rhaid i'r contractwr roi ar gael fersiwn Gymraeg o unrhyw ddogfen neu ffurflen sydd i'w defnyddio gan gleifion a/neu aelodau o'r cyhoedd, a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

(3) Pan fo'r contractwr yn arddangos arwydd newydd neu hysbysiad newydd mewn cysylltiad â gwasanaethau deintyddol a ddarperir o dan y contract, rhaid i'r testun ar yr arwydd neu'r hysbysiad fod yn Gymraeg ac yn Saesneg, a chaiff y contractwr ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu a gynigir gan y Bwrdd Iechyd Lleol at y diben hwn.

(4) Rhaid i'r contractwr annog y rhai sy'n siarad Cymraeg ac yn cyflenwi gwasanaethau deintyddol o dan y contract i wisgo bathodyn, a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol, i gyfleu eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

(5) Rhaid i'r contractwr annog y rhai sy'n cyflenwi gwasanaethau deintyddol o dan y contract i ddefnyddio gwybodaeth a/neu fynychu cyrsiau hyfforddiant a digwyddiadau a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol fel y gallant ddatblygu—

(a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth o'i hanes a'i rôl yn niwylliant Cymru), a

(b) dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau deintyddol o dan y contract.

(6) Rhaid i'r contractwr annog y rhai sy'n cyflenwi gwasanaethau deintyddol o dan y contract i ganfod a chofnodi pa un ai'r Gymraeg ynteu'r Saesneg yw hoff ddewis iaith y claf, yn unol â'r hyn a fynegir gan neu ar ran y claf.

(**30**) Sefydlwyd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal o dan adrannau 232 i 247 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7).
(**31**) Mae'r canllawiau hyn ar gael o wefan NICE, www.nice.org.uk.

RHAN 3

CYFLENWI CYFFURIAU A RHAGNODI

Cyffredinol

18. Rhaid i'r contractwr sicrhau bod unrhyw ffurflen bresgripsiwn ar gyfer cyffuriau rhestredig, meddyginiaethau rhestredig neu gyfarpar deintyddol rhestredig a ddyroddir gan ragnodydd yn cydymffurfio fel y bo'n briodol â'r gofynion yn y Rhan hon.

Cyflenwi cyffuriau

19.—(1) Caiff rhagnodydd gyflenwi i glaf unrhyw gyffuriau rhestredig, meddyginiaethau rhestredig neu gyfarpar deintyddol rhestredig sy'n ofynnol i'w defnyddio neu ei ddefnyddio ar unwaith cyn dyroddi presgripsiwn ar gyfer y cyffuriau neu'r meddyginiaethau hynny neu'r cyfarpar deintyddol hwnnw yn unol â pharagraff 20.

(2) Caiff y rhagnodydd ei hunan roi i glaf unrhyw gyffur rhestredig neu feddyginiaeth restredig sy'n ofynnol ar gyfer triniaeth y claf hwnnw.

Dyroddi ffurflenni presgripsiwn

20.—(1) Rhaid i ragnodydd archebu unrhyw gyffuriau rhestredig, meddyginiaethau rhestredig neu gyfarpar deintyddol rhestredig (ac eithrio'r rheini a gyflenwir o dan baragraff 19) sy'n ofynnol ar gyfer triniaeth unrhyw glaf y mae'n darparu gwasanaethau iddo o dan y contract drwy ddyroddi i'r claf ffurflen bresgripsiwn.

(2) Rhaid i ffurflen bresgripsiwn—

(a) cael ei llofnodi gan y rhagnodydd, a

(b) cael ei dyroddi ar wahân i bob claf y mae'r contractwr yn darparu gwasanaethau iddo o dan y contract.

(3) At ddibenion y paragraff hwn, ystyr "ffurflen bresgripsiwn" yw ffurflen a gyflenwir at ddibenion y paragraff hwn gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

Rhagnodi'n ormodol

21. Ni chaiff rhagnodwr ragnodi cyffuriau rhestredig, meddyginiaethau rhestredig na chyfarpar deintyddol rhestredig y mae eu cost neu ei gost neu eu swm neu ei swm, mewn perthynas ag unrhyw glaf, oherwydd natur y cyffur hwnnw, y feddyginiaeth honno neu'r cyfarpar deintyddol hwnnw, yn fwy na'r hyn a oedd yn rhesymol angenrheidiol ar gyfer trin y claf hwnnw yn briodol.

RHAN 4

PERSONAU SY'N CYFLAWNI GWASANAETHAU

Ymarferwyr deintyddol

22. Caiff ymarferydd deintyddol gyflawni gwasanaethau deintyddol o dan y contract ar yr amod—

(a) ei fod wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru, a

(b) nad yw ei enwi yn y rhestr honno yn ddarostyngedig i ataliad dros dro.

Proffesiynolion gofal deintyddol

23. Caiff person gyflawni gwasanaethau deintyddol o dan y contract ar yr amod ei fod—

(a) yn hylenydd deintyddol,

(b) yn therapydd deintyddol, neu

(c) yn broffesiynolyn neu'n aelod o ddosbarth fel y pennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 36A(2) o Ddeddf 1984, ac

(i) ei fod yn broffesiynolyn gofal deintyddol, a

(ii) nad yw ei gofrestriad yn y gofrestr o broffesiynolion gofal deintyddol a sefydlwyd o dan adran 36B o Ddeddf 1984 yn ddarostyngedig i ataliad dros dro.

Cyflawnwyr: gofynion pellach

24.—(1) Ni chaiff yr un proffesiynolyn gofal deintyddol na pherson arall heblaw un y mae paragraff 23 yn gymwys iddo gyflawni gwasanaethau clinigol o dan y contract oni bai ei fod wedi ei gofrestru'n briodol â'i gorff proffesiynol perthnasol ac nad yw'r cofrestriad yn ddarostyngedig i ataliad dros dro.

(2) Pan fo—

(a) cofrestriad ymarferydd deintyddol, proffesiynolyn gofal deintyddol neu broffesiynolyn gofal iechyd arall, neu

(b) ymarferydd deintyddol yn cael ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr deintyddol,

yn ddarostyngedig i amodau, rhaid i'r contractwr sicrhau cydymffurfedd â'r amodau hynny i'r graddau y maent yn berthnasol i'r contract.

(3) Ni chaiff yr un proffesiynolyn gofal iechyd na pherson arall gyflawni unrhyw wasanaethau clinigol o dan y contract oni bai bod ganddo'r profiad clinigol a'i fod wedi cael yr hyfforddiant clinigol sy'n angenrheidiol i'w alluogi i gyflawni'r gwasanaethau hynny'n briodol.

Amodau ar gyfer cyflogaeth a chymryd ymlaen: ymarferwyr deintyddol sy'n cyflawni gwasanaethau deintyddol

25.—(1) Ni chaiff contractwr gyflogi na chymryd ymlaen ymarferydd deintyddol i gyflawni gwasanaethau deintyddol o dan y contract oni bai—

(a) bod yr ymarferydd deintyddol hwnnw wedi darparu i'r contractwr enw a chyfeiriad y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r ymarferydd yn ymddangos yn ei restr o gyflawnwyr deintyddol, a

(b) bod y contractwr wedi gwirio bod yr ymarferydd deintyddol yn bodloni'r gofynion ym mharagraffau 22 a 23.

(2) Pan fo angen cyflogi neu gymryd ymlaen ymarferydd deintyddol ar frys ac nad yw'n bosibl gwirio'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff 22 yn unol ag is-baragraff (1)(b) cyn ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen, caniateir ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen ar sail dros dro am un cyfnod o hyd at 7 niwrnod clir tra bo gwiriadau o'r fath yn cael eu cynnal.

Amodau ar gyfer cyflogaeth a chymryd ymlaen: personau sy'n cyflawni gwasanaethau deintyddol heblaw ymarferwyr deintyddol

26.—(1) Ni chaiff y contractwr gyflogi na chymryd ymlaen broffesiynolyn gofal deintyddol i gyflawni gwasanaethau deintyddol oni bai bod y contractwr wedi cymryd camau rhesymol i'w fodloni ei hun fod gan y proffesiynolyn gofal deintyddol y profiad clinigol angenrheidiol, a'i fod wedi cael yr hyfforddiant clinigol angenrheidiol, i'w alluogi i gyflawni gwasanaethau deintyddol yn briodol a bod y contractwr wedi gwirio—

(a) bod ei enw wedi ei gynnwys yn y gofrestr o broffesiynolion gofal deintyddol, a

(b) nad yw ei gofrestriad yn y gofrestr o broffesiynolion gofal deintyddol yn ddarostyngedig i ataliad dros dro.

(2) Pan fo angen cyflogi neu gymryd ymlaen berson a bennir yn is-baragraff (1) ar frys ac nad yw'n bosibl gwirio ei gofrestriad yn unol ag is-baragraff (1) (pan fo'n gymwys) cyn ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen, caniateir ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen ar sail dros dro am un cyfnod o hyd at 7 niwrnod clir tra bo gwiriadau o'r fath yn cael eu cyflawni.

(3) Pan fydd contractwr yn ystyried profiad a hyfforddiant person at ddibenion is-baragraff (1), rhaid i'r contractwr, yn benodol, roi sylw i—

(a) unrhyw gymhwyster ôl-radd neu ôl-gofrestru a ddelir gan y person hwnnw, a

(b) unrhyw hyfforddiant perthnasol yr ymgymerwyd ag ef ac unrhyw brofiad clinigol perthnasol a enillwyd ganddo.

Amodau ar gyfer cyflogaeth a chymryd ymlaen: pob person sy'n cyflawni gwasanaethau deintyddol

27.—(1) Ni chaiff y contractwr gyflogi na chymryd ymlaen berson i gyflawni gwasanaethau deintyddol o dan y contract oni bai—

(a) bod y person hwnnw wedi darparu dau eirda clinigol sy'n ymwneud â dwy swydd ddiweddar (y caniateir iddynt gynnwys unrhyw swydd gyfredol) yn ymarfer y proffesiwn y mae'n ceisio cael ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen gyda'r contractwr ynddo ac a barodd am o leiaf 3 mis neu ragor heb doriad sylweddol, neu pan na fo hyn yn bosibl, bod y person hwnnw wedi darparu esboniad llawn a chanolwyr eraill, a

(b) bod y contractwr wedi gwirio'r geirdaon ac yn fodlon arnynt.

(2) Pan fo angen cyflogi neu gymryd ymlaen berson sy'n dod o fewn is-baragraff (1) ar frys ac nad yw'n bosibl i'r contractwr gael a gwirio'r geirdaon yn unol ag is-baragraff (1)(b) cyn ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen, caniateir ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen ar sail dros dro am un cyfnod o hyd at 14 o ddiwrnodau clir tra bo'i eirdaon yn cael eu gwirio a'u hystyried, ac am gyfnod ychwanegol o 7 niwrnod clir pellach os yw'r contractwr yn credu bod y person sy'n darparu'r geirdaon hynny yn sâl, ar wyliau neu nad yw ar gael fel arall am gyfnod dros dro.

(3) Pan fo'r contractwr yn cyflogi neu'n cymryd ymlaen yr un person ar fwy nag un achlysur o fewn cyfnod o 3 mis sy'n dechrau â'r tro cyntaf y cyflogwyd y person neu y cymerwyd ef ymlaen, caiff y contractwr ddibynnu ar y geirdaon a ddarparwyd ar yr achlysur cyntaf, ar yr amod nad yw'r geirdaon hynny yn fwy na 12 mis oed.

Amodau ar gyfer cyflogaeth a chymryd ymlaen: personau sy'n cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau o dan y contract

28.—(1) Cyn cyflogi neu gymryd ymlaen unrhyw berson i'w gynorthwyo i ddarparu gwasanaethau o dan y contract, rhaid i'r contractwr gymryd gofal rhesymol i'w fodloni ei

hun fod y person o dan sylw yn briodol gymwysedig a chymwys i gyflawni'r dyletswyddau y mae i gael ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen ar eu cyfer.

(2) Mae'r ddyletswydd a osodir gan is-baragraff (1) yn ychwanegol at y dyletswyddau a osodir gan baragraffau 25 i 27.

(3) Wrth ystyried cymhwysedd ac addasrwydd unrhyw berson at ddiben is-baragraff (1), rhaid i'r contractwr roi sylw yn benodol i—

(a) cymwysterau academaidd a galwedigaethol y person hwnnw,

(b) ei addysg a'i hyfforddiant, ac

(c) ei gyflogaeth flaenorol neu ei brofiad gwaith blaenorol.

Hyfforddiant

29.—(1) Rhaid i'r contractwr sicrhau bod trefniadau yn eu lle at ddiben cynnal a diweddaru sgiliau a gwybodaeth mewn perthynas â'r gwasanaethau y mae'n eu cyflawni neu'n cynorthwyo i'w cyflawni ar gyfer unrhyw ymarferydd deintyddol neu broffesiynolyn gofal deintyddol sydd—

(a) yn cyflawni gwasanaethau deintyddol o dan y contract, neu

(b) yn cael ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen i gynorthwyo i gyflawni gwasanaethau o'r fath.

(2) Rhaid i'r contractwr roi cyfleoedd rhesymol i bob cyflogai i ddilyn hyfforddiant priodol gyda'r bwriad o gynnal cymhwysedd y cyflogai hwnnw.

Lefel sgìl

30. Rhaid i'r contractwr gyflawni ei rwymedigaethau o dan y contract â gofal a sgìl rhesymol.

Arfarnu ac asesu

31. Rhaid i'r contractwr sicrhau bod unrhyw ymarferydd deintyddol sy'n cyflawni gwasanaethau o dan y contract—

(a) yn cymryd rhan yn y system arfarnu (os oes un) a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol oni bai ei fod yn cymryd rhan yn y system arfarnu a ddarperir gan gorff gwasanaeth iechyd arall, a

(b) yn cydweithredu ag asesiad gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, NHS Resolution neu gorff cyfatebol pan ofynnir iddo wneud hynny gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

Is-gontractio gwasanaethau clinigol

32.—(1) Ni chaiff y contractwr is-gontractio unrhyw un neu ragor o'i hawliau na'i ddyletswyddau o dan y contract i unrhyw berson mewn perthynas â gwasanaethau clinigol oni bai—

(a) ei fod wedi cymryd camau rhesymol i'w fodloni ei hun—

(i) ei bod yn rhesymol o dan bob un o'r amgylchiadau, a

(ii) bod y person yn gymwysedig ac yn gymwys i ddarparu'r gwasanaeth, a

(b) ei fod wedi ei fodloni yn unol â pharagraffau 77 a 78 fod yr is-gontractwr yn dal yswiriant digonol.

(2) Pan fo'r contractwr yn is-gontractio unrhyw un neu ragor o'i hawliau neu ei ddyletswyddau o dan y contract mewn perthynas â gwasanaethau clinigol, rhaid iddo—

(a) rhoi gwybod i'r Bwrdd Iechyd Lleol am yr is-gontract cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, a

(b) darparu i'r Bwrdd Iechyd Lleol unrhyw wybodaeth mewn perthynas â'r is-gontract y mae'n gofyn yn rhesymol amdani.

(3) Pan fo'r contractwr yn is-gontractio gwasanaethau clinigol yn unol ag is-baragraff (1), bernir bod y partïon i'r contract wedi cytuno ar amrywiad i'r contract sydd â'r effaith o ychwanegu at y rhestr o fangreoedd y contractwr unrhyw fangreoedd sydd i'w defnyddio gan yr is-gontractwr at ddiben yr is-gontract ac nid yw paragraff 60 yn gymwys.

(4) Rhaid i gontract gydag is-gontractiwr wahardd yr is-gontractwr rhag is-gontractio'r gwasanaethau clinigol y mae wedi cytuno â'r contractwr i'w darparu.

RHAN 5

COFNODION, GWYBODAETH, HYSBYSIADAU A HAWLIAU MYNEDIAD

Cofnodion cleifion

33.—(1) Rhaid i'r contractwr sicrhau bod cofnod llawn, cywir a gofnodwyd ar y pryd yn cael ei gadw yng nghofnod y claf mewn cysylltiad â'r gofal a'r driniaeth a roddir i bob claf o dan y contract, gan gynnwys triniaeth a roddir i glaf a atgyfeirir at y contractwr.

(2) Rhaid storio cofnod y claf ar ffurf electronig, ond caniateir i'r cofnod ar y pryd gael ei gofnodi'n electronig neu fel arall.

(3) Rhaid storio cofnodion ffisegol, er enghraifft nodiadau ar y pryd mewn llawysgrifen a chastiau astudio, yn briodol a'u mynegeio i'r cofnod electronig.

(4) Rhaid i gofnod y claf gynnwys manylion unrhyw wasanaethau deintyddol preifat (i'r graddau y maent yn cael eu darparu gyda gwasanaethau o dan y contract) a rhaid eu cadw—

(a) gyda chopi o unrhyw gynllun triniaeth neu gynllun triniaeth atgyfeirio a roddir i'r claf yn unol â pharagraff 7 o'r Atodlen hon,

(b) gyda phob radiograff, ffotograff a chast astudio a gymerir neu a geir ganddo yn rhan o'r gwasanaethau a ddarperir i'r claf hwnnw,

(c) pan fo'r claf yn glaf esempt—

(i) gyda'r ffurflen declarasiwn ysgrifenedig a ragnodir gan y Bwrdd Iechyd Lleol, mewn cysylltiad ag esemptiad o dan adran 126 o Ddeddf 2006, a

(ii) gyda nodyn o'r dystiolaeth i ategu'r declarasiwn hwnnw, a

(d) gyda'r datganiad ynghylch unrhyw ddyfeisiau pwrpasol a ddarperir gan unrhyw berson o ganlyniad i reoliad 15 o Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002(**32**) (gweithdrefnau ar gyfer dyfeisiau pwrpasol) mewn cysylltiad â gwasanaethau sy'n cael eu darparu i'r claf hwnnw.

(5) Rhaid cadw cofnod y claf a'r eitemau y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (3) a (4) am gyfnod o 7 mlynedd sy'n dechrau—

(**32**) O.S. 2002/618 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2008/2986, O.S. 2013/2327 ac O.S. 2020/1478.

(a) â'r dyddiad—

(i) y mae cwrs o driniaeth yn cael ei ddiweddu, neu

(ii) y mae cwrs o driniaeth yn cael ei gwblhau, neu

(b) mewn cysylltiad â chyrsiau o driniaeth nad ydynt yn dod o fewn paragraff (a)(i) neu (ii), â'r dyddiad pan na ellir darparu mwy o wasanaethau fel rhan o'r cwrs o driniaeth hwnnw yn rhinwedd paragraff 6(4)(b) o'r Atodlen hon.

(6) Nid oes dim yn y paragraff hwn yn effeithio ar unrhyw hawl eiddo y gall fod gan y contractwr mewn perthynas â'r cofnodion, y radiograffau, y ffotograffau a'r modelau astudio y cyfeirir atynt yn y paragraff hwn.

Cyfrinachedd data personol

34. Rhaid i'r contractwr enwebu person sydd â chyfrifoldeb am arferion a gweithdrefnau ynglŷn â chyfrinachedd data personol a ddelir ganddo a llunio polisi preifatrwydd mewnol.

Gwybodaeth i gleifion

35.—(1) Rhaid i'r contractwr sicrhau bod y canlynol yn cael ei arddangos mewn man amlwg ym mangre ei bractis, mewn rhan y mae gan gleifion fynediad iddi, ac ar ei wefan (os oes un ganddo)—

(a) mewn cysylltiad â'i system sicrhau ansawdd yn y practis y cyfeirir ati ym mharagraff 76, datganiad ysgrifenedig ynghylch ei ymrwymiad i'r materion y cyfeirir atynt ym mharagraff 76(4),

(b) unrhyw wybodaeth yn ymwneud â Ffioedd GIG a gyflenwir iddo gan y Bwrdd Iechyd Lleol at ddibenion darparu gwybodaeth i gleifion,

(c) gwybodaeth am y weithdrefn ar gyfer hysbysu am bryderon yn unol â Rhan 6 gan roi enw a theitl y person a enwebir yn unol â pharagraff 49(2)(a) neu, yn achos hysbysiad am bryder, enw'r person a ddynodir fel yr uwch-reolwr ymchwiliadau o dan reoliad 8 o Reoliadau 2011, a

(d) manylion am sut i gyrchu polisi preifatrwydd y practis.

(2) Rhaid i'r contractwr—

(a) llunio dogfen (a elwir yn "taflen gwybodaeth i gleifion" yn y paragraff hwn) y mae rhaid iddi gynnwys yr wybodaeth a bennir yn Atodlen 4,

(b) adolygu ei daflen gwybodaeth i gleifion o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o 12 mis a gwneud unrhyw ddiwygiadau y mae eu hangen i gynnal ei chywirdeb, ac

(c) rhoi copi o'r daflen, polisi preifatrwydd y practis ac unrhyw ddiweddariadau ar gael i'w gleifion a'i ddarpar gleifion.

(3) Nid yw'r gofynion yn is-baragraff (2) yn gymwys i unrhyw gontractwr i'r graddau y mae'n darparu gwasanaethau i bersonau a gedwir yn y carchar.

Darparu gwybodaeth a mynediad at wybodaeth: Bwrdd Iechyd Lleol

36. Rhaid i'r contractwr, ar gais y Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) darparu gwybodaeth i'r Bwrdd Iechyd Lleol neu i berson a awdurdodir yn ysgrifenedig gan y Bwrdd Iechyd Lleol ar y ffurf, ac ar yr ysbeidiau neu o fewn y cyfnod, a bennir gan y Bwrdd Iechyd Lleol, neu

(b) caniatáu i'r Bwrdd Iechyd Lleol, neu i berson a awdurdodir yn ysgrifenedig ganddo, gyrchu—

(i) unrhyw wybodaeth sy'n rhesymol ofynnol gan y Bwrdd Iechyd Lleol at ddibenion y contract neu mewn cysylltiad ag ef,

(ii) gwybodaeth am y gweithlu, a

(iii) unrhyw wybodaeth arall sy'n rhesymol ofynnol mewn cysylltiad â swyddogaethau'r Bwrdd Iechyd Lleol, gan gynnwys cofnodion cleifion y contractwr.

Ymholiadau ynghylch presgripsiynau ac atgyfeiriadau

37.—(1) Rhaid i'r contractwr, yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2) a (3), ateb mewn modd digonol unrhyw ymholiadau pa un a ydynt ar lafar neu yn ysgrifenedig gan y Bwrdd Iechyd Lleol ynghylch—

(a) unrhyw ffurflen bresgripsiwn a ddyroddir gan ragnodydd,

(b) yr ystyriaethau y mae rhagnodwyr yn dyroddi'r ffurflenni hynny drwy gyfeirio atynt,

(c) atgyfeiriad unrhyw glaf gan neu ar ran y contractwr at unrhyw wasanaethau eraill a ddarperir o dan Ddeddf 2006, neu

(d) yr ystyriaethau y mae'r contractwr yn gwneud yr atgyfeiriadau hynny neu'n darparu iddynt gael eu gwneud ar ei ran drwy gyfeirio atynt.

(2) Ni chaniateir i ymholiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (1) gael ei wneud ond at ddiben naill ai sicrhau gwybodaeth i gynorthwyo'r Bwrdd Iechyd Lleol i gyflawni ei swyddogaethau neu gynorthwyo'r contractwr i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y contract.

(3) Nid yw'r contractwr o dan rwymedigaeth i ateb unrhyw ymholiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (1) oni bai ei fod yn cael ei wneud—

(a) yn achos is-baragraff (1)(a) neu (1)(b), gan broffesiynolyn gofal iechyd sydd wedi cymhwyso, neu

(b) yn achos is-baragraff (1)(c) neu (1)(d), gan ymarferydd deintyddol sydd wedi cymhwyso,

sydd wedi ei benodi gan y Bwrdd Iechyd Lleol yn y naill achos neu'r llall i'w gynorthwyo i arfer ei swyddogaethau o dan y paragraff hwn, a bod y person hwnnw'n dangos, ar gais, dystiolaeth ysgrifenedig ei fod wedi ei awdurdodi gan y Bwrdd Iechyd Lleol i wneud ymholiad o'r fath ar ei ran.

Hysbysu am gwrs o driniaeth etc.

38.—(1) Rhaid i'r contractwr, o fewn 2 fis i'r dyddiad—

(a) y mae'n cwblhau cwrs o driniaeth mewn cysylltiad â gwasanaethau gorfodol,

(b) y mae cwrs o driniaeth mewn cysylltiad â gwasanaethau gorfodol yn cael ei ddiweddu, neu

(c) mewn cysylltiad â chyrsiau nad ydynt yn dod o fewn is-baragraff (a) neu (b), na ellir darparu rhagor o wasanaethau yn rhinwedd paragraff 6(4)(b) o'r Atodlen hon,

anfon i'r Bwrdd Iechyd Lleol yr wybodaeth a bennir yn is-baragraff (2).

(2) Mae'r wybodaeth y cyfeirir ati yn is-baragraff (1) yn cynnwys—

(a) manylion y claf y mae'n darparu gwasanaethau iddo,

(b) manylion y gwasanaethau a ddarparwyd (gan gynnwys unrhyw gyfarpar deintyddol a ddarparwyd) i'r claf hwnnw,

(c) manylion unrhyw Ffi GIG sy'n daladwy (ac sydd wedi ei dalu neu heb ei dalu) gan y claf hwnnw, a

(d) yn achos claf sy'n glaf esempt, unrhyw fanylion am yr esemptiad hwnnw a sail yr esemptiad hwnnw y caiff y Bwrdd Iechyd Lleol yn rhesymol ofyn amdanynt.

(3) Yn achos claf y mae is-baragraff (2)(d) yn gymwys iddo, rhaid i'r contractwr hefyd ddarparu i'r Bwrdd Iechyd Lleol (neu berson a awdurdodir ar ran y Bwrdd Iechyd Lleol) y ffurflen declarasiwn ysgrifenedig.

(4) Rhaid i'r contractwr anfon yr wybodaeth sy'n ofynnol yn is-baragraff (2) i'r Bwrdd Iechyd Lleol drwy gyfrwng cyflwyniad electronig, ond caiff y Bwrdd Iechyd Lleol dderbyn cyflwyno'r wybodaeth honno ar bapur mewn amgylchiadau eithriadol y caiff y Bwrdd Iechyd Lleol yn rhesymol benderfynu arnynt.

(5) Yn y paragraff hwn, ystyr "cyflwyniad electronig" yw gwybodaeth a gyflwynir yn electronig drwy system gyfrifiadurol a gymeradwyir gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

Adroddiad blynyddol ac adolygiad blynyddol

39.—(1) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ddarparu i'r contractwr adroddiad blynyddol yn unol â rheoliad 24.

(2) Pan fydd y Bwrdd Iechyd Lleol wedi darparu'r adroddiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (1), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol drefnu â'r contractwr adolygiad blynyddol o'i berfformiad mewn perthynas â'r contract.

(3) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol baratoi cofnod drafft o'r adolygiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (2) i'r contractwr roi sylwadau arno ac, ar ôl rhoi sylw i'r sylwadau hynny, lunio cofnod ysgrifenedig terfynol o'r adolygiad.

(4) Rhaid anfon copi o'r cofnod terfynol y cyfeirir ato yn is-baragraff (3) at y contractwr.

Hysbysiadau i'r Bwrdd Iechyd Lleol

40.—(1) Yn ychwanegol at unrhyw ofynion ynglŷn â hysbysu mewn mannau eraill yn y Rheoliadau, rhaid i'r contractwr hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ysgrifenedig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, am y canlynol—

(a) unrhyw ddigwyddiad difrifol sydd, ym marn resymol y contractwr, yn effeithio ar y modd y mae'r contractwr yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y contract neu'n debygol o effeithio arno, neu

(b) unrhyw amgylchiadau sy'n arwain at hawl y Bwrdd Iechyd Lleol i derfynu'r contract o dan baragraff 65 neu 70.

(2) Oni bai ei bod yn anymarferol iddo wneud hynny, rhaid i'r contractwr hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ysgrifenedig o fewn 28 o ddiwrnodau clir ar ôl unrhyw ddigwyddiad sy'n gofyn am newid yn yr wybodaeth amdano a gyhoeddir gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

(3) Rhaid i'r contractwr hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ysgrifenedig pan fydd ymarferydd deintyddol sy'n cyflawni gwasanaethau o dan y contract neu y mae disgwyl iddo wneud hynny (yn ôl y digwydd)—

(a) yn ymadael â'r contractwr, a'r dyddiad yr ymadawodd ag ef, neu

(b) yn cael ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen gan y contractwr,

gan roi enw'r ymarferydd deintyddol sydd wedi ymadael, neu sydd wedi ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen, ynghyd â rhif cofrestru proffesiynol y person hwnnw.

Darpariaethau ynglŷn â hysbysiadau sy'n benodol i gontract gyda chorfforaeth ddeintyddol

41. Rhaid i gontractwr sy'n gorfforaeth ddeintyddol roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Iechyd Lleol ar unwaith pan—

(a) bydd yn pasio penderfyniad, neu bydd llys ag awdurdodaeth gymwys yn gwneud gorchymyn, fod y contractwr i gael ei ddirwyn i ben,

(b) bydd amgylchiadau'n codi a allai roi hawlogaeth i gredydwr neu lys benodi derbynnydd, gweinyddydd neu dderbynnydd gweinyddol ar gyfer y contractwr,

(c) bydd amgylchiadau'n codi a fyddai'n galluogi'r llys i wneud gorchymyn dirwyn i ben mewn cysylltiad â'r contractwr, neu

(d) nad yw'r contractwr yn gallu talu ei ddyledion o fewn ystyr adran 123 o Ddeddf 1986 (diffiniad o fethu talu dyledion).

Darpariaethau ynglŷn â hysbysiadau sy'n benodol i gontract gyda dau neu ragor o unigolion yn ymarfer mewn partneriaeth

42.—(1) Rhaid i gontractwr sy'n bartneriaeth roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Iechyd Lleol ar unwaith pan—

(a) bydd partner yn ymadael â'r bartneriaeth, neu'n rhoi gwybod i'w bartneriaid ei fod yn bwriadu ymadael â'r bartneriaeth, a'r dyddiad yr ymadawodd â'r bartneriaeth neu y mae'n bwriadu ymadael â hi, neu

(b) bydd partner newydd yn ymuno â'r bartneriaeth.

(2) Rhaid i hysbysiad o dan is-baragraff (1)(b)—

(a) nodi'r dyddiad yr ymunodd y partner newydd â'r bartneriaeth,

(b) cadarnhau bod y partner newydd yn ymarferydd deintyddol,

(c) cadarnhau bod y partner newydd yn bodloni'r amodau a osodir gan reoliad 4 (amodau cyffredinol yn ymwneud â phob contract), a

(d) nodi a yw'r partner newydd yn bartner cyffredinol ynteu'n bartner cyfyngedig.

Hysbysiadau i gleifion ar ôl amrywio'r contract

43. Pan fo'r contract wedi ei amrywio yn unol â Rhan 8 o'r Atodlen hon ac, o ganlyniad i'r amrywiad hwnnw, pan fo newidiadau yn yr ystod o wasanaethau a ddarperir gan y contractwr, rhaid i'r contractwr sicrhau, o leiaf 28 o ddiwrnodau clir cyn bod y newid hwnnw i fod i gael effaith, fod manylion ysgrifenedig am y newid hwnnw yn cael eu harddangos mewn man amlwg ym mangre ei bractis, mewn rhan y mae gan gleifion fynediad iddi.

Mynediad ac archwiliadau gan y Bwrdd Iechyd Lleol

44.—(1) Yn ddarostyngedig i'r amodau yn is-baragraff (2), rhaid i'r contractwr ganiatáu i bersonau sydd wedi eu hawdurdodi'n ysgrifenedig gan y Bwrdd Iechyd Lleol fynd i mewn i fangre'r practis ar unrhyw adeg resymol a'i harchwilio.

(2) Yr amodau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1) yw—

(a) bod hysbysiad rhesymol o'r bwriad i fynd i mewn wedi ei roi,

(b) bod tystiolaeth ysgrifenedig o awdurdod y person sy'n ceisio mynd i mewn yn cael ei chyflwyno i'r contractwr pan ofynnir amdani, ac

(c) nad eir i mewn i unrhyw fangre na rhan o'r fangre a ddefnyddir fel llety preswyl heb gydsyniad y preswylydd.

(3) Yn y paragraff hwn, mae "mangre" yn cynnwys deintyddfa symudol.

Mynediad ac archwiliadau gan Weinidogion Cymru

45. Rhaid i'r contractwr ganiatáu i bersonau sydd wedi eu hawdurdodi gan Weinidogion Cymru fynd i mewn i'r fangre a'i harchwilio yn unol ag adran 72 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003(**33**) (hawl mynediad).

RHAN 6
PRYDERON

Pryderon

46.—(1) Rhaid i'r contractwr sefydlu a gweithredu trefniadau sy'n bodloni gofynion Rheoliadau 2011(**34**) i ymdrin ag unrhyw bryderon yr hysbysir amdanynt ynghylch unrhyw fater sy'n gysylltiedig yn rhesymol â darparu gwasanaethau o dan y contract.

(2) Mae'r materion a ganlyn wedi eu heithrio rhag cael eu hystyried o dan y trefniant o dan is-baragraff (1)—

(a) pryder a ddatrysir er boddhad y person a hysbysodd am y pryder ddim hwyrach na'r diwrnod gwaith nesaf ar ôl y diwrnod yr hysbyswyd am y pryder;

(b) pryder y mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio iddo neu wedi ymchwilio iddo;

(c) pryder y mae ei bwnc yn destun achos sifil neu'n dod yn destun achos sifil (gan gynnwys y cyfnod cyn gweithredu ar gyfer yr achos hwnnw);

(d) pryder yr ystyriwyd ei bwnc yn flaenorol yn unol â threfniadau a wnaed o dan Reoliadau 2011 neu unrhyw weithdrefn gwynion berthnasol;

(e) pryder sy'n codi o fethiant honedig i gydymffurfio â chais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000(**35**).

(3) Pan fo'r contractwr yn penderfynu bod pryder wedi ei eithrio, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig am ei benderfyniad, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, i'r person a hysbysodd am y pryder a'r rheswm dros ei benderfyniad (ac eithrio mewn perthynas â materion a ddatrysir erbyn y diwrnod gwaith nesaf).

Hysbysu am bryderon

47.—(1) Caniateir i'r canlynol hysbysu am bryder—

(a) claf neu gyn-glaf sy'n cael neu sydd wedi cael gwasanaethau o dan y contract,

(b) unrhyw berson y mae gweithred, anweithred neu benderfyniad gan y contractwr yn effeithio arno neu'n debygol o effeithio arno, neu

(c) cynrychiolydd sy'n gweithredu ar ran person a grybwyllir yn is-baragraff (a) sydd—

(**33**) 2003 p. 43. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 72 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006.
(**34**) O.S. 2011/704.
(**35**) 2000 p. 36.

(i) wedi marw,

(ii) yn blentyn,

(iii) yn methu â hysbysu am y pryder ei hun oherwydd nad oes ganddo alluedd o fewn ystyr Deddf Galluedd Meddyliol 2005(**36**), neu

(iv) wedi gofyn i'r cynrychiolydd weithredu ar ei ran.

(2) Yn y Rhan hon, mae cyfeiriad at gynrychiolydd pan fo'r claf yn blentyn, yn cynnwys—

(a) rhiant,

(b) person a awdurdodir yn briodol gan awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn, neu

(c) person a awdurdodir yn briodol gan sefydliad gwirfoddol y mae'r plentyn yn cael llety ganddo.

(3) Pan fo claf wedi marw, caniateir i bryder gael ei hysbysu gan berthynas neu oedolyn arall y bu ganddo fuddiant yn ei les neu, pan fo'r claf yn dod o fewn is-baragraff (2)(a)(ii) neu (iii), gan yr awdurdod lleol neu'r sefydliad gwirfoddol yn y drefn honno.

Cyfnod ar gyfer hysbysu am bryderon

48.—(1) Rhaid hysbysu am bryder o fewn 12 mis ar ôl—

(a) y dyddiad y digwyddodd y mater sy'n destun y pryder, neu

(b) os yw'n hwyrach, y dyddiad y daeth y mater i sylw'r person sy'n hysbysu am y pryder.

(2) Nid yw'r terfyn amser o 12 mis yn is-baragraff (1) yn gymwys os yw'r person a enwebir yn unol â pharagraff 49(2)(a), isod, wedi ei fodloni—

(a) bod gan y person resymau da dros beidio â hysbysu am y pryder o fewn y terfyn amser hwnnw, a

(b) bod modd o hyd ymchwilio i'r pryder yn effeithiol a theg.

(3) Ni chaniateir hysbysu am bryder—

(a) 3 blynedd neu ragor ar ôl y dyddiad y digwyddodd y mater, neu

(b) os yn hwyrach, 3 blynedd neu ragor ar ôl y dyddiad y daeth y mater i sylw'r person sy'n hysbysu am y pryder.

Gofynion pellach ar gyfer gweithdrefnau pryderon

49.—(1) Rhaid i weithdrefn bryderon a drefnir yn unol â pharagraff 46 hefyd gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn is-baragraffau (2) i (6).

(2) Rhaid i'r contractwr enwebu—

(a) person (nad oes angen iddo fod yn gysylltiedig â'r contractwr ac y caniateir ei bennu, yn achos unigolyn, yn ôl ei deitl swydd) i fod yn gyfrifol am weithrediad y weithdrefn bryderon ac am ymchwilio i bryderon, a

(b) partner, neu uwch berson arall sy'n gysylltiedig â'r contractwr, i fod yn gyfrifol am reolaeth effeithiol y weithdrefn bryderon ac am sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yng ngoleuni canlyniad unrhyw ymchwiliad.

(3) Caniateir hysbysu am bryder—

(a) yn ysgrifenedig,

(**36**) 2005 p. 9.

(b) yn electronig, neu

(c) ar lafar, naill ai dros y ffôn neu'n bersonol, i unrhyw aelod o staff y contractwr.

(4) Pan hysbysir am bryder ar lafar, rhaid i'r aelod o staff a hysbyswyd am y pryder wneud cofnod ysgrifenedig o'r pryder a darparu copi o'r cofnod ysgrifenedig i'r person a hysbysodd am y pryder o fewn 5 niwrnod gwaith.

(5) Rhaid—

(a) cydnabod pryder yn ysgrifenedig o fewn y cyfnod o 5 niwrnod gwaith sy'n dechrau â'r diwrnod yr hysbyswyd am y pryder yn unol ag is-baragraff (3) neu, pan na fo hynny'n bosibl, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, a

(b) ymchwilio'n briodol i bryder.

(6) O fewn cyfnod o 30 o ddiwrnodau gwaith sy'n dechrau â'r diwrnod y daeth y pryder i law'r person a bennir o dan is-baragraff (2)(a) neu, pan na fo hynny'n bosibl, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, rhaid rhoi i'r person a hysbysodd am y pryder grynodeb ysgrifenedig o'r ymchwiliad a'i gasgliadau.

(7) Os nad yw'r contractwr yn gallu darparu crynodeb ysgrifenedig o fewn 30 o ddiwrnodau gwaith, rhaid iddo hysbysu'r person a hysbysodd am y pryder yn unol â hynny ac egluro'r rheswm pam, a rhaid iddo anfon yr ymateb cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac o fewn 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y daeth yr hysbysiad am y pryder i'w law.

(8) Ar yr adeg y bo'n cydnabod hysbysiad am bryder, rhaid i'r contractwr gynnig trafod gyda'r person a hysbysodd am y pryder y materion a ganlyn—

(a) y modd y mae rhaid ymdrin â'r ymchwiliad, gan gynnwys unrhyw ofyniad i gael cydsyniad i ddefnyddio cofnodion meddygol,

(b) bod gwasanaethau eiriolaeth a chymorth ar gael, ac

(c) o fewn pa gyfnod y mae'n debygol y cwblheir yr ymchwiliad ac yr anfonir yr ymateb.

(9) Os nad yw'r person a hysbysodd am y pryder yn derbyn y cynnig o drafodaeth o dan is-baragraff (8), rhaid i'r contractwr ystyried y materion a nodir yn is-baragraffau (8)(a) i (c), a phenderfynu arnynt, ac ysgrifennu at y person yn unol â hynny.

(10) Pan fo'r ymchwiliad i'r pryder yn ei gwneud yn ofynnol ystyried cofnodion deintyddol claf, rhaid i'r person a bennir yn is-baragraff (2)(a) roi gwybod i'r claf neu'r person sy'n gweithredu ar ei ran os yw'r ymchwiliad yn ymwneud â datgelu gwybodaeth a gynhwysir yn y cofnodion hynny i berson heblaw'r contractwr neu un o gyflogeion y contractwr.

(11) Rhaid i'r contractwr gadw cofnod o bob pryder a chopïau o'r holl ohebiaeth sy'n ymwneud â phryderon am gyfnod o 7 mlynedd o leiaf o'r dyddiad yr hysbyswyd am y pryderon hynny, ond rhaid cadw'r cofnodion hynny ar wahân i gofnodion deintyddol y cleifion.

Cydweithredu ag ymchwiliadau

50.—(1) Rhaid i'r contractwr gydweithredu—

(a) ag unrhyw ymchwiliad i bryder yr hysbysir amdano yn unol â Rheoliadau 2011 mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n gysylltiedig yn rhesymol â darparu gwasanaethau o dan y contract a gynhelir gan—

(i) y Bwrdd Iechyd Lleol,

(ii) Gweinidogion Cymru, neu

(iii) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

(b) ag unrhyw ymchwiliad i bryder yr hysbysir amdano yn unol â Rheoliadau 2011 gan gorff GIG neu awdurdod lleol sy'n ymwneud â chlaf neu gyn-glaf i'r contractwr.

(2) Mae'r cydweithredu sy'n ofynnol gan is-baragraff (1) yn cynnwys—

(a) ateb cwestiynau a ofynnir yn rhesymol i'r contractwr gan yr ymchwilydd,

(b) darparu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'r pryder yr hysbysir amdano yn unol â Rheoliadau 2011 sy'n ofynnol yn rhesymol gan yr ymchwilydd, ac

(c) mynd i unrhyw gyfarfod i ystyried y pryder yr hysbysir amdano yn unol â Rheoliadau 2011 (os caiff ei gynnal mewn lle sy'n rhesymol hygyrch ac ar adeg resymol, ac os oes hysbysiad dyladwy wedi ei roi) os yw presenoldeb y contractwr yn y cyfarfod yn ofynnol yn rhesymol gan yr ymchwilydd.

(3) Rhaid i'r contractwr roi gwybod i'r Bwrdd Iechyd Lleol, ar yr ysbeidiau hynny sy'n ofynnol gan y Bwrdd Iechyd Lleol, am nifer y pryderon sydd wedi dod i'w law o dan y weithdrefn a sefydlir yn unol â'r Rhan hon.

(4) Yn y paragraff hwn—

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw—

(a) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru,

(b) unrhyw un neu ragor o'r cyrff a restrir yn adran 1 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol 1970(**37**)(awdurdodau lleol),

(c) Cyngor Ynysoedd Scilly, neu

(d) cyngor a gyfansoddwyd o dan adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol etc. (Yr Alban) 1994(**38**) (cyfansoddiad cynghorau);

ystyr "corff GIG" ("*NHS body*") yw Bwrdd Iechyd Lleol, ymddiriedolaeth GIG, ymddiriedolaeth sefydledig y GIG, bwrdd gofal integredig, GIG Lloegr, neu gorff cyfatebol a gyfansoddwyd yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon;

ystyr "ymchwilydd" ("*investigator*") yw'r cyrff a nodir yn is-baragraff (1) neu eu cynrychiolydd awdurdodedig.

Tynnu pryderon yn ôl

51.—(1) Caiff y person a hysbysodd am bryder dynnu'r pryder yn ôl ar unrhyw adeg.

(2) Caiff person hysbysu am dynnu pryder yn ôl—

(a) yn ysgrifenedig,

(b) yn electronig, neu

(c) ar lafar (dros y ffôn neu'n bersonol).

(3) Rhaid i'r contractwr, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ysgrifennu at y person a dynnodd y pryder yn ôl ar lafar i gadarnhau bod y pryder wedi ei dynnu yn ôl ar lafar.

(4) Pan fo pryder wedi ei dynnu yn ôl, caiff y contractwr barhau, er gwaethaf hynny, i ymchwilio i unrhyw faterion a godwyd, os yw o'r farn bod angen gwneud hynny.

(**37**) 1970 p. 42; diwygiwyd adran 1 gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70), adran 195, a chan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19), Atodlen 10, paragraff 7.
(**38**) 1994 p. 39.

RHAN 7
DATRYS ANGHYDFODAU

Datrys anghydfodau contract yn lleol

52. Yn achos unrhyw anghydfod sy'n codi o'r contract neu mewn cysylltiad ag ef, rhaid i'r contractwr a'r Bwrdd Iechyd Lleol wneud pob ymdrech resymol i gyfathrebu a chydweithredu â'i gilydd gyda'r bwriad o ddatrys yr anghydfod, cyn atgyfeirio'r anghydfod i gael ei benderfynu yn unol â gweithdrefn datrys anghydfodau'r GIG a nodir ym mharagraff 53 neu 54 (neu, pan fo'n gymwys, cyn dechrau achos llys).

Datrys anghydfodau: contractau nad ydynt yn gontractau GIG

53.—(1) Yn achos contract nad yw'n gontract GIG, caniateir i unrhyw anghydfod sy'n codi o'r contract neu mewn cysylltiad ag ef, ac eithrio materion yr ymdrinnir â hwy o dan y gweithdrefnau ar gyfer hysbysu am bryderon yn unol â Rhan 6 o'r Atodlen hon, gael ei atgyfeirio at Weinidogion Cymru i gael ei ystyried a'i benderfynu—

(a) os yw'n ymwneud â chyfnod pan oedd y contractwr yn gorff gwasanaeth iechyd, gan y contractwr neu gan y Bwrdd Iechyd Lleol, neu

(b) mewn unrhyw achos arall, gan y contractwr neu, os yw'r contractwr yn cytuno yn ysgrifenedig, gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

(2) Yn achos anghydfod a atgyfeirir at Weinidogion Cymru o dan is-baragraff (1)—

(a) y weithdrefn sydd i'w dilyn yw gweithdrefn datrys anghydfodau'r GIG, a

(b) mae'r partïon yn cytuno i gael eu rhwymo gan unrhyw benderfyniad a wneir gan y dyfarnwr.

Gweithdrefn datrys anghydfodau'r GIG

54.—(1) Mae'r weithdrefn a bennir yn yr is-baragraffau a ganlyn ac ym mharagraff 53 yn gymwys yn achos unrhyw anghydfod sy'n codi o'r contract neu mewn cysylltiad ag ef a atgyfeirir at Weinidogion Cymru—

(a) yn unol ag adran 7(6) o Ddeddf 2006 (pan fo'r contract yn gontract GIG), neu

(b) yn unol â pharagraff 55 (pan na fo'r contract yn gontract GIG).

(2) Rhaid i unrhyw barti sy'n dymuno atgyfeirio anghydfod fel y crybwyllir yn is-baragraff (1) anfon at Weinidogion Cymru gais ysgrifenedig am ddatrys anghydfod y mae rhaid iddo gynnwys neu y mae rhaid anfon gydag ef—

(a) enwau a chyfeiriadau'r partïon i'r anghydfod,

(b) copi o'r contract, ac

(c) datganiad byr yn disgrifio natur ac amgylchiadau'r anghydfod.

(3) Rhaid i unrhyw barti sy'n dymuno atgyfeirio anghydfod fel y crybwyllir yn is-baragraff (1) anfon y cais o dan is-baragraff (2) o fewn cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y digwyddodd y mater a arweiniodd at yr anghydfod neu y dylai'n rhesymol fod wedi dod i sylw'r parti sy'n dymuno atgyfeirio'r anghydfod.

(4) Pan fo'r anghydfod yn ymwneud â chontract nad yw'n gontract GIG, caiff Gweinidogion Cymru benderfynu ar y mater eu hunain neu, os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol, benodi person neu bersonau i'w ystyried a phenderfynu arno.

(5) Cyn penderfynu pwy a ddylai benderfynu ar yr anghydfod, naill ai o dan is-baragraff (4) neu o dan adran 7(8) o Ddeddf 2006, rhaid i Weinidogion Cymru, o fewn y cyfnod o 7 niwrnod clir sy'n dechrau â'r dyddiad yr atgyfeiriwyd mater atynt, anfon cais ysgrifenedig at y partïon i gyflwyno yn ysgrifenedig, o fewn cyfnod penodedig, unrhyw sylwadau yr hoffent eu cyflwyno ynghylch y mater.

(6) Gyda'r hysbysiad a roddir o dan is-baragraff (5), rhaid i Weinidogion Cymru roi i'r parti heblaw'r un a atgyfeiriodd y mater at y weithdrefn datrys anghydfodau gopi o unrhyw ddogfen yr atgyfeiriwyd y mater at y weithdrefn datrys anghydfodau drwyddi.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru roi copi o unrhyw sylwadau sy'n dod i law oddi wrth barti i'r parti arall a rhaid iddynt ofyn (yn ysgrifenedig) ym mhob achos i barti y rhoddir copi o'r sylwadau iddo gyflwyno o fewn cyfnod penodedig unrhyw arsylwadau ysgrifenedig y mae'n dymuno eu gwneud am y sylwadau hynny.

(8) Ar ôl cael unrhyw sylwadau gan y partïon neu, os yw hynny'n gynharach, ar ddiwedd y cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau o'r fath a bennir yn y cais a anfonir o dan is-baragraff (5) neu (7), rhaid i Weinidogion Cymru, os ydynt yn penderfynu penodi person neu bersonau i wrando'r anghydfod—

(a) rhoi gwybod i'r partïon yn ysgrifenedig am enw'r person neu'r personau y mae wedi ei benodi neu eu penodi, a

(b) trosglwyddo i'r person neu'r personau a benodir felly unrhyw ddogfennau a ddaeth i law oddi wrth y partïon o dan baragraff (2), (5) neu (7) neu yn unol â hwy.

(9) Er mwyn cynorthwyo'r dyfarnwr i ystyried y mater, caiff y dyfarnwr—

(a) gwahodd cynrychiolwyr i'r partïon i ymddangos gerbron y dyfarnwr i gyflwyno sylwadau ar lafar naill ai gyda'i gilydd neu, gyda chytundeb y partïon, ar wahân, a chaiff ddarparu rhestr o faterion neu gwestiynau ymlaen llaw i'r partïon y mae'r dyfarnwr yn dymuno iddynt roi ystyriaeth arbennig iddynt, neu

(b) ymgynghori â phersonau eraill y mae'r dyfarnwr yn ystyried y byddai eu harbenigedd yn cynorthwyo i ystyried y mater.

(10) Pan fo'r dyfarnwr yn ymgynghori â pherson arall o dan is-baragraff (9)(b), rhaid i'r dyfarnwr hysbysu'r partïon yn unol â hynny yn ysgrifenedig ac, os yw'r dyfarnwr yn ystyried y gallai canlyniad yr ymgynghoriad effeithio'n sylweddol ar fuddiannau unrhyw barti, rhaid i'r dyfarnwr roi i'r partïon unrhyw gyfle y mae'r dyfarnwr yn ystyried ei fod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau i gyflwyno arsylwadau ar y canlyniadau hynny.

(11) Wrth ystyried y mater, rhaid i'r dyfarnwr ystyried—

(a) unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynir mewn ymateb i gais o dan is-baragraff (5), ond dim ond os cânt eu cyflwyno o fewn y cyfnod penodedig,

(b) unrhyw arsylwadau ysgrifenedig a gyflwynir mewn ymateb i gais o dan is-baragraff (7), ond dim ond os cânt eu cyflwyno o fewn y cyfnod penodedig,

(c) unrhyw sylwadau ar lafar a gyflwynir mewn ymateb i wahoddiad o dan is-baragraff (9)(a),

(d) canlyniadau unrhyw ymgynghori o dan is-baragraff (9)(b), ac

(e) unrhyw arsylwadau a gyflwynir yn unol â chyfle a roddir o dan is-baragraff (10).

(12) Yn y paragraff hwn, ystyr "cyfnod penodedig" yw unrhyw gyfnod a bennir gan Weinidogion Cymru yn y cais, nad yw'n llai na 2 wythnos, nac yn fwy na 4 wythnos, gan ddechrau â'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad y cyfeirir ato, ond caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt yn ystyried bod rheswm da dros wneud hynny, estyn unrhyw gyfnod o'r fath

(hyd yn oed ar ôl iddo ddod i ben), a phan fyddant yn gwneud hynny, mae cyfeiriad yn y paragraff hwn at y cyfnod penodedig yn gyfeiriad at y cyfnod fel y'i hestynnwyd.

(13) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau eraill y paragraff hwn a pharagraff 57, mae gan y dyfarnwr ddisgresiwn eang i benderfynu ar y weithdrefn ar gyfer datrys yr anghydfod i sicrhau bod penderfyniad cyfiawn, diymdroi, darbodus a therfynol yn cael ei wneud ar yr anghydfod.

Penderfynu ar yr anghydfod

55.—(1) Rhaid i'r dyfarnwr gofnodi'r penderfyniad a'r rhesymau drosto yn ysgrifenedig, a rhaid iddo roi hysbysiad o'r penderfyniad (gan gynnwys cofnod o'r rhesymau) i'r partïon.

(2) Yn achos contract a atgyfeirir i'w benderfynu yn unol â pharagraff 54(1), mae adran 7(12) o Ddeddf 2006 yn gymwys fel y mae'r is-adran honno'n gymwys yn achos contract a atgyfeirir i'w benderfynu yn unol ag adran 7(6) o Ddeddf 2006.

Dehongli Rhan 7

56.—(1) Yn y Rhan hon, mae cyfeiriad at unrhyw anghydfod sy'n codi o'r contract neu mewn cysylltiad ag ef yn cynnwys unrhyw anghydfod sy'n codi o derfynu'r contract neu mewn cysylltiad â hynny.

(2) Mae unrhyw un neu ragor o delerau'r contract sy'n gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r gofynion yn y Rhan hon yn goroesi hyd yn oed pan fo'r contract wedi diweddu.

RHAN 8
AMRYWIO A THERFYNU CONTRACTAU

Amrywio contract: cyffredinol

57.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) a pharagraffau 58(6), 59(6) ac 71, nid yw unrhyw ddiwygiad nac amrywiad yn cael effaith oni bai ei fod yn ysgrifenedig ac wedi ei lofnodi gan neu ar ran y Bwrdd Iechyd Lleol a'r contractwr.

(2) Yn ychwanegol at y ddarpariaeth benodol a wneir ym mharagraffau 58(6), 59(6) ac 71, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol amrywio'r contract heb gydsyniad y contractwr—

(a) pan fo wedi ei fodloni'n rhesymol ei bod yn angenrheidiol amrywio'r contract er mwyn cydymffurfio â Deddf 2006, ag unrhyw reoliadau a wneir yn unol â'r Ddeddf honno, neu ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru yn unol â'r Ddeddf honno, a

(b) pan fo'n hysbysu'r contractwr yn ysgrifenedig am eiriad yr amrywiad arfaethedig a'r dyddiad y bydd yr amrywiad hwnnw yn cymryd effaith.

(3) Pan fo'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, ni chaiff y dyddiad y bydd yr amrywiad arfaethedig yn cymryd effaith fod yn llai na 14 o ddiwrnodau clir ar ôl y dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad o dan is-baragraff (2)(b) i'r contractwr.

Darpariaethau ynglŷn ag amrywiad sy'n benodol i gontract gydag ymarferydd deintyddol unigol

58.—(1) Os yw contractwr sy'n ymarferydd deintyddol unigol yn bwriadu ymarfer mewn partneriaeth ag un neu ragor o bersonau yn ystod bodolaeth y contract, rhaid i'r contractwr hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ysgrifenedig am y canlynol—

(a) enw'r person neu'r personau y mae'n bwriadu ymarfer mewn partneriaeth ag ef neu â hwy, a

(b) y dyddiad y mae'r contractwr yn dymuno newid ei statws fel contractwr o ymarferydd deintyddol unigol i bartneriaeth, na chaiff fod lai nag 28 o ddiwrnodau clir ar ôl y dyddiad y cyflwynodd yr hysbysiad i'r Bwrdd Iechyd Lleol yn unol â'r is-baragraff hwn.

(2) Rhaid i hysbysiad o dan is-baragraff (1), mewn cysylltiad â'r person neu bob un o'r personau y mae'r contractwr yn bwriadu ymarfer mewn partneriaeth ag ef neu â hwy, a hefyd mewn cysylltiad ag ef ei hun o ran y materion a bennir yn is-baragraff (c)—

(a) cadarnhau bod y person naill ai—

(i) yn ymarferydd deintyddol, neu

(ii) yn berson sy'n bodloni'r amodau a bennir yn adran 59 o Ddeddf 2006,

(b) cadarnhau ei fod yn berson sy'n bodloni'r amodau a osodir gan reoliad 4, ac

(c) nodi pa un a yw'r bartneriaeth yn bartneriaeth gyfyngedig ai peidio, ac os felly, pwy yw'r partneriaid cyfyngedig a phwy yw'r partneriaid cyffredinol,

a rhaid i'r hysbysiad gael ei lofnodi gan yr ymarferydd deintyddol unigol a chan y person, neu bob un o'r personau (yn ôl y digwydd), y mae'n bwriadu ymarfer mewn partneriaeth ag ef neu â hwy.

(3) Rhaid i'r contractwr sicrhau bod unrhyw berson sy'n ymarfer mewn partneriaeth ag ef wedi ei rwymo gan y contract, pa un ai yn rhinwedd gweithred partneriaeth neu fel arall.

(4) Os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei fodloni ynghylch cywirdeb y materion a bennir yn is-baragraff (2) sydd wedi eu cynnwys yn yr hysbysiad, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol roi hysbysiad ysgrifenedig o fewn 14 o ddiwrnodau clir i'r contractwr yn cadarnhau bod y contract yn parhau â'r bartneriaeth yr ymrwymwyd iddi gan y contractwr a'i bartneriaid, o ddyddiad y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ei bennu yn yr hysbysiad hwnnw.

(5) Pan fo'n rhesymol ymarferol, rhaid mai'r dyddiad a bennir gan y Bwrdd Iechyd Lleol yn unol ag is-baragraff (4) yw'r dyddiad y gofynnir amdano yn yr hysbysiad a gyflwynir gan y contractwr yn unol ag is-baragraff (1), neu, pan na fo'r dyddiad hwnnw'n rhesymol ymarferol, rhaid i'r dyddiad a bennir fod yn ddyddiad ar ôl y dyddiad y gofynnwyd amdano sydd mor agos at y dyddiad y gofynnwyd amdano ag sy'n rhesymol ymarferol.

(6) Pan fo contractwr wedi rhoi hysbysiad i'r Bwrdd Iechyd Lleol yn unol ag is-baragraff (1), o ran y Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) caiff amrywio'r contract ond dim ond i'r graddau y mae wedi ei fodloni ei bod yn angenrheidiol er mwyn adlewyrchu'r newid yn statws y contractwr o ymarferydd deintyddol unigol i bartneriaeth, a

(b) os yw'n bwriadu amrywio'r contract felly, rhaid iddo gynnwys yn yr hysbysiad a gyflwynir i'r contractwr yn unol ag is-baragraff (4) eiriad yr amrywiad arfaethedig a'r dyddiad y bydd yr amrywiad hwnnw yn cymryd effaith.

Darpariaethau ynglŷn ag amrywiad sy'n benodol i gontract â dau neu ragor o unigolion yn ymarfer mewn partneriaeth

59.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4) ac yn unol ag is-baragraff (2), pan fo contractwr yn cynnwys dau neu ragor o unigolion yn ymarfer mewn partneriaeth, os bydd y bartneriaeth yn cael ei diweddu neu ei diddymu, ni chaiff y contract ond parhau gydag un o'r cyn-bartneriaid os yw'r partner hwnnw—

(a) wedi ei enwebu yn unol ag is-baragraff (3), a

(b) yn ymarferydd deintyddol.

(2) Rhaid i gontractwr hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ysgrifenedig o leiaf 28 o ddiwrnodau clir cyn y dyddiad y mae'r contractwr yn bwriadu newid ei statws o bartneriaeth i ymarferydd deintyddol unigol yn unol ag is-baragraff (1).

(3) Rhaid i hysbysiad o dan is-baragraff (2)—

(a) pennu'r dyddiad y mae'r contractwr yn bwriadu newid ei statws o bartneriaeth i ymarferydd deintyddol unigol,

(b) pennu enw'r ymarferydd deintyddol y mae'r contract i barhau gydag ef, y mae'n rhaid iddo fod yn un o'r partneriaid presennol, ac

(c) cael ei lofnodi gan bob un o'r personau sy'n ymarfer mewn partneriaeth.

(4) Os yw partneriaeth sy'n cynnwys dau unigolyn yn ymarfer mewn partneriaeth yn cael ei diweddu neu ei diddymu am fod un o'r partneriaid wedi marw, nid yw is-baragraffau (1) i (3) yn gymwys ac—

(a) mae'r contract yn parhau gyda'r unigolyn nad yw wedi marw dim ond os yw'r unigolyn hwnnw yn ymarferydd deintyddol, a

(b) rhaid i'r unigolyn hwnnw pa un bynnag hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol am farwolaeth ei bartner.

(5) Pan fydd hysbysiad yn unol ag is-baragraff (2) neu (4)(b) yn dod i law'r Bwrdd Iechyd Lleol, rhaid iddo gydnabod yn ysgrifenedig fod yr hysbysiad wedi dod i law, ac mewn perthynas â hysbysiad a gyflwynir yn unol ag is-baragraff (2), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol wneud hynny cyn y dyddiad a bennir yn unol ag is-baragraff (3)(a).

(6) Pan fo contractwr yn rhoi hysbysiad i'r Bwrdd Iechyd Lleol yn unol ag is-baragraff (2) neu (4)(b), caiff y Bwrdd Iechyd Lleol amrywio'r contract ond dim ond i'r graddau y mae wedi ei fodloni ei bod yn angenrheidiol er mwyn adlewyrchu'r newid yn statws y contractwr o bartneriaeth i ymarferydd deintyddol unigol.

(7) Os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol yn amrywio'r contract yn unol ag is-baragraff (6), rhaid iddo hysbysu'r contractwr yn ysgrifenedig am eiriad yr amrywiad arfaethedig a'r dyddiad y bydd yr amrywiad hwnnw yn cymryd effaith.

Terfynu drwy gytundeb

60. Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol a'r contractwr gytuno yn ysgrifenedig i derfynu'r contract, ac os yw'r partïon yn cytuno felly, rhaid iddynt gytuno ar y dyddiad y dylai'r terfyniad hwnnw gael effaith ac unrhyw delerau pellach y dylid terfynu'r contract arnynt.

Terfynu yn sgil marwolaeth ymarferydd deintyddol unigol

61.—(1) Pan fo'r contract gydag ymarferydd deintyddol unigol a bod yr ymarferydd deintyddol hwnnw'n marw, mae'r contract yn terfynu ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y bu farw oni bai, cyn diwedd y cyfnod hwnnw—

(a) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), fod y Bwrdd Iechyd Lleol wedi cytuno yn ysgrifenedig â chynrychiolwyr personol y contractwr y dylai'r contract barhau am gyfnod pellach, nad yw'n hwy na 6 mis ar ôl diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau clir, a

(b) bod cynrychiolwyr personol y contractwr wedi cadarnhau yn ysgrifenedig i'r Bwrdd Iechyd Lleol eu bod yn cyflogi neu gymryd ymlaen un neu ragor o ymarferwyr deintyddol i gynorthwyo â'r ddarpariaeth o wasanaethau deintyddol o dan y contract drwy gydol y cyfnod y bydd yn parhau.

(2) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol o'r farn y gallai contractwr arall ddymuno ymrwymo i gontract mewn cysylltiad â'r gwasanaethau gorfodol yr oedd yr ymarferydd deintyddol ymadawedig yn eu darparu, caniateir estyn y cyfnod o 6 mis y cyfeirir ato yn is-baragraff (1)(a) am unrhyw gyfnod y cytunir arno rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a chynrychiolwyr personol y contractwr ymadawedig nad yw'n hwy na 6 mis.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn effeithio ar unrhyw hawliau eraill i derfynu'r contract a all fod gan y Bwrdd Iechyd Lleol o dan baragraff 60 a pharagraffau 62 i 70.

Terfynu gan y contractwr

62.—(1) Caiff contractwr derfynu'r contract drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r Bwrdd Iechyd Lleol unrhyw bryd.

(2) Pan fo contractwr yn cyflwyno hysbysiad yn unol ag is-baragraff (1), mae'r contract yn terfynu ar ddyddiad 6 mis ar ôl y dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad ("y dyddiad terfynu"), ond os nad yw'r dyddiad terfynu ar ddiwrnod calendr olaf mis, mae'r contract yn terfynu yn lle hynny ar ddiwrnod calendr olaf y mis y mae'r dyddiad terfynu yn syrthio ynddo.

(3) Nid yw'r paragraff hwn na pharagraff 63 yn rhagfarnu unrhyw hawliau eraill i derfynu'r contract a all fod gan y contractwr.

Hysbysiadau talu hwyr

63.—(1) Caiff y contractwr roi hysbysiad ysgrifenedig ("hysbysiad talu hwyr") i'r Bwrdd Iechyd Lleol os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi methu â gwneud unrhyw daliadau sy'n ddyledus i'r contractwr yn unol ag unrhyw un neu ragor o delerau'r contract sy'n cael yr effaith a bennir yn rheoliad 30 (cyllid), a rhaid i'r contractwr bennu yn yr hysbysiad talu hwyr y taliadau y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi methu â'u gwneud yn unol â'r rheoliad hwnnw.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), caiff y contractwr, o leiaf 28 o ddiwrnodau clir ar ôl cyflwyno hysbysiad talu hwyr, derfynu'r contract drwy hysbysiad ysgrifenedig pellach os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol yn dal wedi methu â gwneud y taliadau a oedd yn ddyledus i'r contractwr ac a bennwyd yn yr hysbysiad talu hwyr a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd Lleol yn unol ag is-baragraff (1).

(3) Os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol, ar ôl cael hysbysiad talu hwyr, yn atgyfeirio'r mater at weithdrefn datrys anghydfodau'r GIG o fewn 28 o ddiwrnodau clir ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad talu hwyr iddo, a'i fod yn hysbysu'r contractwr yn ysgrifenedig ei fod wedi gwneud hynny o fewn y cyfnod amser hwnnw, ni chaiff y contractwr derfynu'r contract yn unol ag is-baragraff (2)—

(a) hyd nes y penderfynir ar yr anghydfod yn unol â pharagraff 55 a bod y penderfyniad hwnnw'n caniatáu i'r contractwr derfynu'r contract, neu

(b) hyd nes y bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn rhoi'r gorau i ddilyn gweithdrefn datrys anghydfodau'r GIG,

pa un bynnag sydd gyntaf.

Terfynu gan y Bwrdd Iechyd Lleol: cyffredinol

64. Ni chaiff y Bwrdd Iechyd Lleol ond terfynu'r contract yn unol â'r darpariaethau yn y Rhan hon.

Terfynu gan y Bwrdd Iechyd Lleol: dim cymhwystra mwyach i ymrwymo i'r contract a thorri amodau'r contract

65.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r contractwr yn terfynu'r contract ar unwaith os—

(a) ymrwymwyd i'r contract yn unol ag adran 59 o Ddeddf 2006 (personau sy'n gymwys i ymrwymo i gontractau GDC), a

(b) nad yw'r contractwr yn ymarferydd deintyddol mwyach.

(2) Pan fo contractwr yn peidio â bod yn ymarferydd deintyddol yn rhinwedd ataliad dros dro a bennir yn is-baragraff (6), nid yw is-baragraff (1) yn gymwys oni bai—

(a) nad yw'r contractwr yn gallu bodloni'r Bwrdd Iechyd Lleol fod ganddo drefniadau digonol ar waith i ddarparu gwasanaethau deintyddol o dan y contract cyhyd ag y bydd yr ataliad dros dro yn parhau, neu

(b) bod y Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei fodloni bod amgylchiadau'r ataliad dros dro yn golygu, os na chaiff y contract ei derfynu ar unwaith—

(i) bod diogelwch cleifion y contractwr yn wynebu risg, neu

(ii) bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn wynebu risg o gael colled ariannol sylweddol.

(3) Ac eithrio mewn achos y mae paragraff 59(4) yn gymwys iddo, pan fo'r contractwr yn ddau neu ragor o bersonau yn ymarfer mewn partneriaeth ac nad yw'r amodau a ragnodir yn adran 59 o Ddeddf 2006 wedi eu bodloni mwyach, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r contractwr yn terfynu'r contract ar unwaith, neu

(b) cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r contractwr yn cadarnhau bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn bwriadu caniatáu i'r contract barhau am gyfnod a bennir gan y Bwrdd Iechyd Lleol yn unol ag is-baragraff (4) (y "cyfnod interim") os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei fodloni bod gan y contractwr drefniadau digonol ar waith i ddarparu gwasanaethau deintyddol ar gyfer y cyfnod interim.

(4) Ni chaiff y cyfnod a bennir gan y Bwrdd Iechyd Lleol o dan is-baragraff (3)(b) fod yn fwy na—

(a) 6 mis, neu

(b) mewn achos pan fo methiant y contractwr i barhau i fodloni'r amod yn adran 59 o Ddeddf 2006 yn deillio o ganlyniad i ataliad dros dro y cyfeirir ato yn is-baragraff (6), y cyfnod y mae'r ataliad hwnnw'n parhau ar ei gyfer.

(5) Pan ymrwymwyd i'r contract yn unol ag adran 59 o Ddeddf 2006, ond pan fo'r contractwr yn peidio â bod yn gorfforaeth ddeintyddol, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r contractwr yn terfynu'r contract ar unwaith.

(6) Yr ataliadau dros dro y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (2) a (4)(b) yw—

(a) ataliad dros dro gan Bwyllgor Practis o dan adran 27B neu 27C o Ddeddf 1984, ac eithrio o dan adran 27C(1)(d) (ataliad dros dro amhenodol), yn sgil penderfyniad perthnasol,

(b) ataliad dros dro gan Bwyllgor Practis o dan adran 30(1) o Ddeddf 1984 (gorchmynion ar gyfer ataliad dros dro ar unwaith a chofrestriad amodol ar unwaith), neu

(c) ataliad dros dro gan Bwyllgor Practis o dan adran 32 o Ddeddf 1984 (gorchmynion interim).

(7) At ddibenion is-baragraff (6)(i), "penderfyniad perthnasol" yw penderfyniad fod addasrwydd person i ymarfer wedi ei amharu ar y seiliau a grybwyllir yn y canlynol yn unig—

(a) adran 27(2)(b) o Ddeddf 1984 (perfformiad proffesiynol diffygiol), neu

(b) adran 27(2)(c) o Ddeddf 1984 (iechyd corfforol neu feddyliol andwyol).

Terfynu gan y Bwrdd Iechyd Lleol am ddarparu gwybodaeth anwir etc.

66. Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r contractwr yn terfynu'r contract ar unwaith, neu o unrhyw ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad, os daw y Bwrdd Iechyd Lleol i wybod, ar ôl i'r contract gael ei ymrwymo iddo, fod gwybodaeth ysgrifenedig a ddarparwyd i'r Bwrdd Iechyd Lleol gan y contractwr—

(a) cyn i'r contract gael ei ymrwymo iddo, neu

(b) yn unol â pharagraff 42(2),

mewn perthynas â'r amodau a nodir yn rheoliad 4 (ac â chydymffurfio â'r amodau hynny) yn anwir neu'n anghywir mewn ffordd berthnasol pan gafodd ei rhoi.

Terfynu gan y Bwrdd Iechyd Lleol ar sail addasrwydd etc.

67.—(1) Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r contractwr yn terfynu'r contract ar unwaith, neu o unrhyw ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad os yw—

(a) yn achos contract gydag ymarferydd deintyddol, yr ymarferydd deintyddol hwnnw,

(b) yn achos contract gyda dau neu ragor o unigolion yn ymarfer mewn partneriaeth, unrhyw unigolyn neu'r bartneriaeth, ac

(c) yn achos contract gyda chorfforaeth ddeintyddol—

(i) y gorfforaeth, neu

(ii) unrhyw gyfarwyddwr, prif weithredwr neu ysgrifennydd cwmni i'r gorfforaeth,

yn dod o fewn is-baragraff (2) yn ystod bodolaeth y contract neu ar neu ar ôl y dyddiad y rhoddwyd hysbysiad mewn cysylltiad â'i gydymffurfedd neu eu cydymffurfedd â'r amodau yn rheoliad 4 o dan baragraff 42(2) os oedd y dyddiad hwn yn hwyrach.

(2) Mae person yn dod o fewn yr is-baragraff hwn—

(a) os yw'n ddarostyngedig i anghymhwysiad cenedlaethol,

(b) os yw, yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), wedi ei anghymhwyso neu wedi ei atal dros dro (ac eithrio drwy unrhyw orchymyn atal dros dro interim neu gyfarwyddyd interim a wneir wrth aros am ymchwiliad neu unrhyw ataliad dros dro ar sail afiechyd) rhag ymarfer gan unrhyw gorff trwyddedu unrhyw le yn y byd,

(c) os yw, yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), wedi ei ddiswyddo (ac eithrio oherwydd dileu swydd) o unrhyw gyflogaeth gan gorff gwasanaeth iechyd oni bai ei fod, cyn i'r Bwrdd Iechyd Lleol roi hysbysiad yn terfynu'r contract yn unol

â'r paragraff hwn, yn cael ei gyflogi gan y corff gwasanaeth iechyd y cafodd ei ddiswyddo ohono neu gan gorff gwasanaeth iechyd arall,

(d) os yw wedi ei ddileu o restr cyflawnwyr deintyddol neu feddygol, neu os gwrthodwyd ei dderbyn i restr o'r fath, oherwydd aneffeithlonrwydd, twyll neu anaddasrwydd oni bai bod ei enw wedi ei gynnwys mewn rhestr o'r fath yn ddiweddarach,

(e) os yw wedi ei euogfarnu yn y Deyrnas Unedig o—

(i) llofruddiaeth, neu

(ii) trosedd heblaw llofruddiaeth a gyflawnwyd ar neu ar ôl 26 Awst 2002, ac os yw wedi ei ddedfrydu i gyfnod hwy na 6 mis o garchar,

(f) os yw, yn ddarostyngedig i is-baragraff (5), wedi ei euogfarnu y tu allan i'r Deyrnas Unedig o drosedd—

(i) a fyddai'n llofruddiaeth pe bai wedi ei chyflawni yng Nghymru a Lloegr, neu

(ii) a gyflawnwyd ar neu ar ôl 26 Awst 2002 a fyddai'n drosedd heblaw llofruddiaeth pe bai wedi ei chyflawni yng Nghymru a Lloegr, ac os yw wedi ei ddedfrydu i gyfnod hwy na 6 mis o garchar,

(g) os yw wedi ei euogfarnu o drosedd y cyfeirir ati yn Atodlen 1 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (troseddau yn erbyn plant a phobl ifanc y mae darpariaethau arbennig o'r Ddeddf hon yn gymwys iddynt) neu yn Atodlen 1 i Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995 (troseddau yn erbyn plant o dan 17 oed y mae darpariaethau arbennig yn gymwys iddynt),

(h) os yw—

(i) wedi ei wneud yn fethdalwr neu os dyfarnwyd i'w ystad gael ei secwestru neu os yw'n berson y mae cyfnod moratoriwm o dan orchymyn rhyddhau o ddyled (o dan Ran 7A o Ddeddf 1986) yn gymwys iddo oni bai ei fod wedi ei ryddhau o'r methdaliad neu'r secwestriad neu fod y gorchymyn methdaliad wedi ei annilysu,

(ii) wedi ei wneud yn ddarostyngedig i orchymyn cyfyngiadau methdaliad neu orchymyn cyfyngiadau methdaliad interim o dan Atodlen 4A i Ddeddf 1986, neu orchymyn cyfyngiadau rhyddhau o ddyled neu orchymyn cyfyngiadau rhyddhau o ddyled interim o dan Atodlen 4ZB i'r Ddeddf honno, oni bai bod y gorchymyn hwnnw wedi peidio â chael effaith neu wedi ei annilysu,

(iii) wedi gwneud cyfansoddiad neu drefniant gyda'i gredydwyr, neu wedi rhoi gweithred ymddiriedolaeth ar eu cyfer, oni bai ei fod wedi ei ryddhau mewn cysylltiad ag ef, neu

(iv) wedi ei ddirwyn i ben o dan Ran IV o Ddeddf 1986,

(i) os oes—

(i) gweinyddydd, derbynnydd gweinyddol neu dderbynnydd wedi ei benodi mewn cysylltiad ag ef, neu

(ii) gorchymyn gweinyddu wedi ei wneud mewn cysylltiad ag ef o dan Atodlen B1 i Ddeddf 1986,

(j) os yw'r person hwnnw yn bartneriaeth ac—

(i) bod unrhyw lys, tribiwnlys neu gymrodeddwr cymwys yn gorchymyn diddymu'r bartneriaeth, neu

(ii) bod digwyddiad yn digwydd sy'n ei gwneud yn anghyfreithlon i fusnes y bartneriaeth barhau, neu i aelodau'r bartneriaeth barhau mewn partneriaeth,

(k) os yw—

(i) wedi ei ddiswyddo o swydd ymddiriedolwr elusen neu ymddiriedolwr ar gyfer elusen drwy orchymyn a wnaed gan y Comisiynwyr Elusennau neu'r Uchel Lys ar sail unrhyw gamymddwyn neu gamreoli wrth weinyddu'r elusen y bu'n gyfrifol amdano neu y bu'n gyfrannog iddo, neu y cyfrannwyd ato gan ei ymddygiad, neu a hwyluswyd gan ei ymddygiad, neu

(ii) wedi ei anghymhwyso o dan adran 69B o Ddeddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 (anghymhwyso rhag dal swydd â swyddogaethau rheoli uwch) rhag ymwneud â rheoli neu reolaethu unrhyw gorff,

(l) os yw'n ddarostyngedig i orchymyn anghymhwyso o dan Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986(**39**), Gorchymyn Cwmnïau (Gogledd Iwerddon) 1986(**40**) neu orchymyn a wnaed o dan adran 429(2)(b) o Ddeddf 1986 (methu â thalu o dan orchymyn gweinyddu llys sirol), neu

(m) os yw wedi gwrthod cydymffurfio â chais gan y Bwrdd Iechyd Lleol iddo gael ei archwilio'n feddygol ar y sail bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn pryderu nad yw'r contractwr yn gallu darparu gwasanaethau yn ddigonol o dan y contract ac, mewn achos pan fo'r contract gyda dau neu ragor o unigolion yn ymarfer mewn partneriaeth neu gyda chorfforaeth ddeintyddol, nad yw'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei fodloni bod y contractwr yn cymryd camau digonol i ddelio â'r mater.

(3) Ni chaiff Bwrdd Iechyd Lleol derfynu'r contract yn unol ag is-baragraff (2)(b) pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei fodloni nad yw'r anghymhwysiad neu'r ataliad dros dro a osodwyd gan gorff trwyddedu y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn gwneud y person yn anaddas i fod—

(a) yn gontractwr,

(b) yn bartner, yn achos contract gyda dau neu ragor o unigolion yn ymarfer mewn partneriaeth, neu

(c) yn gyfarwyddwr, yn brif weithredwr neu'n ysgrifennydd cwmni i'r gorfforaeth, yn achos contract â chorfforaeth ddeintyddol.

(4) Ni chaiff Bwrdd Iechyd Lleol derfynu'r contract yn unol ag is-baragraff (2)(c)—

(a) hyd nes bod cyfnod o 3 mis o leiaf wedi mynd heibio ers dyddiad diswyddo'r person o dan sylw, neu

(b) os bydd y person o dan sylw, yn ystod y cyfnod a bennir ym mharagraff (a), yn dwyn achos mewn unrhyw dribiwnlys neu lys cymwys mewn cysylltiad â diswyddo'r person, hyd nes bod yr achos gerbron y tribiwnlys neu'r llys hwnnw wedi dod i ben,

ac ni chaiff y Bwrdd Iechyd Lleol ond terfynu'r contract ar ddiwedd y cyfnod a bennir ym mharagraff (b) os na cheir dyfarniad o ddiswyddo annheg ar ddiwedd yr achos hwnnw.

(5) Ni chaiff Bwrdd Iechyd Lleol derfynu'r contract yn unol ag is-baragraff (2)(f) pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei fodloni nad yw'r euogfarn yn gwneud y person yn anaddas i fod—

(a) yn gontractwr,

(b) yn bartner, yn achos contract gyda dau neu ragor o unigolion yn ymarfer mewn partneriaeth, neu

(**39**) 1986 p. 46.
(**40**) O.S. 1986/1032 (G.I. 6).

(c) yn gyfarwyddwr, yn brif weithredwr neu'n ysgrifennydd cwmni i'r gorfforaeth, yn achos contract â chorfforaeth ddeintyddol,

yn ôl y digwydd.

(6) Yn y paragraff hwn, mae "corff gwasanaeth iechyd" yn cynnwys y cyrff a adnabuwyd ar yr adeg berthnasol fel Awdurdod Iechyd Strategol, Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol, Grŵp Comisiynu Clinigol a System Gofal Integredig.

Terfynu gan y Bwrdd Iechyd Lleol: diogelwch cleifion a cholled ariannol sylweddol

68. Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r contractwr yn terfynu'r contract ar unwaith neu gydag effaith o unrhyw ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad—

(a) os yw'r contractwr wedi torri'r contract a bod risg i ddiogelwch cleifion y contractwr o ganlyniad i'r toriad hwnnw os na therfynir y contract, neu

(b) os yw sefyllfa ariannol y contractwr yn golygu bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn wynebu risg o gael colled ariannol sylweddol.

Terfynu gan y Bwrdd Iechyd Lleol: hysbysiadau adfer a hysbysiadau tor contract

69.—(1) Pan fo contractwr wedi torri'r contract heblaw fel y pennir ym mharagraffau 66 i 68 a bod modd unioni'r toriad, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol, cyn cymryd unrhyw gamau y mae ganddo hawlogaeth i'w cymryd fel arall yn rhinwedd y contract, gyflwyno hysbysiad i'r contractwr yn ei gwneud yn ofynnol iddo unioni'r toriad ("hysbysiad adfer").

(2) Rhaid i hysbysiad adfer bennu—

(a) manylion y toriad,

(b) y camau y mae rhaid i'r contractwr eu cymryd er boddhad y Bwrdd Iechyd Lleol er mwyn unioni'r toriad, ac

(c) y cyfnod y mae rhaid cymryd y camau o'i fewn ("cyfnod yr hysbysiad").

(3) Ni chaiff cyfnod yr hysbysiad fod yn llai nag 28 o ddiwrnodau clir o'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad hwnnw, oni bai bod y Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei fodloni bod cyfnod byrrach yn angenrheidiol er mwyn—

(a) amddiffyn diogelwch cleifion y contractwr, neu

(b) ei amddiffyn ei hun rhag colled ariannol sylweddol.

(4) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei fodloni nad yw'r contractwr wedi cymryd y camau gofynnol i unioni'r toriad erbyn diwedd cyfnod yr hysbysiad, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol derfynu'r contract gydag effaith o unrhyw ddyddiad a bennir gan y Bwrdd Iechyd Lleol mewn hysbysiad pellach i'r contractwr.

(5) Pan fo contractwr wedi torri'r contract heblaw fel y pennir ym mharagraffau 66 i 68 ac nad oes modd unioni'r toriad, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r contractwr yn ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr beidio ag ailadrodd y toriad ("hysbysiad tor contract").

(6) Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol gyflwyno hysbysiad i'r contractwr yn terfynu'r contract gydag effaith o unrhyw ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad hwnnw os yw'r contractwr, yn dilyn hysbysiad tor contract neu hysbysiad adfer—

(a) yn ailadrodd y toriad a oedd yn destun yr hysbysiad tor contract neu'r hysbysiad adfer, neu

(b) fel arall yn torri'r contract gan arwain naill ai at hysbysiad adfer neu at hysbysiad tor contract pellach.

(7) Ni chaiff y Bwrdd Iechyd Lleol arfer ei hawl i derfynu'r contract o dan is-baragraff (6) oni bai ei fod wedi ei fodloni bod effaith gronnol y toriadau yn golygu bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried y byddai caniatáu i'r contract barhau yn niweidiol i effeithlonrwydd y gwasanaethau sydd i'w darparu o dan y contract.

(8) Os yw'r contractwr wedi torri unrhyw rwymedigaeth a bod hysbysiad tor contract neu hysbysiad adfer mewn cysylltiad â'r diffyg hwnnw wedi ei roi i'r contractwr, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol gadw'n ôl neu ddidynnu arian a fyddai fel arall yn daladwy o dan y contract mewn cysylltiad â'r rhwymedigaeth honno sy'n destun y toriad.

Terfynu gan y Bwrdd Iechyd Lleol: darpariaethau ychwanegol sy'n benodol i gontractau gyda dau neu ragor o unigolion yn ymarfer mewn partneriaeth a chorfforaethau deintyddol

70.—(1) Pan fo'r contractwr yn gorfforaeth ddeintyddol, os caiff y Bwrdd Iechyd Lleol wybod bod y contractwr yn cynnal unrhyw fusnes y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried ei fod yn niweidiol i'r modd y mae'r contractwr yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y contract—

(a) mae gan y Bwrdd Iechyd Lleol hawlogaeth i roi hysbysiad i'r contractwr yn ei gwneud yn ofynnol iddo roi'r gorau i gynnal y busnes hwnnw cyn diwedd cyfnod o ddim llai nag 28 o ddiwrnodau clir sy'n dechrau ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad ("cyfnod yr hysbysiad"), a

(b) os nad yw'r contractwr wedi bodloni'r Bwrdd Iechyd Lleol ei fod wedi rhoi'r gorau i gynnal y busnes hwnnw erbyn diwedd cyfnod yr hysbysiad, caiff y Bwrdd Iechyd Lleol, drwy hysbysiad ysgrifenedig pellach, derfynu'r contract ar unwaith neu o unrhyw ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Pan fo'r contractwr yn gorfforaeth ddeintyddol ac ar neu ar ôl y dyddiad y daw erthygl 39 o Orchymyn 2005 i rym at bob diben yn ystod bodolaeth y contract—

(a) pan fo mwyafrif cyfarwyddwyr y gorfforaeth ddeintyddol yn peidio â bod naill ai'n ymarferwyr deintyddol neu'n broffesiynolion gofal deintyddol,

(b) pan fo'r gorfforaeth ddeintyddol wedi ei heuogfarnu o drosedd o dan adran 43(1) o Ddeddf 1984 (cyfarwyddwyr cyrff corfforedig), neu

(c) pan fo'r gorfforaeth ddeintyddol, neu un o gyfarwyddwyr neu gyn-gyfarwyddwyr y gorfforaeth honno, wedi cael cosb ariannol wedi ei gosod arno neu arnynt gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn unol ag adran 43B (cosbau ariannol mewn perthynas â chyrff corfforedig) neu 44 (cosbau ariannol pellach ar gyrff corfforedig) o Ddeddf 1984,

caiff y Bwrdd Iechyd Lleol, drwy hysbysiad ysgrifenedig, derfynu'r contract os yw'n ystyried, o ganlyniad i hynny, nad yw'r gorfforaeth ddeintyddol yn addas i fod yn gontractwr mwyach.

(3) Pan fo'r contractwr yn ddau neu ragor o bersonau yn ymarfer mewn partneriaeth, mae gan y Bwrdd Iechyd Lleol hawlogaeth i derfynu'r contract drwy hysbysiad ysgrifenedig ar unrhyw ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad hwnnw pan fo un neu ragor o'r partneriaid wedi ymadael â'r practis yn ystod bodolaeth y contract os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol, yn ei farn resymol, yn ystyried bod y newid yn aelodaeth y bartneriaeth yn debygol o gael effaith andwyol ddifrifol ar allu'r contractwr neu'r Bwrdd Iechyd Lleol i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y contract.

(4) Rhaid i hysbysiad a roddir i'r contractwr yn unol ag is-baragraff (3) bennu—

(a) y dyddiad y bydd y contract yn terfynu, a

(b) rhesymau'r Bwrdd Iechyd Lleol dros ystyried bod y newid yn aelodaeth y bartneriaeth yn debygol o gael effaith andwyol ddifrifol ar allu'r contractwr neu'r Bwrdd Iechyd Lleol i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y contract.

Sancsiynau contract

71.—(1) Yn y paragraff hwn a pharagraff 72, ystyr "sancsiwn contract" yw—

(a) terfynu cydrwymedigaethau penodedig o dan y contract,

(b) atal dros dro gydrwymedigaethau penodedig o dan y contract am gyfnod o hyd at chwe mis, neu

(c) cadw'n ôl neu ddidynnu arian sy'n daladwy fel arall o dan y contract.

(2) Pan fo gan y Bwrdd Iechyd Lleol hawlogaeth i derfynu'r contract yn unol â pharagraff 66, 67, 68, 69(4), 69(6) neu 70, caiff yn hytrach osod unrhyw un neu ragor o'r sancsiynau contract os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei fodloni'n rhesymol fod y sancsiwn contract sydd i'w osod yn briodol ac yn gymesur â'r amgylchiadau sy'n arwain at hawlogaeth y Bwrdd Iechyd Lleol i derfynu'r contract.

(3) O dan is-baragraff (2), nid oes gan y Bwrdd Iechyd Lleol hawlogaeth i osod unrhyw sancsiwn contract sy'n cael yr effaith o derfynu neu atal dros dro unrhyw rwymedigaeth i ddarparu gwasanaethau gorfodol nac unrhyw rwymedigaeth sy'n ymwneud â hwy.

(4) Os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu gosod sancsiwn contract, rhaid iddo hysbysu'r contractwr am y sancsiwn contract y mae'n bwriadu ei osod a'r dyddiad y bwriedir i'r sancsiwn hwnnw gael ei osod a rhaid iddo ddarparu esboniad yn yr hysbysiad hwnnw o effaith gosod y sancsiwn hwnnw.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff 72, ni chaiff y Bwrdd Iechyd Lleol osod y sancsiwn contract tan o leiaf 28 o ddiwrnodau clir ar ôl iddo gyflwyno'r hysbysiad i'r contractwr yn unol ag is-baragraff (4) oni bai bod y Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei fodloni ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn—

(a) amddiffyn diogelwch cleifion y contractwr, neu

(b) ei amddiffyn ei hun rhag colled ariannol sylweddol.

(6) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gosod sancsiwn contract, mae gan y Bwrdd Iechyd Lleol hawlogaeth i godi ar y contractwr y costau rhesymol y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi mynd iddynt o ran gweinyddu ychwanegol er mwyn gosod y sancsiwn contract neu o ganlyniad i'w osod.

Sancsiynau contract a gweithdrefn datrys anghydfodau'r GIG

72.—(1) Os ceir anghydfod rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a'r contractwr mewn perthynas â sancsiwn contract y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn bwriadu ei osod, ni chaiff y Bwrdd Iechyd Lleol, yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), osod y sancsiwn contract arfaethedig ac eithrio o dan yr amgylchiadau a bennir yn is-baragraff (2).

(2) Os yw'r contractwr yn atgyfeirio'r anghydfod ynglŷn â'r sancsiwn contract at weithdrefn datrys anghydfodau'r GIG o fewn 28 o ddiwrnodau clir sy'n dechrau â'r dyddiad y cyflwynodd y Bwrdd Iechyd Lleol hysbysiad i'r contractwr yn unol â pharagraff 71(4) (neu unrhyw gyfnod hwy y cytunir arno'n ysgrifenedig gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol), a'i fod yn hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ysgrifenedig ei fod wedi gwneud hynny, ni chaiff y Bwrdd Iechyd Lleol osod y sancsiwn contract oni bai—

(a) bod penderfyniad wedi ei wneud ar yr anghydfod yn unol â pharagraff 55 a bod y penderfyniad hwnnw'n caniatáu i'r Bwrdd Iechyd Lleol osod y sancsiwn contract, neu

(b) bod y contractwr yn rhoi'r gorau i ddilyn gweithdrefn datrys anghydfodau'r GIG,

pa un bynnag sydd gyntaf.

(3) Os nad yw'r contractwr yn troi at weithdrefn datrys anghydfodau'r GIG o fewn yr amser a bennir yn is-baragraff (2), mae gan y Bwrdd Iechyd Lleol hawlogaeth i osod y sancsiwn contract ar unwaith.

(4) Mae gan y Bwrdd Iechyd Lleol hawlogaeth i osod y sancsiwn contract ar unwaith, wrth aros canlyniad gweithdrefn datrys anghydfodau'r GIG, os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei fodloni ei bod yn angenrheidiol gosod y sancsiwn contract cyn i weithdrefn datrys anghydfodau'r GIG ddod i ben er mwyn—

(a) amddiffyn diogelwch cleifion y contractwr, neu

(b) ei amddiffyn ei hun rhag colled ariannol sylweddol.

Terfynu a gweithdrefn datrys anghydfodau'r GIG

73.—(1) Pan fo gan y Bwrdd Iechyd Lleol hawlogaeth i gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r contractwr yn terfynu'r contract yn unol â pharagraff 66, 67, 68, 69(4), 69(6) neu 70, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol, yn yr hysbysiad a gyflwynir i'r contractwr yn unol â'r darpariaethau hynny, bennu dyddiad y mae'r contract yn terfynu arno nad yw'n llai nag 28 o ddiwrnodau clir ar ôl y dyddiad y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi cyflwyno'r hysbysiad hwnnw i'r contractwr oni bai bod is-baragraff (2) yn gymwys.

(2) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei fodloni bod angen cyfnod o lai nag 28 o ddiwrnodau clir er mwyn—

(a) amddiffyn diogelwch cleifion y contractwr, neu

(b) ei amddiffyn ei hun rhag colled ariannol sylweddol.

(3) Mewn achos sy'n dod o fewn is-baragraff (1), pan na fo'r eithriadau yn is-baragraff (2) yn gymwys, pan fo'r contractwr yn troi at weithdrefn datrys anghydfodau'r GIG cyn diwedd cyfnod yr hysbysiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (1), a'i fod yn hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ysgrifenedig ei fod wedi gwneud hynny, nid yw'r contract yn terfynu ar ddiwedd cyfnod yr hysbysiad ond yn hytrach mae'n terfynu o dan yr amgylchiadau a bennir yn is-baragraff (4) yn unig.

(4) Mae'r contract yn terfynu—

(a) os oes penderfyniad wedi ei wneud a phan fo penderfyniad wedi ei wneud ar yr anghydfod yn unol â pharagraff 55 a bod y penderfyniad hwnnw'n caniatáu i'r Bwrdd Iechyd Lleol derfynu'r contract, neu

(b) os bydd y contractwr yn rhoi'r gorau a phan fo'r contractwr yn rhoi'r gorau i ddilyn gweithdrefn datrys anghydfodau'r GIG,

pa un bynnag sydd gyntaf.

(5) Os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei fodloni ei bod yn angenrheidiol terfynu'r contract cyn i weithdrefn datrys anghydfodau'r GIG ddod i ben er mwyn—

(a) amddiffyn diogelwch cleifion y contractwr, neu

(b) ei amddiffyn ei hun rhag colled ariannol sylweddol,

nid yw is-baragraffau (3) a (4) yn gymwys ac mae gan y Bwrdd Iechyd Lleol hawlogaeth i gadarnhau, drwy hysbysiad ysgrifenedig sydd i'w gyflwyno i'r contractwr, fod y contract yn terfynu serch hynny ar ddiwedd cyfnod yr hysbysiad a gyflwynwyd ganddo yn unol â pharagraff 66, 67, 68, 69(4), 69(6) neu 70.

RHAN 9
AMRYWIOL

Tystiolaeth o esemptiad o dan Ddeddf 2006

74.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), rhaid i'r contractwr sicrhau ei fod yn gofyn, mewn cysylltiad â pherson sy'n gwneud declarasiwn yn ymwneud ag esemptiad o dan adran 126 o Ddeddf 2006, am dystiolaeth i gefnogi'r declarasiwn hwnnw.

(2) Rhaid i'r contractwr sicrhau—

(a) bod nodyn yn cael ei wneud o'r math o dystiolaeth a gyflwynir, neu

(b) mewn achos pan na chyflwynir tystiolaeth, fod nodyn yn cael ei wneud o'r ffaith honno.

(3) Nid yw is-baragraffau (1) a (2) yn gymwys pan fo'r contractwr wedi ei fodloni bod y person y gwneir y declarasiwn mewn cysylltiad ag ef o dan 18 oed.

Trefniadau llywodraethu clinigol

75.—(1) Rhaid i'r contractwr gydymffurfio ag unrhyw drefniadau llywodraethu clinigol a sefydlir gan y Bwrdd Iechyd Lleol mewn cysylltiad â chontractwyr yn darparu gwasanaethau o dan gontract.

(2) Rhaid i'r contractwr enwebu person sy'n rheoli gwasanaethau o dan y contract i fod â chyfrifoldeb dros sicrhau cydymffurfedd â threfniadau llywodraethu clinigol.

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr "trefniadau llywodraethu clinigol" yw trefniadau y mae'r contractwr yn ymdrechu drwyddynt i wella'n barhaus ansawdd ei wasanaethau ac i ddiogelu safonau gofal uchel drwy greu amgylchedd y gall rhagoriaeth glinigol ffynnu ynddo.

System sicrhau ansawdd

76.—(1) Rhaid i'r contractwr sefydlu a gweithredu system sicrhau ansawdd yn y practis sy'n gymwys i'r holl bersonau a bennir yn is-baragraff (2).

(2) Y personau a bennir yw—

(a) unrhyw ymarferydd deintyddol sy'n cyflawni gwasanaethau o dan y contract;

(b) unrhyw berson arall a gyflogir neu a gymerir ymlaen gan y contractwr i gyflawni neu i gynorthwyo i gyflawni gwasanaethau o dan y contract.

(3) Rhaid i gontractwr sicrhau ei fod, mewn cysylltiad â'i system sicrhau ansawdd yn y practis, wedi enwebu person (nad oes angen iddo fod yn gysylltiedig â phractis y contractwr) i fod yn gyfrifol am weithredu'r system honno.

(4) Yn y paragraff hwn, ystyr "system sicrhau ansawdd yn y practis" yw un sy'n cynnwys system i sicrhau bod—

(a) mesurau effeithiol i reoli heintiau yn cael eu defnyddio,

(b) yr holl ofynion cyfreithiol yn ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y gweithle yn cael eu bodloni,

(c) yr holl ofynion cyfreithiol yn ymwneud â diogelu radiolegol yn cael eu bodloni,

(d) unrhyw un neu ragor o ofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol mewn cysylltiad â datblygiad proffesiynol parhaus ymarferwyr deintyddol yn cael eu bodloni, ac

(e) hunanasesiad sicrhau ansawdd blynyddol yn cael ei gynnal fel y'i cydlynir gan Dîm Iechyd Deintyddol y Cyhoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Yswiriant: perfformiad esgeulus

77.—(1) Rhaid i'r contractwr gael trefniant indemniad mewn grym bob amser mewn perthynas ag ef ei hun sy'n darparu yswiriant priodol.

(2) Ni chaiff y contractwr is-gontractio ei rwymedigaethau i ddarparu gwasanaethau clinigol o dan y contract oni bai ei fod wedi ei fodloni ei hun bod gan yr is-gontractwr drefniant indemniad mewn grym mewn perthynas ag ef ei hun sy'n darparu yswiriant priodol.

(3) Bernir bod gan gontractwr drefniant indemniad mewn grym mewn perthynas ag ef ei hun os oes trefniant indemniad mewn grym mewn perthynas â'i gyflogai mewn cysylltiad â gwasanaethau clinigol y mae'r cyflogai hwnnw'n eu darparu o dan y contract neu, yn ôl y digwydd, o dan is-gontract.

(4) Yn y paragraff hwn—

ystyr "trefniant indemniad" ("*indemnity arrangement*") yw contract yswiriant neu drefniant arall a wneir at ddiben indemnio'r contractwr;

ystyr "yswiriant priodol" ("*appropriate cover*") yw yswiriant rhag atebolrwyddau y gall y contractwr fynd iddynt wrth gyflawni gwasanaethau clinigol o dan y contract, sy'n briodol, o roi sylw i natur a maint y risgiau wrth gyflawni'r gwasanaethau hynny.

Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus

78.—(1) Rhaid i'r contractwr bob amser ddal yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol mewn perthynas ag atebolrwyddau tuag at drydydd partïon sy'n codi o dan y contract neu mewn cysylltiad â'r contract ac nad ydynt yn dod o dan y trefniant indemniad y cyfeirir ato ym mharagraff 77(1).

(2) Yn y paragraff hwn, mae i "trefniant indemniad" yr un ystyr ag ym mharagraff 77.

Rhoddion

79.—(1) Rhaid i'r contractwr gadw cofrestr o roddion a roddir i unrhyw un neu ragor o'r personau a bennir yn is-baragraff (2) gan neu ar ran—

(a) claf,

(b) perthynas i glaf, neu

(c) unrhyw berson sy'n darparu gwasanaethau neu'n dymuno darparu gwasanaethau i'r contractwr neu i'w gleifion mewn cysylltiad â'r contract,

ac sydd â gwerth unigol o fwy na £100.00, ym marn resymol y contractwr.

(2) Y personau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1) yw—

(a) y contractwr,

(b) pan fo'r contract yn gontract gyda dau neu ragor o unigolion yn ymarfer mewn partneriaeth, unrhyw bartner,

(c) pan fo'r contract yn gontract gyda chorfforaeth ddeintyddol, cyfarwyddwr, prif weithredwr neu ysgrifennydd cwmni i'r gorfforaeth,

(d) unrhyw berson a gyflogir gan y contractwr at ddibenion y contract,

(e) unrhyw ymarferydd deintyddol a gymerir ymlaen gan y contractwr at ddibenion y contract,

(f) unrhyw briod neu bartner sifil i gontractwr (pan fo'r contractwr yn ymarferydd deintyddol unigol) neu i berson a bennir ym mharagraffau (b) i (e), neu

(g) unrhyw berson y mae gan ei berthynas â'r contractwr (pan fo'r contractwr yn ymarferydd deintyddol unigol) neu â pherson a bennir ym mharagraffau (b) i (e) nodweddion y berthynas rhwng pâr priod neu bartneriaid sifil.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys—

(a) pan fo seiliau rhesymol dros gredu nad yw'r rhodd yn gysylltiedig â gwasanaethau a ddarparwyd yn flaenorol, sy'n cael eu darparu neu sydd i'w darparu gan y contractwr,

(b) pan na fo'r contractwr yn ymwybodol o'r rhodd, neu

(c) mewn achos sy'n dod o fewn is-baragraff (1)(c), pan na fo'r contractwr yn ymwybodol bod y rhoddwr yn dymuno darparu gwasanaethau i'r contractwr.

(4) Rhaid i'r contractwr gymryd camau rhesymol i sicrhau ei fod yn cael gwybod am roddion sy'n dod o fewn is-baragraff (1) ac a roddir i'r personau a bennir yn is-baragraff (2)(b) i (g).

(5) Rhaid i'r gofrestr y cyfeirir ati yn is-baragraff (1) gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) enw'r rhoddwr,

(b) mewn achos pan fo'r rhoddwr yn glaf, rhif Gwasanaeth Iechyd Gwladol y claf neu, os nad yw'r rhif yn hysbys, ei gyfeiriad,

(c) mewn unrhyw achos arall, cyfeiriad y rhoddwr,

(d) natur y rhodd,

(e) amcangyfrif o werth y rhodd, ac

(f) enw'r person neu'r personau a gafodd y rhodd.

(6) Rhaid i'r contractwr drefnu bod y gofrestr ar gael i'r Bwrdd Iechyd Lleol ar gais.

Cydymffurfedd â deddfwriaeth a chanllawiau

80. Rhaid i'r contractwr—

(a) cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, a

(b) rhoi sylw i'r holl ganllawiau perthnasol a ddyroddir gan y Bwrdd Iechyd Lleol neu gan Weinidogion Cymru.

Hawliau trydydd parti

81. Ni chaiff y contract greu unrhyw hawl a all gael ei gorfodi gan unrhyw berson nad yw'n barti iddo.

Llofnodi dogfennau

82.—(1) Yn ychwanegol at unrhyw ofyniad arall a gaiff fod yn gysylltiedig â'r dogfennau a bennir yn is-baragraff (2), pa un ai yn y Rheoliadau hyn neu fel arall, rhaid i'r contractwr sicrhau bod y dogfennau hynny yn cynnwys—

(a) enw a phroffesiwn clinigol y proffesiynolyn a lofnododd y ddogfen, a

(b) enw'r contractwr y mae'r ddogfen wedi ei llofnodi ar ei ran.

(2) Mae'r cyfeiriad at ddogfennau yn is-baragraff (1) yn cynnwys—

(a) ffurflenni y mae'n ofynnol iddynt gael eu cwblhau o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn, pan fo angen llofnod ar y ffurflenni hynny,

(b) ffurflenni presgripsiwn, ac

(c) unrhyw ddogfen glinigol arall.

Y ddyletswydd i gydweithredu: gweithio mewn clwstwr

83.—(1) Rhaid i gontractwr gydymffurfio â'r gofynion yn is-baragraff (2) pan ddarperir gwasanaethau deintyddol sylfaenol gan glwstwr y contractwr.

(2) Y gofynion a bennir yn yr is-baragraff hwn yw bod rhaid i'r contractwr—

(a) cydweithredu, i'r graddau y mae'n rhesymol, ag unrhyw berson sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau,

(b) cydymffurfio yn ystod oriau craidd ag unrhyw gais rhesymol am wybodaeth gan y person hwnnw neu gan y Bwrdd Iechyd Lleol ynglŷn â darparu'r gwasanaethau,

(c) cytuno ar fandad cynrychiolydd Cydweithredfa Ddeintyddol yng nghyfarfodydd y clwstwr a chymryd adborth o gyfarfodydd y clwstwr i ystyriaeth,

(d) cymryd camau rhesymol i ddarparu gwybodaeth i'w gleifion gweithredol am y gwasanaethau, gan gynnwys gwybodaeth am sut i gael mynediad i'r gwasanaethau ac unrhyw newidiadau iddynt, ac

(e) sicrhau yr ymgysylltir â'r gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau lleol, fel sydd wedi ei gytuno o fewn cynllun gweithredu'r clwstwr, sy'n cynnwys trefniadau addas i alluogi rhannu data, pan fo mesurau diogelu priodol wedi eu bodloni, i gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r gwasanaethau ac i drafod cyllid a chyllidebau'r clwstwr.

(3) Rhaid i'r contract gynnwys teler sy'n ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr gael taliad cydnabyddiaeth am gymryd rhan yng nghyfarfodydd y clwstwr bob blwyddyn yn unol â chyfarwyddydau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 60 o Ddeddf 2006.

ATODLEN 4 Paragraff 35 o Atodlen 3

TAFLEN GWYBODAETH I GLEIFION

Rhaid i daflen gwybodaeth i gleifion gynnwys yr eitemau a restrir isod.

1. Enw'r contractwr.

2. Yn achos contract gyda phartneriaeth—

(a) pa un a yw'r bartneriaeth yn bartneriaeth gyfyngedig ai peidio, a

(b) enwau'r holl bartneriaid ac, yn achos partneriaeth gyfyngedig, eu statws fel partner cyffredinol neu bartner cyfyngedig.

3. Yn achos contract gyda chorfforaeth ddeintyddol—

(a) enwau cyfarwyddwyr, prif weithredwr ac ysgrifennydd cwmni i'r gorfforaeth, i'r graddau y mae'r swyddi hynny'n bodoli mewn perthynas â'r gorfforaeth ddeintyddol, a

(b) cyfeiriad swyddfa gofrestredig y gorfforaeth.

4. Enw llawn pob person sy'n cyflawni gwasanaethau o dan y contract.

5. Yn achos pob person sy'n cyflawni gwasanaethau deintyddol o dan y contract, ei gymwysterau proffesiynol a'i brofiad perthnasol.

6. A yw'r contractwr yn ymgymryd ag addysgu neu hyfforddi personau sy'n darparu gwasanaethau deintyddol neu bersonau sy'n bwriadu gwneud hynny.

7. Y trefniadau ar gyfer datblygu a hyfforddi cyflogeion yn briodol.

8. Cyfeiriad pob un o'r mangreoedd practis.

9. Rhifau ffôn a ffacs y contractwr (os o gwbl) a chyfeiriad ei wefan (os o gwbl).

10. A oes gan y mangreoedd practis fynedfa addas ar gyfer cleifion anabl neu gleifion ag anghenion amgen ac, os nad oes, y trefniadau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau i gleifion o'r fath.

11. Sut i ofyn am wasanaethau fel claf.

12. Hawliau claf i fynegi hoff ddewis am ymarferydd deintyddol yn unol â pharagraff 2 o Atodlen 3 a'r dull o fynegi hoff ddewis o'r fath.

13. Y gwasanaethau sydd ar gael o dan y contract.

14. Diwrnodau ac oriau gwaith arferol y practis.

15. Y trefniadau ar gyfer gwasanaethau deintyddol ar gyfer yr oriau a'r diwrnodau sy'n dod y tu allan i oriau gwaith arferol y ddeintyddfa (pa un a yw'r contractwr yn eu darparu ai peidio) a sut y gall y claf gysylltu â gwasanaethau o'r fath.

16. Os na ddarperir y gwasanaethau ym mharagraff 15 gan y contractwr, y ffaith bod y Bwrdd Iechyd Lleol y cyfeirir ato ym mharagraff 27 yn gyfrifol am gomisiynu'r gwasanaethau.

17. Rhif ffôn GIG 111 Cymru a manylion GIG 111 Cymru ar-lein.

18. Manylion cyswllt gwasanaeth apwyntiadau brys y Bwrdd Iechyd Lleol.

19. Cyfeiriad gwe y Porth Mynediad Deintyddol.

20. Y trefniadau a wneir ar gyfer gofyn barn cleifion am ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan y practis deintyddol.

21. Sut y gall cleifion hysbysu am bryder yn unol â Rheoliadau 2011 neu wneud sylwadau ar y modd y darperir gwasanaeth.

22. Hawliau a chyfrifoldebau'r claf, yn enwedig o ran cadw apwyntiadau, gan gynnwys esboniad o'r amgylchiadau a fyddai'n arwain at ddadrestru claf a'i ddychwelyd i'r Porth Mynediad Deintyddol.

23. Y camau y caniateir eu cymryd pan fo claf yn ymddwyn yn dreisgar neu'n gamdriniol tuag at y contractwr, ei staff, personau sy'n bresennol ym mangre'r practis neu yn y man lle y darperir triniaeth o dan y contract neu bersonau eraill a bennir ym mharagraff 3 o Atodlen 3.

24. Manylion pwy sydd â mynediad at wybodaeth am gleifion (gan gynnwys gwybodaeth y gellir canfod pwy yw'r unigolyn ohoni) a hawliau'r claf mewn perthynas â datgelu gwybodaeth o'r fath.

25. Manylion unrhyw offerynnau awtomatig neu ddeallusrwydd artiffisial a ddefnyddir gan y practis a chadarnhad nad yw gwybodaeth am gleifion yn cael ei phrosesu drwy'r dulliau hyn.

26. Manylion sut i gyrchu polisi preifatrwydd y practis.

27. Enw, cyfeiriad post, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n barti i'r contract ac y gellir cael manylion gwasanaethau deintyddol sylfaenol yn yr ardal oddi wrtho.

ATODLEN 5 Rheoliadau 31(3)(a), 31(3)(b)

FFIOEDD

Ffioedd am ddarparu gwasanaethau deintyddol

1.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) a pharagraffau 2 a 3, caniateir codi ac adennill ffi am y swm y darperir ar ei gyfer yn y tabl ym mharagraff 4 mewn cysylltiad â darparu'r gwasanaethau deintyddol gorfodol perthnasol a ddisgrifir yn rheoliad 14 ac Atodlen 1.

(2) Cyfanswm y ffi y gellir ei chodi ar glaf unigol a'i hadennill ganddo mewn cysylltiad â chwrs o driniaeth neu gyrsiau o driniaeth lluosog a gyflenwir yr un pryd yw £384.

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr "yr un pryd" yw fel rhan o gwrs o driniaeth a all gael ei gyflenwi dros nifer o apwyntiadau.

Esemptiadau

2.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), ni chaniateir codi nac adennill ffi o dan baragraff 1 mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) darparu gwasanaethau deintyddol o dan Ddeddf 2006, ac eithrio gan gontractwr;

(b) carcharor;

(c) darparu swyddogaethau iechyd deintyddol y cyhoedd;

(d) tynnu pwythau;

(e) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), unrhyw berson sydd ar yr adeg y darperir y gwasanaeth—

(i) o dan 18 oed,

(ii) yn 18 oed neu drosodd ac mewn addysg lawnamser,

(iii) yn feichiog, neu

(iv) wedi cael babi o fewn y 12 mis cyn i driniaeth ddechrau.

(2) Mae'n amod o'r esemptiad o dan baragraff 2(1)(e)—

(a) bod declarasiwn ysgrifenedig yn cael ei wneud ar ffurflen a ddarperir at y diben hwnnw gan y Bwrdd Iechyd Lleol i'r perwyl bod y claf, ar y diwrnod y mae'r archwiliad yn digwydd, o fewn un o'r categorïau a bennir ym mharagraff 2(1)(e);

(b) bod rhaid i'r declarasiwn y cyfeirir ato yn is-baragraff (2) gael ei wneud gan y claf y darperir yr archwiliad ar ei gyfer, ac eithrio pan fo'r cais yn cael ei wneud gan berson arall ar ran y claf a bryd hynny rhaid i'r declarasiwn gael ei wneud yn lle hynny gan y person hwnnw;

(c) y caiff y Bwrdd Iechyd Lleol ei gwneud yn ofynnol bod tystiolaeth o hawlogaeth yn cael ei chyflenwi gan neu ar ran y claf;

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr "tystiolaeth o hawlogaeth" yw cofnod swyddogol (er enghraifft, tystysgrif geni, cerdyn adnabod myfyriwr neu Gofnod Iechyd Plentyn Personol) sy'n cadarnhau oedran y claf neu ei statws neu'r ddau yn ôl y digwydd.

3.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), ni chaniateir codi nac adennill ffi o dan baragraff 1 mewn cysylltiad ag—

(a) yr archwiliad clinigol, unrhyw adroddiad am yr archwiliad hwnnw na'r ddarpariaeth o asesiad a chyngor pan fo'r claf, ar y diwrnod y mae'r archwiliad yn cael ei gyflawni neu'r asesiad yn cael ei wneud—

(i) o dan 25 oed, neu

(ii) wedi cyrraedd 60 oed, neu

(b) yr archwiliad a'r asesiad o glaf os na ddarperir triniaeth arall ac os na chyflenwir cyfarpar deintyddol ar yr un pryd, sy'n arwain at—

(i) dyroddi presgripsiwn,

(ii) atgyweirio cyfarpar deintyddol, neu

(iii) atal gwaedu.

(2) Mae'n amod o'r esemptiad o dan baragraff 3(1)(a)—

(a) bod declarasiwn ysgrifenedig yn cael ei wneud ar ffurflen a ddarperir at y diben hwnnw gan y Bwrdd Iechyd Lleol i'r perwyl bod y claf, ar y diwrnod y mae'r archwiliad yn digwydd, o fewn un o'r categorïau a bennir ym mharagraff 3(1)(a);

(b) bod y declarasiwn y cyfeirir ato ym mharagraff (2)(a) uchod yn cael ei wneud gan y claf y darperir yr archwiliad ar ei gyfer, ac eithrio pan fo'r cais yn cael ei wneud gan berson arall ar ran y claf ac yn yr achos hwnnw rhaid i'r declarasiwn gael ei wneud yn lle hynny gan y person hwnnw;

(c) y caiff y Bwrdd Iechyd Lleol ei gwneud yn ofynnol bod tystiolaeth o hawlogaeth yn cael ei chyflenwi gan neu ar ran y claf.

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr "tystiolaeth o hawlogaeth" yw tystysgrif geni'r claf neu ddull arall o gadarnhau oedran y claf a ragnodir gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

Ffioedd

4. Nodir y ffioedd y caniateir eu codi a'u hadennill o dan baragraff 1 yn nhabl 1 isod—

Tabl 1

Teitl	*Ffi*	*Disgrifiad*
Apwyntiadau Mynediad Brys		
Pecyn Gofal Brys	£37.50	Dylai apwyntiadau brys gynnwys asesiad o iechyd geneuol (gan gynnwys meinweoedd meddal) ac atgyfeiriad ymlaen pan fo'n briodol. Dylent leddfu poen a/neu atal dirywiad sylweddol, gydag atgyfeiriad ymlaen os oes angen. Dylent fel arfer ddarparu datrysiad hirdymor. Pan fo'n briodol, gyda chydsyniad y claf, dylent gynnwys triniaeth ddiffiniol barhaol, gan gynnwys triniaethau adferol.
Asesiadau Cleifion Newydd		
Asesiad Claf Newydd	£24.50	Mae'n cynnwys asesiad iechyd a chlinigol cynhwysfawr (gan gynnwys meinweoedd meddal) a radiograffeg o fewn y geg. Mae gwasanaethau atal yn cynnwys cyngor am ddeiet a chyfarwyddyd hylendid geneuol (ar sail

		archwiliad clinigol), rheoli ffactorau risg gan gynnwys cyngor ar leihau ysmygu/alcohol/siwgr, gosod fflworid ar wyneb y dannedd, presgripsiwn past dannedd fflworid crynodiad uchel a selyddion rhychau (ar gyfer pydredd enamel) fel y bo'n briodol.
Pecynnau Gofal		
Pecyn Gofal Adferol Syml	£32.50	Mae'n cynnwys llenwadau, coronau dros dro, coronau Hall, ac echdynnu, hyd at gyfanswm cyfunol o 4 dant.
Pecyn Gofal Adferol Helaeth	£62	Fel y pecyn gofal adferol syml ar gyfer 5 i 8 dant. Deunydd cyfansawdd ar gyfer dannedd blaen (dant llygad i ddant llygad). Ar gyfer dannedd ôl, defnyddir deunyddiau clinigol briodol, sy'n cynnwys amalgam a deunyddiau amgen yn lle amalgam.
Pecyn Gofal Periodontol	£93.50	Asesir mynediad pan gymerir claf ymlaen ar ôl asesiad, ond rhaid i'r claf gyflawni sgôr plac o 30% o leiaf erbyn y trydydd ymweliad Addysg Iechyd Geneuol. Mae'n cynnwys sgôr plac a chyfarwyddyd hylendid geneuol wedi ei deilwra, siart pocedi chwe phwynt, dileu plac mecanyddol proffesiynol a digrammenu pocedi. Disgwylir i ddeiliaid contract ddilyn canllawiau, megis canllawiau Cymdeithas Periodontoleg Prydain ar reoli cleifion â chlefyd periodontol.
Pecyn Gofal Dannedd Gosod	£78	Nid yw'n cynnwys ffioedd labordy (sydd i'w talu'n uniongyrchol gan y claf, oni bai ei fod wedi ei esemptio rhag ffioedd GIG). Mae'n cynnwys dannedd gosod uchaf ac isaf, gan gynnwys dannedd gosod Crôm Cobalt, os oes rheswm clinigol amdanynt.
Pecyn Gofal Sefydlogi	£67.50	Ar gyfer cleifion sy'n ymgyflwyno â 7+ dant pydredig, pan fo gan o leiaf ddau o'r dannedd bydredd sy'n estyn yn agos at y bywyn neu i mewn iddo a phan fo'r claf yn awyddus i ymgysylltu. Mae'n cynnwys echdyniadau, mesurau atal DBOH, triniaethau adferol canolraddol ionomer gwydr, bywynddrychiad, gwaredu ffactorau sy'n dal plac.
Pecyn Sianel y Gwreiddyn ar gyfer Dannedd Blaen	£82	Ar gyfer hyd at ddau ddant 1-3, gan gynnwys unrhyw driniaethau adferol parhaol.
Pecyn Sianel y Gwreiddyn ar gyfer Dannedd Ôl	£164.50	Pecyn sianel y gwreiddyn ar gyfer dannedd ôl a gogilddannedd, ar gyfer hyd at ddau ddant. Mae'n cynnwys ail gilddannedd os yw'r dant yn strategol angenrheidiol i gynnal deintiad (e.e. cleifion heb gynhaliaeth ôl, rheswm meddygol dros ei gadw etc.). Mae'n cynnwys unrhyw orchuddio cysbau sydd ei angen, ac eithrio ffi labordy (a delir gan gleifion, oni bai eu bod yn esempt rhag ffioedd GIG).
Pecyn Gofal Coronau, Pontydd, Mewnosodiadau, Arosodiadau ac Argaenau	£126.50	Nid yw'n cynnwys triniaethau adferol dros dro. Pont â hyd at dair uned neu hyd at ddwy goron neu pan ddarperir coron a phont, byddai pont gantilifrog sengl a choron sengl yn cael eu darparu o dan un pecyn gofal. Mae'n cynnwys modelau astudio, pyst a chreiddiau etc. Nid yw'n cynnwys ffioedd labordy.

Pecyn Gofal Amrywiol	£22.50	Ar gyfer triniaeth ac ymyriadau i gleifion sy'n dod y tu allan i becyn gofal cyfredol neu'r tu allan i'r cyfnod gwarant. Mae'n cynnwys: atgyweirio/ychwanegu/ail-lein io dannedd gosod, esmwytho dannedd gosod, modelau astudio, cyfarpar codi brathiad, biopsi, atgyweirio/ailsmentio coron, pont neu argaen, tynnu pwythau, pericoronitis, llid briwiol madreddol acíwt y deintgig, materion brys orthodontig, atal gwaedlif (ar gyfer echdyniadau a wnaed y tu allan i becyn gofal), soced sych (ar gyfer echdyniadau a wnaed y tu allan i becyn gofal). Nid yw'n cynnwys unrhyw ffi labordy.
Atal		
Adalw	£22.50 yr ymweliad	Mae cleifion sy'n cael archwiliad adalw i'w rhoi ar becyn adalw yn unol â chanllawiau NICE. Mae'n ofynnol datgan ar y ffurflen FP17 pa ysbaid adalw y mae'r claf arni ar hyn o bryd. Rhaid cynnal proses fonitro glinigol gadarn i gadarnhau bod y claf ar y pecyn adalw priodol ar sail asesiad risg.

Atgyfeirio

5.—(1) Dim ond un ffi y caniateir ei chodi a'i hadennill gan y claf am y cwrs o driniaeth neu'r cwrs o driniaeth frys o dan baragraff 1 pan fo'r claf wedi dechrau cwrs o driniaeth o dan becyn gofal neu gwrs o driniaeth frys gydag un contractwr ond ei fod yn cael ei atgyfeirio at—

(a) contractwr amgen ar gyfer rhan o'r cwrs o driniaeth o dan y pecyn gofal neu gwrs o driniaeth frys, neu

(b) ysbyty neu ddarparwr gwasanaeth arall o dan Ran 1 o Ddeddf 2006 ar gyfer cyflenwi cyfarpar deintyddol fel rhan o'r cwrs o driniaeth.

(2) Dim ond y contractwr gwreiddiol a gaiff godi ac adennill y ffi pan fo paragraff (1) yn gymwys.

Codi ac adennill ffioedd

6.—(1) Pan ganiateir codi ac adennill ffi o dan yr Atodlen hon, rhaid i'r contractwr, pan fydd yn trefnu cwrs o driniaeth—

(a) rhoi gwybod i'r claf ei bod yn ofynnol iddo dalu ffi,

(b) rhoi gwybod i'r claf pa un neu ragor o'r ffioedd a nodir yn y tabl ym mharagraff 4 sy'n gymwys ar yr adeg honno a darparu amcangyfrif o gyfanswm y ffi, ac

(c) rhoi gwybod i'r claf fod y ffi wedi ei chapio yn unol â pharagraff 1(2) o'r Atodlen hon a rhoi gwybod iddo am lefel y ffi wedi ei chapio.

(2) Pan gwblheir yr apwyntiad neu'r cwrs o driniaeth, yn ôl y digwydd, caiff contractwr godi'r ffi briodol ar y claf a'i hadennill ganddo (oni bai ei bod eisoes wedi ei thalu).

(3) Pan fydd ffi sy'n daladwy o dan yr Atodlen hon yn dod i'w law, rhaid i'r contractwr ddarparu derbynneb—

(a) ar ffurflen bapur a ddarperir at y diben hwnnw gan y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol, neu

(b) ar ffurflen electronig sy'n nodi'r person a ddarparodd y gwasanaeth, enw'r contractwr, y gwasanaethau a ddarparwyd, a swm y ffi a dalwyd a'r dyddiad y'i talwyd.

Ad-dalu ffioedd

7.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw berson—

(a) sy'n talu unrhyw ffi o dan baragraff 1, a

(b) a fyddai, oni bai am fethiant i gydymffurfio â pharagraff 2(2) neu 3(2), wedi bod yn esempt rhag y ffi o dan baragraff 1.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae gan unrhyw berson y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo hawlogaeth i gael ad-daliad o ffi o'r fath.

(3) Mae'n amod o'r hawlogaeth i ad-daliad o dan y rheoliad hwn fod y person yn cyflwyno hawliad i'r Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer yr ad-daliad—

(a) o fewn—

(i) 3 mis ar ôl talu'r ffi, neu

(ii) unrhyw gyfnod y mae Gweinidogion Cymru yn barnu ei bod yn briodol ym mhob amgylchiad ei ganiatáu, a

(b) mewn ffordd a ragnodir gan Weinidogion Cymru at y diben hwnnw, ac

(c) wedi ei ategu gan unrhyw dystiolaeth na chafodd ei darparu'n flaenorol.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), pan na fo'r person am y tro yn gallu gweithredu, caiff person arall gyflwyno hawliad ar ran y person hwnnw.

(5) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol anfon yr hawliad ymlaen at Weinidogion Cymru o fewn 14 o ddiwrnodau clir a chaiff Gweinidogion Cymru wrthod derbyn hawliad a wneir gan berson ar ran person arall pan fônt o'r farn—

(a) bod y person y gwneir hawliad ar ei ran yn gallu gweithredu, neu

(b) nad yw'r person sy'n gwneud yr hawliad yn berson addas i weithredu ar ran y person arall hwnnw.

(6) Os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried hawliad o dan is-baragraff (3), wedi eu bodloni bod gan y person hawlogaeth i ad-daliad o dan y paragraff hwn, rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu bod ad-daliad yn cael ei wneud i'r person hwnnw mewn ffordd sy'n ymddangos yn briodol yn yr amgylchiadau.

Rhoi cyfrif am ffioedd mewn perthynas â thaliadau

8. Pan fo contractwr wedi darparu gwasanaethau deintyddol y mae ffi yn daladwy amdanynt o dan yr Atodlen hon, rhaid lleihau'r taliad a fyddai fel arall yn daladwy gan y Bwrdd Iechyd Lleol i'r contractwr hwnnw yn unol â swm y ffi honno, ni waeth a yw'r contractwr wedi adennill y ffi honno ai peidio.

Casglu canolog a phrosesau electronig

9.—(1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddydau o dan adran 60 o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol casglu taliadau'n ganolog, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod y contract yn ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu casglu yn unol â'r cyfarwyddydau hynny.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru bennu gofynion ar gyfer—

(a) cyflwyno gwybodaeth am ffioedd ac esemptiadau i Fyrddau Iechyd Lleol yn electronig;

(b) cydnabod atebolrwydd yn electronig gan gleifion;

(c) dyroddi derbynebau'n electronig.

(3) Pan fo prosesau electronig wedi eu pennu o dan baragraff (2), rhaid iddynt fodloni unrhyw ofyniad cyfatebol yn y Rheoliadau hyn ar gyfer prosesau ysgrifenedig neu ddogfennaeth ysgrifenedig.

(4) Mae cyfarwyddydau a manylebau o dan y paragraff hwn yn delerau yn y contract.

ATODLEN 6

Rheoliad 43

DIWYGIADAU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006

1.—(1) Mae Rheoliadau (Ffioedd) 2006 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), yn y diffiniad o "relevant primary dental services", ar ôl y gair "contract" mewnosoder "(except a contract under the National Health Service (General Dental Services Contracts and Patient Charges) (Wales) Regulations 2026)".

(3) Yn rheoliad 3(2)(e)(ii) (ffioedd am ddarparu gwasanaethau deintyddol) hepgorer " or".

(4) Yn rheoliad 3(2)(f), yn lle "supplied." rhodder "supplied, or".

(5) Yn rheoliad 3(2) ar ôl is-baragraff (f) mewnosoder—

> "(g) the provision of dental services under a general dental services contract under the National Health Service (General Dental Services Contracts and Patient Charges) (Wales) Regulations 2026."

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006

2.—(1) Mae Rheoliadau (GDP) 2006 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) yn y mannau priodol mewnosoder—

> ""the 2006 Act" means the National Health Service (Wales) Act 2006(**41**);";
>
> ""the 2026 GDS Contracts and Patient Charges Regulations" means the National Health Service (General Dental Services Contracts and Charges) (Wales) Regulations 2026;";
>
> ""the 2026 Regulations" means the National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2026;";
>
> ""care package" means a defined bundle of the dental services set out in Part 1 of Schedule 2 which are provided to a patient as a course of treatment based on assessed clinical need and risk;";
>
> ""new patient assessment" means an assessment carried out in accordance with paragraph 10 of part 2 of Schedule 1 of the 2026 GDS Contracts and Patient Charges Regulations;";
>
> ""urgent care" means treatment to provide relief from pain and/or to prevent significant deterioration of a particular dental problem, with the aim to provide, where possible, a long-term solution.",

(**41**) 2006 p. 42.

(b) yn y diffiniad o “advanced mandatory services” yn lle “GDS Contracts Regulations” rhodder “2026 GDS Contracts and Charges Regulations”,

(c) yn y diffiniad o “agreement”, ar ôl “Act” mewnosoder “or section 64 of the 2006 Act;”,

(d) yn y diffiniad o “course of treatment” ar ôl y gair “patient” yn yr ail le y mae’n ymddangos mewnosoder “as part of a care package or otherwise”,

(e) yn y diffiniad o “mandatory services” yn lle “GDS Contracts Regulations” rhodder “2026 GDS Contracts and Charges Regulations”,

(f) yn y diffiniad o “NHS Charge” ar ôl “NHS Charges Regulations” mewnosoder “ or the 2026 GDS Contracts and Charges Regulations”,

(g) yn y diffiniad o “primary care list”, ar ddiwedd is-baragraff (f) hepgorer “ or”,

(h) ar ddiwedd is-baragraff (g) mewnosoder “ or”, ac

(i) ar ôl is-baragraff (g) mewnosoder—

“(h) a list made and kept pursuant to the National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2026;”.

(3) Yn rheoliad 4(3)(c)(ii), ar ôl “of the Act” mewnosoder “or within the meaning of regulation 16(3) of the 2026 Regulations”.

(4) Yn lle rheoliad 13, gan gynnwys y pennawd, rhodder—

“Mandatory and advanced mandatory services

13.—(1) Where an agreement includes the provision of mandatory or advanced mandatory services, the agreement must specify the number of appointments or care packages, as the case may be, to be provided by the contractor—

(a) where the agreement begins on 1 April, in each financial year or, by virtue of the duration of the agreement, part financial year; or

(b) where the agreement begins on a date other than 1 April, in the remainder of the financial year in which the agreement begins, and in each financial year thereafter.

(2) An agreement must contain terms which have the effect that payment for provision of mandatory or advanced mandatory services must be in accordance with any directions issued by the Welsh Ministers under section 66(4) of the 2006 Act (regulations about section 64 arrangements) and Part 1 of Schedule 2.”.

(5) Yn rheoliad 15—

(a) yn y pennawd yn lle “**units of dental activity**” rhodder “**mandatory or advanced mandatory services,**”,

(b) yn is-baragraff (2)(a) yn lle “units of dental activity” rhodder “appointments or care packages, as the case may be”,

(c) yn is-baragraff (2)(b)(i) yn lle “units of dental activity” rhodder “appointments or care packages, as the case may be”, a

(d) yn is-baragraff (2)(b)(ii) yn lle “units” rhodder “appointments, care packages or units”.

(6) Yn rheoliad 17—

(a) yn is-baragraff (1)(a) yn lle “the Assembly under section 28E(3A) of the Act (personal medical or dental services: regulations)” rhodder “the Welsh Ministers under section 66(4) of the 2006 Act (regulations about section 64 arrangements)”,

(b) yn is-baragraff (1)(b) yn lle "the Assembly under section 16BB(4) (Local Health Board's functions)[2] or 28E(3A) of the Act" rhodder "the Welsh Ministers under section 12 (functions of Local Health Boards) or 66(4) of the 2006 Act",

(c) yn is-baragraff (2)(c) yn lle "the Assembly under section 28E(3A)" rhodder "the Welsh Ministers under section 66(4) of the 2006 Act", a

(d) yn is-baragraff (3) yn lle "16BB(4) or 28E(3A) of the Act" rhodder "12 or 66(4) of the 2006 Act".

(7) Yn rheoliad 18—

(a) yn is-baragraff (2)(a) ar ôl "NHS Charges Regulations" mewnosoder "or the 2026 GDS Contracts and Patient Charges Regulations",

(b) yn is-baragraff (3)(a) ar ôl "NHS Charges Regulations" mewnosoder "or the 2026 GDS Contracts and Patient Charges Regulations", ac

(c) yn is-baragraff (3)(b) ar ôl "NHS Charges Regulations" mewnosoder "or the 2026 GDS Contracts and Patient Charges Regulations".

(8) Yn rheoliad 21—

(a) yn is-baragraff (2)(c) yn lle "section 28M of the Act (persons eligible to enter into GDS contracts)[1] and regulations 4 and 5 (where applicable) of the GDS Contracts Regulations" rhodder "section 59 of the 2006 Act (persons eligible to enter into GDS contracts) and regulations 4 and 5 (where applicable) of the 2026 GDS Contracts and Patient Charges Regulations",

(b) yn is-baragraff (5) yn lle "section 28M of the Act and regulations 4 and 5 (where applicable) of the GDS Contracts Regulations" rhodder "section 59 of the 2006 Act and regulations 4 and 5 (where applicable) of the 2026 GDS Contracts and Patient Charges Regulations",

(c) yn is-baragraff (6) yn lle "the Act and the GDS Contracts Regulations" rhodder "the 2006 Act and the 2026 GDS Contracts and Patient Charges Regulations",

(d) yn is-baragraff (6)(b) ar ôl "same" mewnosoder "mandatory",

(e) yn is-baragraff (6)(c) hepgorer "or orthodontic courses of treatment",

(f) yn is-baragraff (6)(c)(ii) hepgorer "or orthodontic courses of treatment",

(g) yn is-baragraff (6)(d)(i)—

(i) yn lle "units of dental activity or units of orthodontic activity" rhodder "appointments or care packages", a

(ii) hepgorer "or 14",

(h) hepgorer is-baragraff (6)(e),

(i) yn is-baragraff (6)(f) hepgorer "or orthodontic course of treatment" yn y ddau le y mae'n ymddangos,

(j) yn is-baragraff (6)(g) yn lle "GDS Contracts Regulations" rhodder "2026 GDS Contracts and Patient Charges Regulations",

(k) yn is-baragraff (8) yn lle "section 28M of the Act or regulation 4 of the GDS Contracts Regulations" rhodder "section 59 of the 2006 Act or regulation 4 of the 2026 GDS Contracts and Patient Charges Regulations",

(l) yn is-baragraff (9) yn lle "Assembly in accordance with regulation 8(3) and (4) of the GDS Contracts Regulations (pre-contract disputes)" rhodder "Welsh Ministers in accordance with regulation 8(3) and (4) of the 2026 GDS Contracts and Patient Charges Regulations (pre-contract disputes)", ac

(m) yn is-baragraff (10) yn lle “Assembly” rhodder “Welsh Ministers”.

(9) Mae Atodlen 2 wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(a) yn y pennawd, yn lle “UNITS OF DENTAL ACTIVITY” rhodder “MANDATORY SERVICES, ADVANCED MANDATORY SERVICES”,

(b) yn lle’r cyfan o Ran 1 rhodder—

“PART 1

MANDATORY SERVICES AND ADVANCED MANDATORY SERVICES

Where the contractor provides mandatory services or advanced mandatory services as part of the agreement, the appointment or care package must be of a type listed in and in accordance with the relevant description set out in Table A below—

Table A

Title	Description
Urgent Access Appointments	
Urgent Care Package	Urgent appointments should include an oral health assessment (including soft tissue) and onward referral where appropriate. Should provide relief from pain and/or prevent significant deterioration, with onward referral if required. Should normally provide a long-term solution. Where appropriate, with patient’s consent, should consist of permanent definitive treatment, including restorations
New Patient Assessments	
New Patient Assessment	Includes global health and clinical assessment (including soft tissue) and intraoral radiography. Prevention includes diet advice and oral hygiene instruction (based on clinical exam), risk factor management including smoking/alcohol/sugar reduction advice, topical fluoride application, high concentration fluoride toothpaste prescription and fissure sealants (for enamel caries) as appropriate
Care Packages	
Simple Restorative Care Package	Includes fillings, temporary crowns, Hall crowns and extractions up to a total of 4 teeth
Extensive Restorative Package	As per simple restorative package for 5 to 8 teeth. Composite material for anterior teeth (canine to canine). Posterior teeth to use clinically appropriate materials, which includes both amalgam and amalgam alternatives
Periodontal Care Package	Entry assessed on engagement from assessment, but patient must achieve minimum of 30% plaque score by 3rd OHE visit. Includes plaque score and tailored OHI, 6ppc, professional mechanical plaque removal and pocket debridement. Contract holders expected to follow guidance such as the Society of British Periodontology guidance on managing patients with periodontal disease

Denture Care Package	Excludes laboratory fees (paid directly by the patient, unless exempt from NHS charges). Includes upper and lower dentures, including cobalt chrome dentures if clinically indicated
Stabilisation Care Package	For patients who present with 7+ carious teeth, where at least two of the teeth have caries extending to close proximity or into the pulp and the patient is keen to engage. Includes extractions, DBOH prevention, glass ionomer intermediate restorations, pulp extirpation, removal of plaque retentive factors
Anterior Root Canal Package	For up to two teeth 1-3, includes any permanent restorations
Posterior Root Canal Package	Posterior and pre-molar root canal package, for up to two teeth. Includes second molars if the tooth is strategically necessary to maintain dentition (e.g. patients who have a lack of posterior support, a medical reason to retain etc.). Includes any cuspal coverage needed, excluding laboratory fee (paid by patients, unless exempt from NHS charges)
Crown Bridge, Inlay, Onlay and Veneer Care Package	Excludes temporary restorations. Up to a three unit bridge or up to two crowns or where a crown and bridge are both provided a single cantilever bridge and single crown would be provided under a single care package. Includes study models, posts and cores etc. Excludes laboratory charges.
Miscellaneous Care Package	For treatment and interventions for patients that fall outside a current care package or outside the guarantee period. Includes: denture repair/addition/reline, denture ease, study models, bite raising appliance, biopsy, repair/recement of a crown, bridge or veneer, removal of sutures, pericoronitis, ANUG, orthodontic urgent issues, arrest of haemorrhage (for extractions carried outside of a care package), dry socket (for extractions carried outside of a care package). Excludes any laboratory charge
Prevention	
Recall	Patients having a recall examination must be put on a recall package aligned to NICE guidance. Requirement to declare on the FP17 which recall interval the patient is currently on. A robust clinical monitoring process must take place to confirm that the patient is on the appropriate risk assessed recall package".

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 37

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The National Health Service (General Dental Services Contracts and Patient Charges) (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations set out, for Wales, the framework for general dental services contracts under section 57 of the National Health Service Act 2006 ("the Act").

Part 2 of the Regulations prescribes the conditions which, in accordance with section 59 of the Act, must be met by a contractor before the Local Health Board may enter into a general dental services contract with it.

Part 3 of the Regulations prescribes the procedure for pre-contract dispute resolution, in accordance with section 62(2) of the Act. Part 3 applies to cases where the contractor is not a health service body. In cases where the contractor is such a body, the procedure for dealing with pre-contract disputes is set out in section 7 of the Act.

Part 4 of the Regulations sets out the procedures, in accordance with section 62(3) of the Act, by which the contractor may obtain health service body status.

Part 5 of (and Schedules 1 to 5 to) the Regulations prescribe the terms which, in accordance with sections 61 and 62 of the Act, must be included in a general dental services contract (in addition to those contained in the Act). It includes, in regulation 14, a description of the services which must be provided to patients under general dental services contracts pursuant to section 58 of the Act.

The prescribed terms include terms relating to—

(a) the parties and duration of the contract (regulations 10 and 13);

(b) the mandatory services to be provided (regulation 14) and the standard proportions of those services (regulation 17);

(c) delivery reports (regulations 20 and 24);

(d) finance (regulation 30);

(e) payment, charges and financial interests (regulation 31);

(f) arrangements on termination (regulation 32);

(g) other contractual terms as specified in Schedule 3, including patient records, the provision of information and rights of entry, concerns, dispute resolution, and procedures for variation and termination of contracts.

Part 6 of the Regulations makes transitional provisions. An existing contract has effect on and after 1 April 2026 as if it were a contract entered into under these Regulations.

Regulation 31 and Schedule 5 sets out the way patient charges are to be collected and calculated as well as providing for exemptions in certain circumstances.

The Regulations also make amendments to the National Health Service (Dental Charges) (Wales) Regulations 2006 in order to change the way patient charges are calculated.

These Regulations also make amendments to the National Health Service (Personal Dental Services Agreements) (Wales) Regulations 2006 in order to align the way mandatory services and patient charges are provided for in those Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained by contacting the Health and Social Services Group, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 37

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The National Health Service (General Dental Services Contracts and Patient Charges) (Wales) Regulations 2026

Made *9 February 2026*

Coming into force in accordance with regulation 1(2)

CONTENTS

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by sections 2, 56(5) and (6), 57, 58, 59, 60(2), 61, 62, 63(1), 66(1) and (4), 125(1), 126(5) and 203(9) and (10) of the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**).

(**1**) 2006 c. 42.

PART 1
GENERAL

Title, coming into force and application

1.—(1) The title of these Regulations is the National Health Service (General Dental Services Contracts and Patient Charges) (Wales) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 11 March 2026, except for regulations 42 and 43 which come into force on the 1 April 2026.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

Interpretation

2.—(1) In these Regulations—

"the 1984 Act" ("*Deddf 1984*") means the Dentists Act 1984(**2**);

"the 1986 Act" ("*Deddf 1986*") means the Insolvency Act 1986(**3**);

"the 1989 Act" ("*Deddf 1989*") means the Children Act 1989(**4**);

"the 2006 Act" ("*Deddf 2006*") means the National Health Service (Wales) Act 2006;

"the 2005 Order" ("*Gorchymyn 2005*") means the Dentists Act 1984 (Amendment) Order 2005(**5**);

